



Adolygiad Addysg Uwch: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Mehefin 2015

Cynnwys

Yr adolygiad yma.....	1
Canfyddiadau allweddol	2
Beirniadaethau ASA am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	2
Nodweddion o arfer da	2
Argymhellion.....	2
Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith	2
Yngylch Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	3
Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.....	6
1 Y Feirniadaeth am: Osod a chynnal safonau academiaidd y dyfarniadau	7
2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr	20
3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu	52
4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr	56
5 Sylwadau am Ryngwladoli	60
Rhestr termau	62

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Addysg Uwch: Cymru a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Cafwyd yr adolygiad rhwng 8 a 12 Mehefin 2015 ac fe'i weithredwyd gan dîm o bum adolygwr, fel a ganlyn:

- Yr Athro John Baldock
- Mrs Claire Blanchard
- Ms Hayley Burns
- Yr Athro Diane Meehan
- Mr Mathew T Kitching (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch a ddarperir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a barnu a yw ei safonau a'i hansawdd academaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Y disgwyliadau hyn yw'r datganiadau yng [Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU](#) (y Cod Ansawdd)¹ sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Yn yr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
 - osod a chynnal safonau academaidd
 - ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
 - yr wybodaeth a ddarperir am ddarpariaeth addysg uwch
 - y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
- yn rhoi sylwadau ar y thema a ddewiswyd
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r darparwr yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Gallwch weld crynodeb o'r canfyddiadau yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 2. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 7.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#) a'i chenhadaeth.² Mae adran benodol yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Addysg Uwch: Cymru](#)³ ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill. I gael esboniad o'r termau gwelwch y [Rhestr Termau](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

¹ Cyhoeddir Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) ar: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code.

² Gwefan ASA: www.qaa.ac.uk/cy/aboutus/pages/wales.

³ Y gwe-dudalennau am Adolygiad Addysg Uwch: Cymru: www.qaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/higher-education-review-wales.aspx.

Canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau ASA am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

- Mae'r gwaith o osod a chynnal safonau academiaidd y dyfarniadau'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o **arfer da** dilynol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

- Yr ystod gynhwysfawr o gymorth academiaidd a bugeiliol a ddarperir i'r holl fyfyrwyr (Disgwyliadau B3, B4 a B11).
- Y defnydd a wneir o system ryngweithiol ar-lein i gasglu adborth gan fyfyrwyr ac i weithredu ar yr adborth hwnnw (Disgwyliad B5).
- Y ffordd y mae'r Brifysgol yn ymgysylltu â'i phartneriaid cydweithredol drwy rolau'r Cydlynwyr Partneriaeth a'r Arweinwyr Timau Partneriaeth (Disgwyliad B10).

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr **argymhellion** dilynol i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Erbyn mis Rhagfyr 2015:

- egluro aelodaeth, presenoldeb, cylch gwaith a gofynion adrodd pob un o'r byrddau o fewn strwythur byrddau arholi'r Brifysgol (Disgwyliadau B6 a B7)
- mabwysiadu dull gweithredu cyson i sicrhau bod y myfyrwyr i gyd yn derbyn meini prawf graddio clir sy'n eu galluogi i ddeall beth sy'n ofynnol er mwyn cyflawni gradd benodol (Disgwyliad B6)
- sicrhau bod adborth o asesiadau'n cael ei ddarparu yn unol â gofynion y Brifysgol (Disgwyliad B6)
- cryfhau'r trefniadau adrodd ar gyfer arholi allanol i sicrhau bod y ddarpariaeth gydweithredol yn cael ei goruchwyllo'n fwy effeithiol (Disgwyliadau B7 a B10).

Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith

Mae tîm adolygu ASA yn **cadarnhau** r camau gweithredu dilynol y mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn eu cymryd yn barod i sicrhau safonau academiaidd a/neu i wella'r ddarpariaeth addysgol y mae'n ei chynnig i'w myfyrwyr.

- Gwaith y Brifysgol i roi gwybod i'r myfyrwyr am y camau a gymerwyd i ymateb i'w hadborth (Disgwyliadau B5 a B4).
- Gwaith yr Adran Profiad Myfyrwyr i gefnogi Undeb y Myfyrwyr i gryfhau'r oruchwyliaeth ar system gynrychiolaeth y myfyrwyr (Disgwyliad B5).
- Y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau dealltwriaeth gyffredin ymysg staff a myfyrwyr o'r drefn newydd ar gyfer ymdrin ag amgylchiadau esgusodol (Disgwyliad B6).
- Y gwaith o sicrhau bod adroddiadau'r arholwyr allanol ar gael i'r myfyrwyr ar y porth myfyrwyr (Disgwyliad B7).

Ynghylch Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Sefydlwyd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (y Brifysgol, PCYDDS) fel Prifysgol â Siarter Frenhinol ym mis Hydref 2012 drwy gyfuno Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe. Ffurfiwyd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ei hun drwy gyfuno Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin yn 2010.

Mae'r Brifysgol wedi arwain y gwaith o ddatblygu strwythur prifysgol sector deuol, a elwir Grŵp PCYDDS, fel fframwaith i alluogi cydweithio â sefydliadau eraill yn yr ardal i ddarparu dull integredig o gynllunio cwricwlwm ac i gryfhau llwybrau cynnydd. Yn rhan o'r datblygiad hwn, unodd Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion i greu Grŵp PCYDDS yn y flwyddyn academaidd 2013-14 ac maent wedi eu cynrychioli erbyn hyn ar y cyrff gwneud penderfyniadau academaidd allweddol o fewn y Brifysgol, gan gadw eu hunaniaeth sefydliadol amlwg eu hunain.

Mae gan y Brifysgol gampysau yng Nghaerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan a Llundain, a phum campws yn Abertawe, a chan bob un ei hunaniaeth amlwg ei hun. Mae ganddi bresenoldeb hefyd yng Nghaerdydd a, thrwy ei phartneriaid sector deuol, mewn amrywiaeth o leoliadau eraill yn Ne-orllewin Cymru. Does dim 'priif' gampws unigol, ac mae mwyafrif y cyfadrannau'n gweithio ar draws o leiaf ddau leoliad. Mae gan y staff gampws 'cartref' yn yr ystyr o swyddfa sylfaenol, ond disgwylir i'r mwyafrif weithio ar draws y campysau, gan deithio pan fo'r angen. Mae contractau wedi eu cyfnewid ar gyfer datblygu campws £100m newydd ar lan y dŵr yn Abertawe, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn galluogi'r Brifysgol i gyfuno ei darpariaeth yn Abertawe pan fydd y campws wedi'i gwblhau. Disgwylir i'r symudiad i'r campws newydd gychwyn yn y flwyddyn academaidd 2017-18.

Yn ogystal, ym mis Hydref 2014 gwnaethpwyd cytundeb ffurfiol ar ail-leoli pencadlys S4C, y sianel deledu cyfrwng Cymraeg, i gampws Caerfyrddin, sef datblygiad wedi'i seilio ar gyd-leoliad S4C a sefydliadau eraill i ffurfio canolfan greadigol mewn adeilad adnabyddus. Mae'r Brifysgol yn credu, o'u cymryd gyda'i gilydd, y bydd y datblygiadau hyn yn gweddnewid yr amgylcheddau dysgu sydd wedi'u darparu yn Abertawe a Chaerfyrddin, ac y bydd yn cyflenwi'r camau arwyddocaol a gymerwyd yn barod i wella'r campysau yn Llanbedr Pont Steffan a Llundain.

Ym mis Mawrth 2015, roedd gan y Brifysgol gyfanswm o 11,241 o fyfyrwyr, yr oedd 1,746 ohonynt yn astudio yn ei sefydliadau partner cydweithredol. Roedd 8,704 o fyfyrwyr (oddeutu 77 y cant) yn israddedigion ac roedd 3,690 o fyfyrwyr (oddeutu 32 y cant) yn astudio'n rhan amser. Roedd y nifer uchaf o fyfyrwyr, sef cyfanswm o 4,812 (oddeutu 43 y cant), wedi'i seilio ar y campysau yn Abertawe. Mae'r Brifysgol yn ddarparwr blaenllaw o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2012-13, gwnaeth 20.5 y cant o fyfyrwyr y Brifysgol ran, neu'r cyfan, o'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cynnig academaidd y Brifysgol yn eang ei ystod, gyda darpariaeth ymhob un ond un o Grwpiau Pwnc y System Cyd-godio Pynciau Academaidd (JACS) a dyfarniadau'n amrywio o lefelau 3 i 8 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC). Cytunwyd ar ei strwythur academaidd yn rhan o broses gyfuno 2012 ac yn wreiddiol roedd yn cynnwys saith cyfadran, wedi eu seilio i raddau mawr ar gyfadrannau oedd yn bodoli'n barod yn y sefydliadau gwreiddiol. O ganlyniad i welliannau dilynol crëwyd strwythur symlach o bum cyfadran, a ddaeth yn weithredol o fis Medi 2014, a phob un yn cynnwys nifer o Ysgolion. Mae'r Brifysgol yn parhau i amrywio ei chynnig cwricwlwm a hyblygrwydd ei rhaglenni astudio gan weithio'n agos gyda'i sefydliadau partner strwythurol, Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr, i ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr yn Ne-orllewin Cymru.

Ers mis Hydref 2012, cafwyd cynnydd sylweddol o ran cyfuno fframweithiau academaidd a llywodraethu'r sefydliadau sylfaenol. Mae gwaith yn parhau mewn ystod o feysydd, gan gynnwys agweddau o'u strwythurau academaidd a gwasanaethau proffesiynol, datblygu polisïau a sefydlu cyfres lawn o reoliadau a gweithdrefnau ar gyfer y Brifysgol gyfun.

Yn hanesyddol, roedd y Brifysgol a'i sefydliadau sylfaenol wedi dirymu eu pwerau dyfarnu graddau dros dro ac roeddent yn cynnig graddau Prifysgol Cymru ond dechreuodd ddyfarnu ei graddau ei hun ym mis Gorffennaf 2014. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi'i thrwyddedu gan Pearson i gynnig cymwysterau Cenedlaethol Uwch ac mae'n gweithio gyda nifer fechan o gyrff dyfarnu eraill, yn bennaf mewn perthynas â chymwysterau proffesiynol. Fodd bynnag, mae'n parhau i weithio'n agos gyda Phrifysgol Cymru ac mae'n mynd i gael ei chynrychioli ar ei phwyllgorau, a disgwylir i Brifysgol Cymru ddod yn rhan o'r Grŵp PCYDDS erbyn diwedd y ddegawd.

Cenhadaeth y Brifysgol yw "trawsnewid addysg; trawsnewid bywydau". Mae ei gweledigaeth, ei gwerthoedd a'i blaenoriaethau strategol wedi'u disgrifio yn ei Chynllun Strategol 2013-17. Yn ogystal â chyflenwi'r broses gyfuno yn dilyn yr uno yn 2012, mae'r canlyniadau allweddol ar gyfer y cyfnod cynllunio'n cynnwys gwella recriwtiad, cadwraeth a phrofiad y myfyrwyr; datblygu cwricwlwm craidd sy'n datblygu creadigrwydd a menter; a hybu addysg ryngwladol. Mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais arbennig ar ymrwymiad strategol y Brifysgol i ddatblygu cynaliadwy, ac i gynnwys cynaliadwyedd fel egwyddor graidd ymhob agwedd o fywyd y Brifysgol, gan gynnwys y cwricwlwm. Mae wedi'i danegu gan nifer o strategaethau, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â gwaith ymchwil; dysgu, addysgu a chyfoethogi; cynaliadwyedd a gweithgareddau rhyngwladol, ynghyd â strategaeth ar gyfer ehangu mynediad ac ymgysylltu cymunedol sydd yn y camau terfynol o gael ei gymeradwyo ar hyn o bryd. Nod Strategaeth Ymchwil y Brifysgol, a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2014 yw cefnogi'r ystod o waith ymchwil sy'n digwydd wrth ganolbwyntio ar feysydd wedi'u targedu sy'n alinio â'r blaenoriaethau ymchwil a osodwyd gan Lywodraethau Cymru a'r DU, y Comisiwn Ewropeaidd a'r Cyngor Ymchwil.

Mae'r Cynllun Strategol yn nodi ymrwymiad y Brifysgol i Gymru, yn nhermau ei pherthynas agos â chyflogwyr a chymunedau, ac yn nhermau ei rôl fel darparwyr o bwys ym maes addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r Brifysgol yn weithgar o ran cyfrannu at ddatblygu adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg ac mae ganddi ei thŷ cyhoeddi ei hun, Canolfan Peniarth. Mae pencadlys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yng Nghanolfan Fenter Ddiwylliannol y Brifysgol yng Nghaerfyrddin ac mae'r Brifysgol wedi'i chynrychioli ar bwyllgorau mawr y Coleg. Mae'r Brifysgol wedi derbyn grant Llywodraeth Cymru o £300,000 i sefydlu Canolfan Cymraeg yng Nghaerfyrddin. Mae hybu'r iaith Gymraeg yn broses barhaus, yn arbennig ar y campysau yn Abertawe lle mae ei defnydd yn llai amlwg, ac ym mis Rhagfyr 2014, cymeradwyodd y Senedd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog ar gyfer y Brifysgol gyfun. Ar yr un pryd mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithio tuag at ddod yn llofnodwr i'r *Siarter Iaith Gymraeg ar gyfer Undebau Myfyrwyr Prifysgolion Cymru*, a ddatblygwyd gan UCM Cymru.

Mae partneriaethau cydweithredol presennol y Brifysgol yn perthyn i dri chategori eang: partneriaethau rhanbarthol gyda cholegau addysg bellach sy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ei phartneriaid strwythurol yn y Grŵp PCYDDS; partneriaethau eraill a ffurfiwyd drwy Brifysgol Fetropolitan Abertawe; a rhai partneriaethau newydd, yn bennaf gyda chyn ganolfannau cydweithredol Cymru. Mae nifer fechan o bartneriaethau eraill yn cael eu datblygu ac mae un bartneriaeth oedd yn bodoli'n barod yn y broses o gael ei therfynu.

Cyn yr uno, cafwyd yr Adolygiadau Sefydliadol blaenorol gan ASA o Brifysgol Fetropolitan Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ym misoedd Mawrth 2009 a Mehefin 2012 yn y drefn honno. Ystyriwyd yr adroddiadau ar bwyllgorau priodol y sefydliadau sylfaenol a chynhyrchwyd cynlluniau gweithredu a'u holrhain hyd eu cyflawni. Ym mis Ebrill 2012, cynhyrchodd ASA adroddiad dilyniant canol cylchred adolygu ar Brifysgol Fetropolitan Abertawe, ynghyd â chynllun gweithredu dilynol. O ganlyniad, ail edrychwyd ar yr adroddiadau yn y flwyddyn academiaidd 2013-14 i werthuso cynnydd y Brifysgol gyfun yn erbyn y sylwadau a wnaed gan ASA, ac mae hyn wedi arwain at raglen o waith a oruchwylir gan y Senedd. Gwnaeth ASA hefyd ddau adolygiad o'r Brifysgol gyfun, gan ganolbwyntio ar ei darpariaeth graddau sylfaen (ym mis Gorffennaf 2013) ac ar ei champws yn Llundain (ym mis Gorffennaf 2014). Gwnaeth yr adroddiad ar ddarpariaeth graddau sylfaen nifer o argymhellion i'w hystyried ac

mae'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu wedi'i olrhain gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Ni wnaeth yr adroddiad ar gampws Llundain unrhyw argymhellion ond rhoddwyd diweddariad i ASA ym mis Ionawr 2015. Er nad oes gan y Brifysgol gyfun fel un endid unrhyw hanes sefydledig o ran rheoli ansawdd a safonau, mae'r ddau adroddiad yn cadarnhau bod ei hagwedd yn y meysydd hyn yn gyffredinol gadarn.

Ers yr uno, cafwyd cyflawniadau sylweddol mewn nifer o feysydd y cafwyd sylw amdanynt gan ASA yn 2009 a 2012. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad allanol o ddogfennau'r pwyllgorau academaidd ac wedi hynny, weithredu pwyllgorau ar ddull y sefydliad sy'n hwyluso adrodd mwy cyson a chynhwysfawr; cyflwyno gweithdrefnau newydd ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni a'u datblygiad a'u gwellhad parhaus; adolygu ac ail ysgrifennu'r rheoliadau asesu, yn arbennig i wahaniaethu'n fwy eglur rhwng rheoliadau ac arweiniad. Wedi ei gynnwys hefyd mae sefydlu un gyfres gyffredin o weithdrefnau sy'n ymwneud ag arholwyr allanol, ac un pwynt unigol o gyfrifoldeb am reoli eu penodiad ac adroddiadau; datblygu agwedd newydd tuag at gynrychiolaeth myfyrwyr ar draws y campysau; lansio gwefan newydd ac, yn fwy diweddar, ddatblygu porth newydd i'r staff a'r myfyrwyr, yn ogystal â chyflwyno Fframwaith Gweithdrefnol newydd ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol.

Roedd y tîm adolygu'n cydnabod yr heriau arwyddocaol y mae'r cyfuniad yn eu cyflwyno a'r cynnydd sydd wedi digwydd o ran ymdrin â nhw. Yn anochel, mewn nifer fechan o feysydd, mae'r cynnydd wedi cael ei effeithio'n uniongyrchol, ond mae gwaith sylweddol yn parhau yn y meysydd hyn, gan gynnwys datblygu cyfres gynhwysfawr a chyson o ddata ystadegol i bwrpasau cynnal goruchwyliaeth dros ansawdd a safonau, yn arbennig ar gyfer rhaglenni mwy cymhleth neu anhraddodiadol, strategaeth ar gyfer adnoddau dysgu, a gweithrediad systemau newydd cynhwysfawr ar gyfer datblygu, gwerthuso a gwobrwyo staff. O ganlyniad i fuddsoddi rhy ychydig mewn Technoleg Gwybodaeth ar y campysau yn Abertawe yn y gorffennol, ac arallgyfeirio adnoddau dynol ac ariannol o ganlyniad i hynny er mwyn datrys y problemau hynny, roedd oedi mewn gweithredu i ryw raddau, ond cafwyd cynnydd da hefyd. Yn gyffredinol, rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd a rheoliadol priodol ac unedig ar gyfer y Brifysgol newydd ac i sicrhau bod y trefniadau newydd hyn yn ddealladwy ac wedi'u gweithredu'n gyson ar draws y campysau.

Croesawodd y Brifysgol werth y broses adolygu, yn arbennig yn y cyfleoedd y mae wedi'u darparu i fyfyrion effeithiolrwydd y trefniadau i wella ansawdd a chynnal safonau ar draws y sefydliad cyfun cyfan. Mae'n ystyried yr adolygiad yn gyfle i fyfyrion ar y trefniadau a sefydlwyd ar draws y sefydliad cyfun, i ymgysylltu mewn deialog adeiladol am y cynnydd sy'n cael ei wneud ac i gadarnhau ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau'r adolygiad yn fwy manwl.

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn [rhestr termau byr](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau](#) llawnach ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), ac hefyd ar wefan ASA.

1 Y Feirniadaeth am: Osod a chynnal safonau academiaidd y dyfarniadau

Disgwyliad (A1): Er mwyn sicrhau safonau academiaidd trothwy, mae cyrff dyfarnu graddau'n:

a) sicrhau bod gofynion y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael eu cyflawni trwy'r camau canlynol:

- gosod eu cymwysterau ar lefel briodol y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglen yn alinio â'r disgrifydd cymhwyster perthnasol yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- enwi'r cymwysterau yn unol â'r confensiynau teitlo a nodir yn y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch
- dyfarnu cymwysterau i ddynodi cyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglen a ddiffinnir yn bositif

b) ystyried arweiniad ASA ar nodweddion cymhwyster

c) lle maent yn dyfarnu credydau'r DU, aseinio gwerthoedd credyd a llunio rhaglenni sy'n alinio â manylebau'r fframwaith credydau cenedlaethol sy'n berthnasol

d) ystyried y Datganiadau Meincnod Pwnc perthnasol.

Cod Ansawdd, Pennod A1: Pwyntiau Cyfeirio'r DU ac Ewrop ar gyfer Safonau Academiaidd

Y canfyddiadau

1.1 Mae'r rheoliadau sy'n llywio dyfarniadau graddau a addysgir a graddau ymchwil wedi'u disgrifio yn Llawlyfr Ansawdd Academiaidd y Brifysgol, a gyhoeddir ar dudalennau gwe'r Swyddfa Academiaidd yn y Gymraeg a'r Saesneg ac a ddarperir mewn print i aelodau o'r staff ac i sefydliadau partner. Darperir canllawiau a thempledi ychwanegol mewn atodiadau ar y we. Mae rheoliadau dyfarnu'r Brifysgol wedi'u llunio i ateb gofynion *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) ac i gysylltu â'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a *Fframwaith Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop* (FQ-EHEA). Mae'r cymwysterau wedi'u halinio â'r FHEQ mewn perthynas â dulliau enwi lefelau, credydau a dyfarniadau. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd yn cynnwys datganiadau clir am faint y credyd y gellir ei ddyfarnu am ddysgu blaenorol a dysgu profiadol, ynghyd â'r gweithdrefnau ar gyfer ei adnabod.

1.2 Mae prosesau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni wedi'u cynnwys hefyd yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd. Mae'r gweithdrefnau hyn yn gofyn bod rhaglenni'n cael eu datblygu gyda chyfeiriad at God Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd), y FHEQ, y FfCChC a phwyntiau cyfeirio allanol perthnasol eraill, gan gynnwys gofynion y cyrff PSRB lle bo'n briodol. Gyda'i gilydd, mae'r fframweithiau yma'n galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori.

1.3 Adolygodd y tîm y rheoliadau ansawdd academiaidd ar gyfer rhaglenni a addysgir a rhaglenni ymchwil, cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau, arweiniad yn ymwneud â datblygu

rhaglenni, adroddiadau o brosesau dilysu, ail-ddilysu a rhaglenni, adroddiadau Adolygiad Mawr, adroddiadau arholwyr allanol ac amrediad o Ddogfennau Rhaglen Terfynol. Cyfarfu'r tîm hefyd â nifer o staff academiaidd, staff cymorth a myfyrwyr.

1.4 Mae'r Brifysgol wedi mapio'n systematig ei phrosesau a'i gweithdrefnau yn erbyn y Cod Ansawdd a'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop. Mae'r rheoliadau sy'n llywio'r prosesau o gymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni, a nodir yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd a'i atodiadau, yn cyfeirio'n eglur at y Cod Ansawdd a'i rhannau cyfansoddol. Mae canlyniadau dysgu'r rhaglenni wedi'u hysgrifennu gyda chyfeiriad at y Datganiadau Meincnod Pwnc a'r arweiniad ar nodweddion cymwysterau. Yn rhan o broses ddilysu'r Brifysgol ceir gwiriad bod y gofynion hyn yn cael eu cyflawni.

1.5 Llwyddir i alinio'n barhaus gyda phwyntiau cyfeirio allanol drwy brosesau monitro ac adolygu'r Brifysgol, gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni a'r Adolygiad Mawr. Mae arholwyr allanol yn rhoi sylwadau eglur ynglŷn ag a yw'r rhaglenni astudio'n cyflawni disgwyliadau allanol mewn perthynas â fframweithiau cenedlaethol a safonau academiaidd.

1.6 Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd i'r tîm adolygu'n dangos cyfranogaeth y Brifysgol yn y broses o ddatblygu ac adolygu'r Cod Ansawdd, y FHEQ a'r Datganiadau Meincnod Pwnc. Cadarnhaodd y staff eu bod yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf bob amser mewn perthynas â gofynion allanol drwy nifer o fecanweithiau, gan gynnwys y gefnogaeth a'r arweiniad a ddarperir ar gyfer datblygu a dilysu rhaglenni a thrwy'r wythnos datblygiad staff blynyddol.

1.7 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn gwneud defnydd priodol o bwyntiau cyfeirio allanol wrth gynllunio a darparu ei chymwysterau o ran gosod safonau academiaidd a sicrhau bod cymwysterau'n adlewyrchu nodweddion lefel cenedlaethol ar gyfer cymwysterau a chredydau, a'r Datganiadau Meincnod Pwnc. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A2.1): Er mwyn sicrhau eu safonau academaidd, mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu fframweithiau a rheoliadau academaidd sy'n eglur a chynhwysfawr i lywio sut y maent yn dyfarnu credyd neu gymhwyster academaidd.

Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd

Y canfyddiadau

1.8 Mae gan y Senedd y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau y cedwir safonau academaidd a bod gan y Brifysgol reoliadau, polisiau a gweithdrefnau priodol, gan gynnwys y rheiny ar gyfer 'asesu ac arholi perfformiad academaidd, sicrhau safonau academaidd a dyfarnu cymwysterau academaidd'. Mae'r Senedd yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu'r rhain. Mae'r Senedd yn dirprwyo agweddau o'i chyfrifoldebau i'w phwyllgorau sefydlog, gan gynnwys y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, y Pwyllgor Polisi Academaidd, y Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi, y Pwyllgor Ymchwil, y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol a'r Byrddau Cyfadran. Ar lefel gyfadranol, mae'r Byrddau Cyfadran yn gyfrifol am sicrhau bod rhaglenni astudio academaidd yn gyson â'r Cynllun Strategol ac yn cael eu darparu yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol. Ar lefel rheoli uwch, gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd) y mae'r cyfrifoldeb gweithredol am ansawdd.

1.9 Disgrifir fframweithiau academaidd a rheoliadol y Brifysgol yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a'i atodiadau cefnogol. Gyda'i gilydd, mae'r fframweithiau yma'n galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori.

1.10 Ar amser yr adolygiad, roedd y Brifysgol wedi comisiynu prosiect i ystyried y ffactorau sy'n cyfrannu at y canran o ddyfarniadau anrhydedd 'da' yr oedd yn eu dyfarnu i fyfyrwyr. Roedd wedi nodi bod y canran yma'n llawer is na'r rheiny i Gymru ac i'r DU gyfan, a bod gwahaniaeth rhwng y cyfadranau. Roedd y Brifysgol wedi gofyn i ymgynghorydd allanol wneud y gwaith yma ac roeddent wrthi'n paratoi briff y prosiect.

1.11 Adolygodd y tîm y rheoliadau ar gyfer rhaglenni a addysgir a rhaglenni ymchwil a chofnodion y cyfarfodydd pwyllgorau ar lefel y sefydliad a'r cyfadranau. Cyfarfu'r tîm hefyd â nifer o staff academaidd a staff cymorth.

1.12 Ers yr uno yn 2012, mae'r Brifysgol wedi ymdrechu i ddatblygu a gweithredu un fframwaith sicrhau ansawdd ac academaidd cyson, ac roedd trafodaethau gyda staff yn y Brifysgol ac mewn sefydliad partner yn dangos rôl allweddol y Llawlyfr Ansawdd Academaidd mewn sefydlu fframwaith cyffredin a darparu pwynt cyfeirio pwysig i'r holl staff. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd cynhwysfawr yn cynnwys rheoliadau academaidd y Brifysgol, gan gynnwys rheolau'n ymwneud ag asesu a marcio; dyfarnu credydau, gan gynnwys credydau ar sail dysgu blaenorol; dosbarthu graddau; a gweithredoedd byrddau arholi. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil a'r Llawlyfr Goruchwylwyr Ymchwil yn nodi'r wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â graddau ymchwil ôl-raddedig, ac mae'r myfyrwyr yn derbyn canllawiau defnyddiol i fyfyrwyr am y rheoliadau sy'n crynhoi prif rannau'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd, ac sy'n hawdd i fyfyrwyr eu darllen.

1.13 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfeiriadau at y Cod Ansawdd. Er bod y tîm adolygu wedi gweld tystiolaeth o'r gwaith diweddarau blynyddol yma, nododd y tîm bod y Llawlyfr Ansawdd Academaidd 2014-15 yn cyfeirio at fersiwn blaenorol o Bennod A y Cod Ansawdd.

1.14 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd hefyd yn cynnwys manylion am strwythur pwyllgorau academaidd y Brifysgol, a gyflwynwyd ar ôl yr uno ym mis Hydref 2012 ac a fireiniwyd ymhellach ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2013-14 a 2014-15.

Cyflwynwyd y Pwyllgor Polisi Academaidd, sy'n gyfrifol am yrru datblygiad portffolio academaidd y Brifysgol a'r polisiau academaidd cysylltiedig, yn y flwyddyn academaidd 2014-15. Mae'r Brifysgol yn adolygu cylch gwaith ei phwyllgorau bob blwyddyn yn rhan o'r gwaith o adolygu ei Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Roedd cofnodion y Senedd a'i phwyllgorau sefydlog allweddol yn dangos eu bod yn gweithredu'n effeithiol yn gyffredinol ac yn unol â'u cylch gwaith datganedig.

1.15 Daeth y tîm i'r casgliad bod gan y Brifysgol fframwaith academaidd hygyrch a chynhwysfawr a rheoliadau sy'n llywio'r broses o ddyfarnu credydau a chymwysterau. Ar ôl yr uno, mae'r Brifysgol yn parhau i weithredu'r fframwaith hwn ac i'w adolygu a'i ddiweddarau lle bo'n angenrheidiol ac mae wedi gweithio'n galed i sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y Brifysgol newydd. Felly, mae'r Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ac mae lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A2.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen a chymhwyster y maent yn eu cymeradwyo (a newidiadau dilynol iddynt) sy'n gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer darparu ac asesu'r rhaglen, ei monitro a'i hadolygu, ac ar gyfer darparu cofnodion astudio i fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr.

Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd

Y canfyddiadau

1.16 Mae'r Brifysgol yn cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen a chymhwyster drwy ei Dogfennau Rhaglen Terfynol. Cynhyrchir y rhain ar dempled cyffredin i'r Brifysgol gyfan a'u cymeradwyo drwy'r broses ddilysu. Mae'r templed yn cyfeirio at adrannau perthnasol o'r Cod Ansawdd ac mae wedi ei lunio i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol sy'n ymwneud â chredydau a chanlyniadau dysgu yn cael ei darparu. Mae'r templed hefyd yn gofyn bod datblygwyr rhaglenni'n rhoi disgrifiad o'r strategaeth addysgu a dysgu ar gyfer y rhaglen, a manylion am y dulliau asesu sydd i gael eu defnyddio. Mae manylebau ar gyfer modiwlau unigol wedi eu cynnwys yn y Dogfennau Rhaglen Terfynol; mae templed ar wahân ar gael ar gyfer manylebau modiwlau. Mae'r dull yma'n caniatáu i Ddisgwyliad A2.1 gael ei gyflawni mewn theori.

1.17 Dadansoddodd y tîm adolygu agwedd y Brifysgol tuag at gofnodion rhaglen diffiniol drwy adolygu nifer o'r cofnodion rhaglen hyn a dogfennaeth ddilysu. Cyfarfu'r tîm hefyd â staff academaidd a staff cymorth.

1.18 Cyn yr uno yn 2012, roedd gan bob sefydliad drefniadau ar wahân ar gyfer cynhyrchu cofnodion rhaglen diffiniol a storio dogfennau rhaglen. Yn dilyn yr uno, cyflwynwyd y templed cyfredol ar draws y Brifysgol newydd a phenderfynwyd y byddai'r Ddogfen Rhaglen Derfynol yn cynnwys cofnod diffiniol pob rhaglen. Clywodd y tîm fod dogfennau cyfredol yn cael eu hailysgrifennu er mwyn cadw at y templed wrth ail-ddilysu. Mae'r Swyddfa Academaidd yn dal y Dogfennau Rhaglen Terfynol ac maent ar gael i staff a myfyrwyr drwy borth 'MyDay' y Brifysgol; mae'r ffocws ar gyhoeddi gwybodaeth am raglenni astudio a gymeradwywyd o'r flwyddyn academaidd 2013-14 ymlaen. Rhoddir yr wybodaeth am raglenni i fyfyrwyr yn llawlyfrau'r rhaglenni astudio ar sail templed safonol; cadarnhaodd y myfyrwyr bod y rhain yn ddefnyddiol ac yn gywir.

1.19 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.1): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu prosesau, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a addysgir a graddau ymchwil sy'n sicrhau bod safonau academiaidd yn cael eu gosod ar lefel sy'n cwrdd â safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster a'u bod yn cyfateb â'u fframweithiau a rheoliadau academiaidd eu hunain.

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.20 Roedd yr egwyddorion a'r gweithdrefnau y mae'r Brifysgol wedi'u sefydlu ac yn eu defnyddio ar gyfer datblygu, cymeradwyo a dilysu rhaglenni graddau a addysgir a rhaglenni graddau ymchwil yn weddol newydd ar amser yr adolygiad. Cawsent eu cyflwyno o ddechrau'r flwyddyn academiaidd 2013-14 yn dilyn adolygiad ac argymhellion gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd. Cafodd y prosesau dilysu eu datblygu ymhellach ar ôl gwerthuso eu gweithrediad yn ystod y flwyddyn academiaidd 2013-14, ac mae'r dulliau cyfredol wedi'u disgrifio'n fanwl yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd ac mewn arweiniad a ddarperir gan y Swyddfa Academiaidd. Y prif resymau am y newidiadau hyn a newydd-deb gweddol y trefnau cymeradwyo a dilysu oedd y broses o gyfuno'r sefydliadau a weithredwyd yn 2010 (Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin) ac yn 2012 (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe). Etifeddodd PCYDDS raglenni a gwahanol drefnau cymeradwyo gan ei holl rannau cyfansoddol ac, ers 2012 yn arbennig, cafwyd ymdrech sylweddol i ddatblygu un gyfres gyffredin o drefniadau ac i weithredu amserlen ddilysu sylweddol.

1.21 Mae'r gweithdrefnau a sefydlwyd gan y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo a dilysu ei rhaglenni, y rhai a ddarperir yn uniongyrchol a'r rhai a ddarperir gan ei phartneriaid, yn gofyn aliniad gyda safonau academiaidd trothwy'r DU, gan gynnwys y FfCChC, y FHEQ a gofynion y cyrff statudol a rheoleiddio perthnasol, cyfeiriad at y Datganiadau Meincnod Pwnc, ac arweiniad y Cod Ansawdd. Mae'r gweithdrefnau'n darparu ar gyfer defnyddio arbenigwyr allanol wrth ddatblygu a dilysu rhaglenni, yn ogystal ag ymgynghori â'r myfyrwyr. Gyda'i gilydd, mae'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn golygu bod y Brifysgol yn cydymffurfio mewn egwyddor â'r arweiniad am gymeradwyo rhaglenni sydd wedi ei nodi ym *Mhennod A3* y Cod Ansawdd.

1.22 Darllenodd y tîm adolygu reoliadau a chanllawiau'r Brifysgol sy'n disgrifio ac yn cefnogi'r prosesau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a addysgir a graddau ymchwil. Bu'r tîm hefyd yn archwilio cofnodion pwyllgorau dilysu a phwyllgorau cyfrifol eraill ac yn siarad â staff mewnol ac arbenigwyr allanol a oedd wedi cynllunio neu weithredu'r prosesau o gymeradwyo a dilysu.

1.23 Mae'r Brifysgol yn gwahaniaethu rhwng y prosesau o gymeradwyo rhaglenni ac o ddilysu rhaglenni. Wrth gymeradwyo rhaglenni, mae'r Uwch Dîm Rheoli'n gwneud 'penderfyniad busnes' ar ran y Senedd gan ymdrin â chysondeb gyda chynlluniau, hyfywedd ariannol a dyraniad adnoddau'r Brifysgol. Mae gan y broses ddilysu rhaglenni ddau gam. Mae'n broses a oruchwylir gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd ac a weithredir gan ei Is-Bwyllgor Dilysu. Yn y cam cyntaf, mae tîm rhaglen mewn cyfadran berthnasol yn datblygu rhaglen newydd yn fanwl. Defnyddir cynghorwyr allanol yn ystod y cam yma, ac mae'r arweiniad yn gofyn am ystyried canlyniadau dysgu'r rhaglen, ac am gydgyssylltu trothwyon academiaidd yn nhermau'r meincnodau allanol. Yn yr ail gam, mae'r Is-Bwyllgor Dilysu'n cymeradwyo'r ddogfennaeth sydd wedi'i chymeradwyo gan y gyfadran. Mewn achosion o ddarpariaeth fewnol, mae'r penderfyniad a ddylid cynnal digwyddiad dilysu ai peidio yn dibynnu i ba raddau y mae'r rhaglen yn cynnwys defnydd cwbl newydd neu'n tynnu ar fodiwlau sy'n bodoli'n barod. Darperir arweiniad gan y Swyddfa Academiaidd. Mae'r gweithdrefnau yma'n cael eu defnyddio mewn modd tebyg gyda rhaglenni a ddarperir gan sefydliadau partner heblaw mewn digwyddiad dilysu a gynhelir yn y sefydliad partner lle mae craffu manwl yn digwydd fel arfer.

1.24 Gwelodd a chlywodd y tîm dystiolaeth bod y Brifysgol wedi datblygu ei phrosesau cymeradwyo rhaglenni'n ofalus ac wedi monitro eu gweithrediad i sicrhau eu bod yn ateb safonau trothwy'r DU a rheoliadau'r Brifysgol ei hun. Mae Pennod 4 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn nodi'n glir y gofyniad i sicrhau aliniad gyda phwyntiau cyfeirio allanol. Adolygir y prosesau bob blwyddyn ac mae newidiadau'n cael eu cyfathrebu i'r staff. Roedd hi'n amlwg o'r dystiolaeth a glywyd mewn cyfarfodydd bod y Brifysgol yn llwyddo i ddatblygu ymwybyddiaeth ar draws y Brifysgol o weithdrefnau a rheoliadau a oedd yn newydd i'r staff oedd wedi gweithio yn y sefydliadau cyfansoddol.

1.25 Daeth y tîm i'r casgliad bod prosesau cymeradwyo'n sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu gosod yn briodol ac, o'r herwydd, bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu dim ond pan fo:

- **asesiad yn dangos cyflawni'r canlyniadau dysgu perthnasol (canlyniadau dysgu'r modiwl ar gyfer credydau, a chanlyniadau dysgu'r rhaglen ar gyfer cymwysterau)**
- **safonau trothwy'r DU a'u safonau academiaidd eu hunain wedi'u bodloni.**

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.26 Mae prosesau'r Brifysgol ar gyfer asesu dyfarniadau graddau a addysgir wedi'u disgrifio ym Mhenodau 6, 7 ac 8 y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd. Disgrifir canlyniadau dysgu mewn Dogfennau Rhaglen Terfynol, sydd hefyd yn cynnwys mapiau cwricwlwm sy'n mapio canlyniadau dysgu ar lefel y modiwlau at y rhaglen gyfan. Disgrifir canlyniadau dysgu hefyd mewn llawlyfrau rhaglenni ac mewn canllawiau modiwlau. Cadarnhawyd drwy graffu'r dogfennau dilysu pro forma bod prosesau adolygu canlyniadau dysgu'n cynnwys sylwadau cadarn. Mae'r llawlyfrau rhaglenni'n cynnwys disgrifwyr y FfCChC ac yn cyfeirio at y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd hefyd yn cyfeirio at feincnodau allanol, megis y Cod Ansawdd, y Datganiadau Meincnod Pwnc, y FHEQ, a'r FfCChC.

1.27 Mae'r Brifysgol yn defnyddio proses ddilysu dau gam (gwelwch baragraff 1.23). Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag addasiadau rhesymol wedi'u disgrifio ym Mhennod 13 y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd. Cyflwynwyd y gweithdrefnau hyn yn y flwyddyn academiaidd 2012-13 ac ar y cychwyn roeddent yn achosi rhywfaint o ddryswch ymhlith y staff oedd wedi arfer â dull mwy anffurfiol o gytuno ar addasiadau rhesymol ac o roi ystyriaeth i amgylchiadau esgusodol. Nododd y Brifysgol ei bod yn dal i ddod ar draws esiamplau o hyn ac mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau** r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â hyn (gwelwch Ddisgwyliad B6). Fodd bynnag, roedd y staff a gyfarfu â'r tîm wedi'u hysbysu'n briodol am y broses hon.

1.28 Mae adroddiadau arholwyr allanol yn cadarnhau bod y canlyniadau dysgu a lefelau'r cyflawniad academiaidd a geir gan fyfyrwyr yn gyson â'r rheiny mewn sefydliadau tebyg.

1.29 Mae'r Brifysgol yn adolygu'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd yn flynyddol ac roedd y canllawiau ar ddatblygu rhaglenni wedi eu gwella yn ystod y flwyddyn academiaidd hon. Felly, mae'r prosesau a ddefnyddir i gymeradwyo canlyniadau dysgu ac asesiadau'n alinio mewn theori â Disgwyliad A3.2 ym *Mhennod A*.

1.30 Profodd y tîm adolygu ddull y Brifysgol o ddyfarnu credydau a chymwysterau drwy ddadansoddi dogfennau allweddol, megis y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, Dogfennau Rhaglen Terfynol, dogfennaeth ddilysu, canllawiau modiwlau, llawlyfrau rhaglenni ac adroddiadau'r arholwyr allanol. Hefyd, adolygwyd dogfennau cynghorol eraill i staff, gan gynnwys canllawiau ar ddatblygu rhaglenni a'r Canllawiau ar Gywerthedd Asesiadau. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm adolygu hefyd â staff a myfyrwyr.

1.31 Roedd y tîm adolygu o'r farn bod y broses o ddyfarnu credydau a chymwysterau ar sail canlyniadau dysgu a gyflawnwyd yn llwyddiannus yn gweithio'n dda'n ymarferol. Mae proses gadarn o graffu'n fewnol ac yn allanol drwy'r mecanwaith dilysu, ac mae canlyniadau dysgu a gofynion asesu wedi'u disgrifio'n briodol yn yr wybodaeth am raglenni a modiwlau a ddarperir i fyfyrwyr o ganlyniad i'r broses gymeradwyo rhaglenni.

1.32 Mae gan y Brifysgol brosesau ar waith i sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu ar sail canlyniadau dysgu'r rhaglenni a gyflawnwyd yn llwyddiannus a bod y rhain yn cyrraedd y safonau a nodir yn y Cod Ansawdd a Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.3): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni wedi'u gweithredu sy'n ymroi'n amlwg i ganfod a yw safonau academaidd trothwy'r DU wedi'u cyflawni ac a yw'r safonau academaidd sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu graddau unigol yn cael eu cadw.

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.33 Yn rheolaidd, mae'r Brifysgol yn ystyried ac yn asesu a yw ei rhaglenni'n cyflawni ac yn cynnal ei safonau ei hun a safonau trothwy'r DU gan ddefnyddio mecanweithiau'r Adolygiad Blynyddol o Raglenni a'r Adolygiad Mawr, a'r Ail-ddilysiad bob pum mlynedd. Gweithredir y prosesau hyn ar bob rhaglen, gan gynnwys graddau ymchwil a rhaglenni a ddarperir gan sefydliadau partner. Diffinnir pwrpas yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni fel adolygiad "i alluogi'r timau rhaglen, yr ysgolion a'r cyfadrannau i fyfyrion ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth dros y flwyddyn gyfan, ac i alluogi'r Brifysgol i'w sicrhau ei hun bod yr ansawdd a'r safonau'n cael eu cynnal". Ceir y prif werthusiad o gyflawniad y safonau yn yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni drwy ystyried adroddiadau'r arholwyr allanol ac yno hefyd y ceir y cadarnhad bod unrhyw bryderon a godir ganddynt wedi derbyn sylw. Mae'r broses Adolygiad Mawr yn ystyried cyflawniad y safonau yn eglur iawn.

1.34 Mae gan y Brifysgol weithdrefnau i fonitro ac ymdrin yn eglur â'r aliniad gyda'r safonau trothwy, ynghyd â threfniadau ar gyfer adolygu'r beirniadaethau hyn yn systematig ac mae felly'n cydymffurfio mewn egwyddor â'r arweiniad ar sicrhau safonau academaidd sydd wedi'i gynnwys y Cod Ansawdd.

1.35 Darllenodd y tîm adolygu ddetholiad o ddogfennau, dadansoddiadau o ddata am gynnydd, a chofnodion sy'n dangos sut mae'r prosesau Adolygiad Blynyddol o Raglenni ac Adolygiad Mawr yn gweithredu, a sut mae'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd a'r Is-Bwyllgor Dilysu'n ystyried eu canlyniadau. Cyfarfu'r tîm â staff a myfyrwyr oedd wedi cymryd rhan yn y prosesau hyn.

1.36 Roedd dogfennau sy'n disgrifio'r broses Adolygiad Blynyddol o Raglenni ac sy'n adrodd amdani'n dangos bod arholwyr allanol wedi cadarnhau bod safonau academaidd trothwy'r DU wedi eu gosod a'u cyflawni'n briodol. Roedd adroddiad trosolwg yr arholwyr allanol ar y ddarpariaeth gydweithredol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013-14 yn dangos nad oedd adroddiadau rhai arholwyr allanol ar gael ar amser ysgrifennu hwn ac nad oedd yr arholwyr allanol eraill wedi cyfeirio'n eglur at ddarpariaeth mewn sefydliadau partner neu wedi codi pryderon ynglŷn â chysondeb y prosesau o farcio a safoni. Mewn cyfarfodydd gyda rheolwyr y Brifysgol, dywedwyd wrth y tîm adolygu bod y materion hyn wedi eu datrys a bod cyflawniad y safonau wedi eu cadarnhau. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol yn cryfhau'r rheolaeth a'r oruchwyliaeth ar brosesau arholi allanol mewn darpariaeth gydweithredol (gwelwch Ddisgwyliadau B7 a B10). Dangosodd y ddogfennaeth sy'n adrodd am ganlyniadau'r Adolygiadau Mawr bod safonau academaidd trothwy'r sefydliad a'r DU wedi'u monitro a'u cynnal.

1.37 Mae'r tîm adolygu'n cadarnhau bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.4): Er mwyn bod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd, mae cyrff dyfarnu graddau'n defnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol o osod a chynnal safonau academiaidd i gynghori a yw:

- **safonau academiaidd trothwy'r DU wedi eu gosod, eu darparu a'u cyflawni**
- **safonau academiaidd y corff dyfarnu graddau wedi eu gosod a'u cynnal yn briodol.**

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.38 Mae'r Brifysgol yn defnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol yn y prosesau o osod a chynnal safonau academiaidd, sef cymeradwyo rhaglenni, dilysu, monitro ac adolygu; a thrwy ddefnyddio arholwyr allanol. Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithredu proses Archwiliad Ysgol sy'n cynnwys dau gynghorydd allanol. Disgrifir y rheoliadau ar gyfer y gweithgareddau hyn yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd.

1.39 Mae pob un o ddau gam y broses ddilysu'n gofyn arbenigedd allanol. Ar y cam cyntaf, rhaid derbyn adroddiad ysgrifenedig gan ddau gynghorydd allanol, a fydd efallai wedyn yn mynychu'r digwyddiad dilysu. Mae'r esiamplau a adolygwyd gan y tîm adolygu'n cadarnhau bod sylwadau'n cael eu derbyn am ystod o faterion, gan gynnwys canlyniadau dysgu; teitl a lefel y rhaglen; y cydbwysedd rhwng elfennau academiaidd ac ymarferol a rhwng ehangder a dyfnder y cwricwlwm; a'r strategaeth asesu. Ar yr ail gam, mae aelodaeth yr Is-Bwyllgor Dilysu hefyd yn gofyn am gynnwys dau aelod allanol sydd â chyfrifoldebau'n ymwneud ag ansawdd a safonau mewn prifysgolion eraill yn y DU. Cyfarfu'r tîm adolygu ag un o'r aelodau allanol a gadarnhaodd natur y rôl a chytunodd bod hwn o fantais i'r broses. Un o gyfrifoldebau'r cynghorwyr allanol yw sicrhau bod y ddogfennaeth yn cwrdd â'r gofynion a nodir yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd. Ar brydiau mae'r Is-Bwyllgor Dilysu'n gofyn i ddigwyddiad dilysu gael ei gynnal, er enghraifft pan fo rhaglenni i gael eu darparu gan sefydliadau partner cydweithredol nad ydynt wedi mynd i bartneriaeth strwythurol gyda'r Brifysgol. Dan yr amgylchiadau hynny, mae'r Brifysgol hefyd yn gofyn am ddau aelod allanol sydd ag arbenigedd yn y maes astudio dan sylw.

1.40 Lle nad oes newidiadau sylweddol yn y prosesau Adolygiad Mawr ac Ail-ddilysiad, caiff yr adolygiad ei gynnal fel proses adolygiad blynyddol estynedig. Mae'n rhaid i sylwadau gael eu darparu ar adroddiadau arholwyr allanol yn rhan o'r broses hon. Dim ond un ymarfer o'r fath y mae'r Brifysgol wedi'i gael hyd yn hyn. Lle cynigir newidiadau sylweddol, mae'r broses ar gyfer cynnwys arbenigedd allanol yr un fath ag ydyw ar gyfer dilysu rhaglenni.

1.41 Mae arholwyr allanol yn cadarnhau a yw safonau academiaidd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r Panel Enwebu Arholwyr Allanol yn ystyried yr holl enwebiadau ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd. Mae'r Brifysgol yn cynnal nifer o weithgareddau ymsefydlu bob blwyddyn pan fydd arholwyr allanol yn clywed beth yw eu dyletswyddau a beth yw rheoliadau'r Brifysgol; a chânt eu cyflwyno i dîm y rhaglen. Mae gofyn i arholwyr allanol ysgrifennu adroddiad sy'n cadarnhau a yw'r safonau a osodir yn briodol ar gyfer lefel y cymhwyster ac ystyrir ymatebion i'r adroddiad yn ystod yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni. Paratoir adroddiadau trosolwg ar gyfer darpariaeth ar y campws ac oddi ar y campws ac ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd a'r Pwyllgor Partneriaethau Cydweithredol yn y drefn honno a chânt eu hadrodd ar i fyny i'r Senedd.

1.42 Mae'r trefniadau, sydd ar waith i ddefnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol o osod a chynnal safonau academiaidd, yn gynhwysfawr ac yn gadarn. O ganlyniad, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni mewn theori.

1.43 Archwiliodd y tîm adolygu effeithiolrwydd prosesau'r Brifysgol ar gyfer ymgysylltu arbenigedd allanol drwy adolygu dogfennau, gan gynnwys y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, dogfennaeth ddilysu, cofnodion yr Is-Bwyllgor Dilysu, adroddiadau Adolygiad Mawr, adroddiadau Archwiliad Ysgol a'r broses o benodi arholwyr allanol, ac adroddiadau gan yr arholwyr allanol. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm adolygu â staff o bob campws ac mewn un o'r partneriaid, gan gynnwys un o'r cynrychiolwyr allanol o'r Is-Bwyllgor Dilysu.

1.44 Mae'r trefniadau ar gyfer defnyddio allanoldeb wrth ddatblygu, dilysu ac adolygu rhaglenni'n gadarn. Cadarnhaodd y staff a gyfarfu â'r tîm arolygu yn ystod yr ymweliad bod y prosesau a'r rheoliadau mewn perthynas â'r mecanweithiau hyn yn adnabyddus, ac ystyriwyd y Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn ddogfen sylfaenol ar gyfer eu gwaith.

1.45 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol brosesau cynhwysfawr ar sail tystiolaeth dda sy'n cadarnhau arbenigedd allanol annibynnol mewn gosod a chynnal y safonau academaidd. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Gosod a chynnal safonau academiaidd y dyfarniadau: Crynodeb o'r canfyddiadau

1.46 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth ynglŷn â gosod a chynnal y safonau academiaidd, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd. Mae pob un o'r Disgwyliadau ar gyfer y feirniadaeth yma wedi'u cyflawni, ac mae lefelau'r risgiau cysylltiedig yn isel. Mae'r tîm adolygu'n nodi rôl allweddol y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd fel pwynt cyfeirio cyffredin a chynhwysfawr, yn arbennig yng nghydestun y sefydliad cyfun. Yn gyffredinol, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y gwaith o osod a chynnal safonau academiaidd y dyfarniadau yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

Disgwyliad (B1): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B1: Cynllunio, Datblygu a Chymeradwyo Rhaglenni

Y canfyddiadau

- 2.1 Disgrifir yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd ddull y Brifysgol o gynllunio, datblygu, a chymeradwyo cychwynnol a dilysu'r holl raglenni a addysgir, gan gynnwys yr elfen a addysgir mewn rhaglenni gradd ymchwil.
- 2.2 Profodd y tîm adolygu'r dull drwy adolygu'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, dogfennaeth gymeradwyo, Dogfennau Rhaglen Terfynol, cofnodion pwyllgorau a'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm adolygu ag amrediad o'r staff a chynrychiolwyr myfyrwyr oedd â phrofiad o'r broses sydd ar waith.
- 2.3 Yn dilyn yr uno, cyflwynwyd proses newydd ar draws y Brifysgol, ar sail proses ddilysu yn y cam cyntaf ar lefel gyfadranol o dan drefniadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd, ac yn dilyn hynny 'ail gam' dan arweiniad yr Is-Bwyllgor Dilysu.
- 2.4 Mae'r cam cyntaf yn cynnwys ymgynghori â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys myfyrwyr a swyddogion y Brifysgol, ynghyd ag ystyried y sylwadau a geir gan o leiaf ddau gynghorydd allanol, a gymeradwyir gan Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd. Yn yr ail gam, cyflwynir y cynnig i gyfarfod o'r Is-Bwyllgor Dilysu, lle gellid ystyried nifer o gynigion o'r fath. Mae'r Is-Bwyllgor Dilysu'n gwirio bod proses y cam cyntaf wedi'i chwblhau'n foddhaol, ac mae'n gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd mewn perthynas â dilysu'r rhaglen.
- 2.5 Cafodd canllawiau cyfredol y Brifysgol am y broses o gynllunio rhaglenni eu diweddar'u ddiweddar i adlewyrchu newidiadau yn y Cod Ansawdd ac ymgynghoriad â sefydliadau eraill yng Nghymru.
- 2.6 Mae'r dull yn gwahaniaethu rhwng y prosesau o gymeradwyo rhaglenni, sy'n benderfyniad busnes a wneir gan yr Uwch Dîm Rheoli, ac o ddilysu rhaglenni, sy'n weithgaredd academiaidd a oruchwylir gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd ar ran y Senedd, ac a weithredir gan yr Is-Bwyllgor Dilysu.
- 2.7 Ni ellir dilysu rhaglenni nes bo'r Uwch Dîm Rheoli'n rhoi eu cymeradwyaeth; ni ellir cychwyn darparu rhaglen heb ddilysiad drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd.
- 2.8 Cefnogir y gweithgareddau o gymeradwyo a dilysu rhaglenni gan gyfres o dempledi sydd wedi'u llunio i sicrhau fod pob un o'r meysydd allweddol yn cael eu hystyried yn ddigonol ac sy'n dangos sut mae rhaglen newydd arfaethedig yn gyfatebol â blaenoriaethau strategol y Brifysgol, y bydd yn cwrdd â'r galw gan y farchnad a'i bod yn cynnwys dadansoddi'r gofynion am adnoddau.
- 2.9 Mae'r templed ar gyfer Dogfennau Rhaglen Terfynol drafft yn gofyn cyflwyno ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys crynodebau o'r ffyrdd y mae myfyrwyr a, lle bo'n berthnasol, gyflogwyr wedi cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r rhaglen, a'i harwyddocâd yng nghyd-destun portffolio academiaidd cyffredinol y Brifysgol. Ymgynghorir â myfyrwyr am ddatblygiadau

rhaglenni newydd ar y Byrddau Cyfadran. Cryfhawyd y broses ddilysu drwy gynnwys sylwadau yn adroddiad y Deon sy'n dangos yn glir sut yr ymgynghorwyd â myfyrwyr ar y cynnig. Yna mae'r adroddiad hwn yn mynd at yr Is-Bwyllgor Dilysu. Gwahoddir y myfyrwyr i fynd i ddigwyddiadau dilysu. Roedd cofnodion yr Is-Bwyllgor Dilysu'n dangos nad oedd unrhyw fyfyrwr wedi mynychu'r pwyllgor er bod y tîm wedi derbyn tystiolaeth i ddangos bod myfyriwr wedi mynd i un digwyddiad dilysu gan bartner cydweithredol.

2.10 Mae angen gwybodaeth am strwythur a threfn y rhaglen, ac am ei phatrwm darparu, a'r strategaethau dysgu, addysgu ac asesu ar gyfer y rhaglen a rhaid gwneud cyfeiriad clir at y Cod Ansawdd a'r Datganiadau Meincnod Pwnc perthnasol.

2.11 Ar ôl cwblhau'r broses ddilysu, daw'r Ddogfen Rhaglen Derfynol yn gofnod diffiniol o'r rhaglen a chaiff ei chadw yn y Swyddfa Academaidd a'i chynnal yno.

2.12 Mae'r broses ddilysu'n gofyn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol yn briodol wrth ddatblygu cynigion am raglenni newydd. Mae pwyntiau cyfeirio perthnasol, yn ogystal â'r Cod Ansawdd, yn cynnwys deunydd craidd dyfarniadau Cenedlaethol Uwch Pearson a gofynion gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRB). Mae'r broses ddilysu'n gwirio a gedwir at y rhain.

2.13 Mae'r broses o ddilysu rhaglenni newydd yn cynnwys gofyniad am adroddiadau ysgrifenedig gan ddau unigolyn o'r tu allan i'r Brifysgol, a allai hefyd gael eu gwahodd i fynd i ddigwyddiadau dilysu, ynghyd â'r cyfraniad gan unigolion o gyfadranau/adrannau eraill y Brifysgol.

2.14 Mae enwebiadau ar gyfer y cynghorwyr allanol yn gofyn cymeradwyaeth gan gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, sy'n gyfrifol am wirio, o ystyried y ddau unigolyn fel tîm, bod ganddynt yr arbenigedd priodol, eu bod yn ddigon 'allanol', ac nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau amlwg.

2.15 Cyflwynir y sylwadau a geir gan gynghorwyr allanol a swyddogion y Brifysgol ar dempledi sydd wedi'u llunio i sicrhau y gwneir cyfeiriadau priodol at yr ystod o faterion a ystyrir wrth ddilysu. Lle bo'n briodol, ceisir cyfraniad hefyd gan gyrff PSRB a chyflogwyr, a darperir allanoldeb ychwanegol drwy gyfraniadau'r ddau aelod allanol o'r Is-Bwyllgor Dilysu.

2.16 Adolygwyd y trefniadau newydd gan yr Is-Bwyllgor Dilysu a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd tua diwedd y flwyddyn academaidd 2013-14 a'r consensws oedd eu bod yn gadarn ac yn gweithio'n dda yn gyffredinol. Mae angen o hyd am ddigwyddiad dilysu ar gyfer rhaglenni a gynigir drwy sefydliadau partner cydweithredol sydd heb fynd i bartneriaeth strwythurol â'r Brifysgol.

2.17 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gwybodaeth ac arbenigedd y staff yn ganolog i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu llunio a'u datblygu'n effeithiol, ac maent yn agored i broses gymeradwyo sy'n eglur ac yn drwyadl. Rhoddir y manylion i staff bob blwyddyn ar ddiweddariadau ansawdd allweddol yn ystod yr Wythnos Datblygiad Staff a'r Diwrnodau Datblygiad i Bartneriaid.

2.18 Yn gyffredinol, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn gweithredu prosesau cadarn ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni, sy'n cyflawni'n briodol ei chyfrifoldebau am wella ansawdd y cyfleoedd dysgu. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B2): Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn yn glynu at egwyddorion mynediad teg. Maent yn eglur, dibynadwy, dilys a chynhwysol ac maent wedi'u tanategu gan strwythurau a phrosesau sefydliadol priodol. Maent yn cefnogi darparwyr addysg uwch i dethol myfyrwyr sy'n gallu cwblhau eu rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B2: Recriwtio, Dethol a Mynediad i Addysg Uwch

Y canfyddiadau

2.19 Mae gan y Brifysgol Bolisi Derbyn Myfyrwyr sy'n nodi ei dull o recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr i raglenni israddedig ac ôl-raddedig a addysgir. Disgrifir meini prawf mynediad cyffredinol yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Amlinellir y trefniadau ar gyfer derbyn myfyrwyr i raddau ymchwil yn y Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil. Mae trefniadau ar wahân ar gyfer derbyn myfyrwyr ar raglenni a ddarperir gyda phartneriaid cydweithredol.

2.20 Gwnaed adolygiad o bolisïau derbyn myfyrwyr yn dilyn yr uno, a chymeradwyodd y Senedd, sy'n gyfrifol am adolygu'r polisi'n flynyddol, un Polisi Derbyn Myfyrwyr. Ers 2014, mae'r Senedd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'r Pwyllgor Polisi Academaidd a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil. Ystyrir recriwtio myfyrwyr rhyngwladol hefyd yn y Pwyllgor Rhyngwladol.

2.21 Mewn perthynas â rhaglenni a addysgir, mae Penaethiaid Ysgol yn penodi staff academaidd i weithredu fel tiwtoriaid derbyn myfyrwyr. Mae'r Gofrestrfa'n gyfrifol am y broses dderbyn ar draws y Brifysgol ac mae'n cefnogi'r tiwtoriaid yma gyda hyfforddiant ac arweiniad. Ystyrir ceisiadau yn unol â'r Polisi Derbyn Myfyrwyr a chefnogir penderfyniadau ac anfonir llythyrau canlyniad at yr ymgeiswyr. Lluniwyd y Polisi a'r Weithdrefn ar gyfer Adborth am Dderbyniadau, Apeliadau a Chwynion i sicrhau bod tiwtoriaid yn defnyddio dull gweithredu cyson, ac mae'n gofyn am roi gwybodaeth glir i'r ymgeiswyr ynglŷn â sut i weithredu os ydynt eisïau herio penderfyniadau.

2.22 Ffurfiwyd Fforwm Tiwtoriaid Derbyn Myfyrwyr Israddedig. Mae'r fforwm yma'n gweithredu fel grŵp llywio'r Brifysgol i sicrhau'r safonau uchaf o ymgysylltiad rhwng y Brifysgol a'r ymholwyr ac ymgeiswyr am ei rhaglenni astudio. Mae rhan o gylch gwaith y Fforwm yn canolbwyntio ar hwyluso rhannu arferion gorau, ac mae'r grŵp wedi hysbysu'r broses o dethol pynciau ar gyfer hyfforddiant a datblygiad.

2.23 Mae'r partneriaid cydweithredol yn gyfrifol am dderbyn myfyrwyr i raglenni a ddarperir gyda phartneriaid cydweithredol. Ystyrir y trefniadau hyn yn ystod y broses gymeradwyo partneriaeth, ac mae'r gofynion mynediad sy'n benodol berthnasol i'r rhaglenni'n cael eu trafod wrth ddilysu, ac mae'n ofynnol eu bod yn alinio gyda Pholisi Derbyn Myfyrwyr y Brifysgol. Mae gofyn i Arweinwyr Timau Partneriaeth sicrhau y glynir at y trefniadau hyn. Rhoddir myfyrwyr ar system cofnodion myfyrwyr y Brifysgol ac mae hon yn cynhyrchu neges o groeso ar yr ebost yn awtomatig sy'n nodi hawliau'r myfyrwyr yn fanwl.

2.24 Ystyrir yr holl geisiadau i gofrestru ar gyfer graddau ymchwil gan is-bwyllgor i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil i sicrhau cysondeb. Mae'r cyfadrannau yn sicrhau bod dau aelod o'r staff yn craffu ar yr holl geisiadau cyn eu cyflwyno i'r is-bwyllgor i'w hystyried. Dadansoddir derbyniadau yn rhan o'r adroddiad blynyddol sy'n derbyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil.

2.25 Mae'r fframwaith polisi clir, y dull ystyrion o dderbyn myfyrwyr yn dilyn yr uno, y canllawiau i staff sy'n cymryd rhan yn y broses, a boddhad y myfyrwyr gyda'u profiadau ynghylch derbyniadau, ynghyd â'r prosesau i herio penderfyniadau, yn ddigonol i alluogi i'r Disgwyliad hwn gael ei gyflawni mewn theori.

2.26 Profodd y tîm y Disgwyliad hwn drwy gwrdd â staff, myfyrwyr israddedig a myfyrwyr ar raglenni ymchwil. Bu'r tîm hefyd yn craffu ar y Polisi Derbyn Myfyrwyr a'r Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil. Yn ogystal, gwelodd y tîm ganllawiau i diwtoriaid derbyn myfyrwyr, polisïau a gweithdrefnau'n ymwneud ag ymdrin ag adborth, apeliadau a chwynion sy'n ymwneud â derbyniadau, templedi llythyrau a chofnodion pwyllgorau'r Brifysgol.

2.27 Canfu'r tîm fod polisïau'r Brifysgol wedi'u dogfennu'n glir ac yn gynhwysfawr yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, wedi'u halinio â'r Cod Ansawdd ac yn rhoi ystyriaeth i bwyntiau cyfeirio allanol priodol. Mae'r staff yn gwybod llawer am bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ynglŷn â derbyn myfyrwyr, gan gynnwys staff mewn colegau partner a'r rheiny sy'n gweithredu'r prosesau ar gyfer derbyn myfyrwyr ôl-raddedig.

2.28 Mae'r myfyrwyr yn gadarnhaol ynglŷn â faint y mae eu dialog gyda'r staff yn ystod y cam ymgeisio'n eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu rhaglenni astudio. Dywedodd myfyrwyr israddedig wrth y tîm bod y meini prawf mynediad yn glir a bod y staff yn ymatebol i ymholiadau yn ystod y cam ymgeisio. Dywedodd myfyrwyr ôl-raddedig hefyd bod gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu'n glir yn ystod y broses dderbyn.

2.29 Mae rhaglen amrywiol o gyfleoedd datblygiad staff ar gael mewn perthynas â derbyniadau. Mae hyn yn cynnwys sesiynau ar newidiadau yn system bwyntiau Tariff UCAS, yr Adolygiad o Gymwysterau yng Nghymru, y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac addasiadau rhesymol. Canfu'r tîm adolygu, er bod y meini prawf mynediad yn cael eu cytuno wrth ddilysu a'u cynnwys yn rhan o sesiynau briffio i bartneriaid cydweithredol, ni ddarparwyd hyfforddiant eglur i staff sy'n gyfrifol am dderbyniadau mewn sefydliadau partner. Ond, mae'r cysylltiad agos rhwng Arweinwyr Timau Partneriaeth a staff mewn partneriaid cydweithredol yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau.

2.30 Daeth y tîm i'r casgliad bod gweithdrefnau manwl a chynhwysfawr y Brifysgol y mae'r staff yn glynu wrthynt, ynghyd â'u rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr, y cysylltiadau partneriaeth agos a'r wybodaeth hygyrch i fyfyrwyr, yn sicrhau bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B3): Mae darparwyr addysg uwch, wrth weithio gyda'u staff, eu myfyrwyr a'u rhanddeiliaid eraill, yn llunio, ac yn adolygu a gwella'n systematig, y dull o ddarparu cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu, fel bod modd i bob myfyriwr ddatblygu fel dysgwr annibynnol, astudio eu pwnc/pynciau dewisedig yn fanwl a gwella eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol.

Cod Ansawdd, Pennod B3: Dysgu ac Addysgu

Y canfyddiadau

2.31 Caiff ymagwedd y Brifysgol tuag at ddysgu ac addysgu ei goruchwyllo gan Bwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi'r Senedd. Gan y Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi y mae'r prif gyfrifoldeb am ddatblygu, gweithredu a monitro'r Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi. Mae agweddau eraill o gylch gwaith y Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi'n ymwneud â gweithgareddau sy'n tanategu darpariaeth lwyddiannus y Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi, gan gynnwys datblygiad staff a mecanweithiau ar gyfer gwella ansawdd profiadau dysgu'r myfyrwyr. I gefnogi'r gwaith hwn, mae'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi'n cynnwys tri aelod o blith y myfyrwyr, un o bob prif leoliad campws. Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn goruchwyllo'r trefniadau cyfatebol ar gyfer graddau ymchwil.

2.32 Archwiliodd y tîm adolygu'r ymagwedd hon drwy ddadansoddi dogfennau gan gynnwys strategaethau allweddol, cofnodion pwyllgorau, ymatebion i arolygon a gwybodaeth sydd ar gael i'r myfyrwyr drwy'r wefan. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr, ac â staff academaidd a staff cymorth o bob rhan o'r ddarpariaeth, gan gynnwys y rheiny mewn sefydliadau partner.

2.33 Mae'r strategaeth yn nodi ymagwedd y Brifysgol tuag at themâu dysgu ac addysgu sy'n trosgynnu ffiniau pynciau, gan gynnwys Thema Gyfoethogi sefydliadol ar gyfer bob blwyddyn, a'r strategaethau ar gyfer cynnwys gweithgareddau sydd wedi'u cysylltu'n amlwg at flaenoriaethau strategol y Brifysgol, gan gynnwys cynaliadwyedd a chyflogadwyedd. Ym mis Mawrth 2015, cymeradwyodd y Senedd Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi ddiwygiedig gyda chyfeiriad mwy eglur at ysgoloriaeth yn ymwneud â dysgu ac addysgu.

2.34 Mae gweithgareddau dysgu ac addysgu'r Brifysgol, a'r arferion asesu cysylltiedig, wedi'u llunio i alluogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau dysgu eu dewis raglenni astudio. Mae'r prosesau dilysu ac adolygu'n darparu ffordd o sicrhau bod y strategaeth addysgu, dysgu ac asesu ar gyfer y rhaglenni'n briodol, ac i ystyried yn ofalus a yw'r amgylchedd dysgu a ddarperir yn gynhwysol.

2.35 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod addysgu a dysgu effeithiol yn dibynnu ar arbenigedd, brwdfrydedd a phrofiad ei staff. Ar hyn o bryd mae llawlyfrau newydd i staff wrthi'n cael eu paratoi ond nid oeddent ar gael ar amser yr adolygiad. Mae polisïau staff ar gael ar y porth.

2.36 Rheolir dull y Brifysgol o recriwtio a dethol staff gan y Polisi Recriwtio a Dethol a'r Cod Ymarfer. Mae disgrifiadau swydd yn nodi'n glir beth yw'r cymwysterau a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer rolau unigol; mae'r rheiny ar gyfer Darlithwyr ac Uwch Ddarlithwyr yn cynnwys manyleb safonol o'u dyletswyddau sy'n ymwneud ag addysgu, ymchwil ac/neu ysgoloriaeth, sy'n esbonio'r disgwyliad yn glir y bydd staff yn ymgysylltu mewn ymarfer myfyriol a diweddarau proffesiynol parhaus.

2.37 Erbyn hyn, mae gofyn i bob aelod newydd o'r staff sydd heb gymhwyster addysgu ffurfiol gyflawni Tystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch y Brifysgol a achredir gan yr AAU. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen rhagor o waith i sicrhau bod y disgwyliad hwn yn cael ei weithredu a'i olrhain yn gyson ar draws y sefydliad. Wedi iddynt gael eu penodi, cyflwynir staff newydd i'r Brifysgol yn unol â'r Polisi Ymsefydlu ac maent yn derbyn mentor, ac anogir yr holl staff academaidd i wneud astudiaeth ar lefel Doethuriaeth.

2.38 Ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf, mae'r broses werthuso flynyddol yn darparu cyfleoedd ffurfiol i fyfrio eu perfformiad ac i ganfod eu hanghenion datblygiad. Cyflwynwyd Polisi Gwerthuso newydd yn 2015, ond roedd hi'n rhy fuan i werthuso'n llawn effeithiolrwydd y broses newydd ar amser yr adolygiad. Clywodd y tîm adolygu bod y Brifysgol yn mynd i gyflwyno proffiliau gweithgarwch ar gyfer staff academaidd o'r flwyddyn academaidd nesaf ymlaen. Y rheswm am hyn yw sicrhau bod llwyth gwaith cyfartal wedi'i gynllunio rhwng y staff academaidd ar draws y Brifysgol.

2.39 Mae gan y Brifysgol ystod o fecanweithiau i sicrhau bod arferion dysgu ac addysgu wedi'u hysbysu gan fyfrio, gwerthuso arferion proffesiynol, ac ysgoloriaeth yn berthnasol i'r pwnc, ac i addysg yn gyffredinol. Gofynnir i bob cyfadran sefydlu trefniadau i gymheiriaid arsylwi'r addysgu. Mae dull y Brifysgol o arsylwi gan gymheiriaid wedi'i seilio ar arferion anfeirniadol a darparu cefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol personol; mae'r broses ar wahân i drefnau adolygu perfformiad megis profiannaeth a gwerthuso. Er hynny, trwy'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi, mae'r Brifysgol wedi cydnabod bod angen cryfhau ei goruchwyliaeth o drefniadau arsylwi gan gymheiriaid ar draws y sefydliad a sicrhau bod proses y cytunwyd arni'n cael ei dilyn a'i dogfennu'n gyson.

2.40 Mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn goruchwyllo gweithgareddau sy'n ymwneud yn benodol â darparu a goruchwyllo rhaglenni gradd ymchwil, gan gynnwys trefniadau ar gyfer dethol a hyfforddi Cyfarwyddwyr Astudiaethau a goruchwylwyr graddau ymchwil, a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.

2.41 Mae'r Brifysgol wedi'i hymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ei staff. Mae'r Pwyllgor Datblygu Staff yn arwain ar ddatblygiad staff. Trefnir amrediad eang o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn dan nawdd y Pwyllgor Datblygu Staff, gan gychwyn gyda'r Rhaglen Cynllunio Strategol a Gweithredol i'r Brifysgol gyfan bob mis Medi. Bob blwyddyn, mae diwrnodau Dysgu ac Addysgu ledled y sefydliad, wedi eu hategu gan sesiynau 'Cinio a Dysgu' ar y campws. Mae'r digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar addysgu ac addysgeg. Yn ogystal â hynny, mae digwyddiadau sy'n ymwneud â themâu gwelliant 'Cyfeiriadau'r Dyfodol'. Mae'r cyfleoedd a ddarperir drwy'r Pwyllgor Datblygu Staff wedi'u cyflenwi gan ystod o weithgareddau a luniwyd i gefnogi'n benodol ddatblygiad proffesiynol sy'n ymwneud ag addysgu, wedi'i drefnu'n bennaf drwy'r Uned Cyfoethogi. (Hefyd, gwelwch y Disgwyliad ynghylch Gwelliant.)

2.42 Mae'r anghenion datblygiad wedi'u pennu'n ffurfiol wrth benodi a thrwy werthusiadau dilynol. Mae cyllidebau'r cyfadranau'n cynnwys arian penodol ar gyfer datblygiad staff, ac mae hefyd gyfleoedd i fidio am gyllido ychwanegol wedi'i ddyrannu gan y Pwyllgor Datblygu Staff ei hun. Mae'r Pwyllgor Datblygu Staff yn cymryd camau i gryfhau ei gwaith o ddadansoddi effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer datblygiad staff, ac mae'r cyfadranau a'r gwasanaethau proffesiynol wedi'u cynghori bod derbyniad blynyddol o gynlluniau datblygiad staff wedi'u diweddarau, wedi'u cysylltu â'r Cynllun Strategol ac sy'n cynnwys dadansoddi eu heffaith, yn amod o gyllido'r dyfodol.

2.43 Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn cynnig wyth llwybr achrededig tuag at Gymrodoriaeth yr AAU, yn amrywio o gais unigol i nifer o raglenni tystysgrif. Mae pob un o'r llwybrau wedi'u halinio â Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (UKPSF). Dim ond 19 y cant o'r staff sy'n Gymrodorion yr AAU. Ond, mae camau'n cael eu cymryd i gynyddu canran y staff sy'n Gymrodorion. Mae'r Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi ddiwygiedig yn cynnwys cynlluniau ar gyfer sefydlu cymunedau o ysgolheigion o amgylch tair thema ynglŷn ag ymchwil neu ysgoloriaeth wedi'u cysylltu ag addysgu: mentergarwch a chyflogadwyedd, addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy; a chysylltiadau rhwng gwaith ymchwil ac addysgu.

2.44 Ar lefel leol, mae'r cyfadranau'n gyfrifol am oruchwyllo'r amgylchedd dysgu ffisegol y maent yn ei ddarparu i'w myfyrwyr. Mae amrywiaeth eang o adnoddau dysgu ac addysgu

ar gael i'r myfyrwyr trwy'r rhith-amgylchedd dysgu sydd wedi'i gynnal gan yr Adran Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg.

2.45 O'u cymryd gyda'i gilydd â'r trefniadau sydd ar waith i fonitro potensial academaidd, personol a phroffesiynol y myfyrwyr, mae'r ystod gynhwysfawr o gymorth academaidd a bugeiliol a ddarperir i'r holl fyfyrwyr yn **arfer da**. (Gwelwch Ddisgwyliad B4, ac hefyd Ddisgwyliad B11.)

2.46 Mae'r Brifysgol yn gwerthuso ei hagwedd strategol tuag at ddysgu ac addysgu, a'i effeithiolrwydd, gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir drwy ystod o fecanweithiau, gan gynnwys y broses Adolygiad Blyneddol o Raglenni, arolygon mewnol ac allanol o farn myfyrwyr, a ffynonellau eraill o adborth gan fyfyrwyr, yn ogystal ag adroddiadau trosolwg am faterion megis cwynion ac apeliadau myfyrwyr. Mae'r wybodaeth hon yn darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd cyffredinol dull y Brifysgol o sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn profiadau dysgu o ansawdd da ac o'r cynnydd sylweddol a gafwyd ers yr uno.

2.47 Yn gyffredinol, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y sail ar gyfer dysgu ac addysgu'n effeithiol wedi'i fynegi'n glir i'r staff a'r myfyrwyr drwy ystod o bolisïau, strategaethau a gwybodaeth weithdrefnol. Mae'r amgylchedd dysgu a'r adnoddau dysgu'n ddigonol. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B4): Mae gan ddarparwyr addysg uwch drefniadau ac adnoddau sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol ac maent yn monitro a gwerthuso'r rhain.

Cod Ansawdd, Pennod B4: Galluogi Datblygiad a Chyflawniad y Myfyriwr

Y canfyddiadau

2.48 Mae ystod o strategaethau yn eu lle i gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Strategol y Brifysgol, gan gynnwys y Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi, y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog a Strategaeth Cadw Myfyrwyr. Mae'r Senedd yn gyfrifol am oruchwylio eu gweithrediad, er bod monitro'n digwydd yn ymarferol drwy bwyllgorau sefydlog perthnasol y Senedd a'u his-bwyllgorau.

2.49 Archwiliodd y tîm adolygu'r ymagwedd drwy ddadansoddi'r strategaethau, y polisiau a'r gweithdrefnau, y prosiectau a'r wybodaeth sy'n berthnasol ac sydd ar gael ar-lein. Cyfarfu'r tîm hefyd â nifer o fyfyrwyr o bob lefel academaidd ac o wahanol leoliadau darparu, a bu'n trafod yr ymagwedd gyda staff academaidd a staff cymorth.

2.50 Mae'r Pwyllgor Materion Myfyrwyr yn elfen ganolog yn yr ymdrech i sicrhau bod gwasanaethau cymorth o safon uchel ar gael i fyfyrwyr, ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod myfyrwyr ar draws y Brifysgol yn cael gwasanaethau cymorth o safon uchel, gan gynnwys datblygu polisiau a gweithdrefnau perthnasol, a chymorth ar gyfer materion megis cymorth dysgu a darpariaeth i fyfyrwyr anabl.

2.51 Mae dilysiad yn gyfrwng arall i sicrhau bod mecanweithiau cefnogi priodol yn eu lle o gychwyniad rhaglen. Mae'r broses ddilysu wedi'i llunio i sefydlu'r mecanweithiau a fydd yn eu lle i alluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial ac mae monitro ac adolygu'n ddull o wirio a yw'r bwriadau wedi'u cyflawni ai peidio.

2.52 Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014-15, mae'r prosesau hyn wedi'u hategu drwy gyflwyno Archwiliadau Ysgol. Mae Archwiliadau Ysgol yn ffordd arall o alluogi'r Brifysgol i gael trosolwg o ansawdd a safonau'r ddarpariaeth academaidd ac ansawdd profiad y myfyrwyr a gynigir gan ysgol gyfan. Clywodd y tîm adolygu bod y Brifysgol yn bwriadu gweithredu proses archwilio debyg ar gyfer adrannau gwasanaethau proffesiynol yn y flwyddyn academaidd 2015-16. Bydd yr holl brosesau'n cynnwys cyfleoedd i ymgysylltu â'r myfyrwyr ac i dderbyn adborth ganddynt.

2.53 Cefnogir myfyrwyr newydd gan lawlyfrau rhaglenni astudio, cyflwyniadau i'r adnoddau dysgu a llyfrgell, a sesiynau ar sgiliau llythrennedd. Mae'r Brifysgol wedi ystyried y cyfyngiadau fisa a roddir ar fyfyrwyr rhyngwladol ac mae wedi creu rhaglen ddatblygu sgiliau benodol i fyfyrwyr ar ei champws yn Llundain, y mae'r cyfleoedd sydd ganddynt i wneud lleoliadau gwaith wedi'u cyfyngu gan ofynion fisa.

2.54 Mae Siarter y Myfyrwyr yn tynnu sylw'r myfyrwyr at y gwell cyfleoedd dysgu a ddarperir mewn ystod o feysydd, gan gynnwys cyflogadwyedd, symudedd myfyrwyr ac addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â'r cyfleoedd i ennill profiad ychwanegol drwy weithgareddau a drefnir gan Undeb y Myfyrwyr.

2.55 Mae'r gwasanaethau cymorth yn gweithio'n agos â'r cyfadrannau a'r ysgolion academaidd i sefydlu dealltwriaeth gyffredin o'u cyfrifoldebau perthnasol am gefnogi myfyrwyr, a chyfathrebir y datblygiadau mewn polisiau, fel y bo'n briodol, drwy ebost neu drwy'r rhaglen Cynllunio Strategol a Gweithredol flynyddol.

2.56 Mae ystod o fecanweithiau ar waith i hysbysu myfyrwyr, cyn ac yn ystod eu hamser yn y Brifysgol, am gyfleoedd sydd wedi'u cynllunio i alluogi eu datblygiad a'u cyflawniad, ac i gefnogi eu trosglwyddiad i, a thrwy, fywyd yn y Brifysgol.

2.57 Cyfathrebir y cymorth a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr drwy sesiynau ymsefydlu, yr amrywiol llawlyfrau a gyhoeddir yn ganolog ac ar lefel y rhaglenni, a thrwy dudalennau gwe'r gwasanaethau proffesiynol unigol.

2.58 Mae darpariaeth addysg gynhwysol yn rhan annatod o genhadaeth y Brifysgol. O fewn y cyd-destun strategol cyffredinol hwn, mae esiamplau o ymrwymadau penodol yn cynnwys y cymorth a roddir i fyfyrwyr anabl mewn ystod o feysydd, a'r trefniadau i ofalwyr. Hysbyswyd y tîm bod gwasanaethau myfyrwyr wedi'u mapio ar draws y campysau i sicrhau bod amrediad o wasanaethau ar gael ar yr holl gampysau.

2.59 Darperir gwybodaeth cyn cyrraedd ar gyfer dyfarniadau a addysgir, yn bennaf drwy'r wefan, ym mhrosbectysau'r Brifysgol ac yn y prospectysau sy'n benodol i'r cyfadrannau, gyda diwrnodau agored a diwrnodau cyfweld sy'n rhoi cyfle i'r ymgeiswyr gael trafodaeth fanwl gyda thiworiaid a staff cymorth perthnasol. Mae hefyd Ddiwrnodau 'Blasu' wedi'u llunio'n bennaf i ddisgyblion mewn ysgolion lleol gefnogi ymrwymiad y Brifysgol i ehangu mynediad. Darperir gwybodaeth fwy anffurfiol gan dîm y Brifysgol o Lysgenhadon Myfyrwyr sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw darpar fyfyrwyr at weithgareddau a datblygiadau a allai fod o ddiddordeb iddynt, ac i gadw cysylltiad yn gyffredinol hyd yr amser cyrraedd.

2.60 Mae trefniadau penodol yn eu lle i ymgeiswyr anabl a, chyn belled ag y bo'n bosibl, canfyddir beth yw eu hanghenion am gymorth cyn iddynt dderbyn lle. Wrth gofrestru ac ymsefydlu, caiff yr wybodaeth cyn cyrraedd ei hatgyfnerthu drwy ddarparu deunyddiau ysgrifenedig eraill, gan gynnwys llawlyfrau rhaglenni astudio, a thrwy, er enghraifft, deithiau o amgylch y llyfrgell a'r adnoddau dysgu a chyflwyniadau ar sgiliau gwybodaeth a llythrennedd digidol wedi'u darparu gan lyfrgellwyr pwnc.

2.61 Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi myfyrwyr cyfredol ledled y Brifysgol yn cynnwys rhoi cymorth sgiliau astudio generig, penodi tiwtoriaid cyswllt cymorth i greu pont rhwng yr ysgolion academiaidd a'r gwasanaethau myfyrwyr mewn perthynas â materion lles, a'r gefnogaeth barhaus a ddarperir gan lyfrgellwyr pwnc.

2.62 Mae'r Strategaeth Cadw Myfyrwyr yn cynnwys dadansoddiad o ddulliau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio ar hyn o bryd i gefnogi myfyrwyr i symud ymlaen yn llwyddiannus drwy eu rhaglenni astudio. Mae'r dulliau yma wedi'u meincnodi yn erbyn esiamplau o arferion da sy'n bresennol o fewn y Brifysgol ac mewn rhannau eraill o'r sector.

2.63 Mae'r Brifysgol yn rhoi pwyslais arbennig ar ddatblygu sgiliau, gan gynnwys sgiliau academiaidd a sgiliau cyflogadwyedd. Datblygir sgiliau academiaidd drwy ystod o fecanweithiau, gan gynnwys cymorth sgiliau astudio i ddysgwyr o bell a chymorth dysgu arbenigol i fyfyrwyr anabl, datblygiad sgiliau gwybodaeth a llythrennedd digidol, a chynllunio datblygiad personol. Cefnogir myfyrwyr dysgu o bell sy'n astudio drwy gampws Llanbedr Pont Steffan gan Lyfrgellydd Gwasanaethau Allgymorth penodol sy'n cynnig cymorth sgiliau gwybodaeth a llythrennedd digidol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu digidol ac electronig, yn ogystal â mewn sesiynau ymsefydlu ac yn ystod yr ysgol haf i raddedigion bob blwyddyn. Mae'r adran Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu'n blaenoriaethu pryniant adnoddau electronig dros adnoddau print lle bo'n bosibl i ganiatáu mynediad cyfartal i'r holl fyfyrwyr.

2.64 Mae nifer o raglenni'n cynnwys cyfleoedd lleoliad gwaith neu ddulliau eraill o ddysgu seiliedig ar waith a rhoddir pwyslais cynyddol ar ddatblygu sgiliau mentergarwch a chyflogadwyedd. Mae cyfleoedd i wirfoddoli ar gael hefyd drwy'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, a drwy Undeb y Myfyrwyr.

- 2.65 Ar lefel y rhaglenni, mae ystod o fecanweithiau i gefnogi'r myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau mewn mentergarwch ac entrepreneuriaeth; mae esiamplau'n cynnwys y defnydd a wneir o brosiectau byw yn y Gyfadran Celf a Dylunio, sy'n galluogi myfyrwyr i weithio gyda chwmnïau allanol i ganfod atebion i broblemau'r byd go iawn, ac Wythnos Entrepreneuriaeth.
- 2.66 Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cynnwys cynghorwyr gyrfaoedd sydd â chymhwyster proffesiynol ar bob un o'r prif gampysau, ac yn hwyluso cyfranogaeth y Brifysgol yn yr amrediad arferol o weithgareddau recriwtio graddedigion, yn ogystal â rhoi cyngor a chefnogaeth i fyfyrwyr unigol cyn ac ar ôl graddio. Mae'r Brifysgol hefyd wedi cyfranogi yn y rhaglen 'GO Wales' genedlaethol. Trwy'r Gwasanaeth Gyrfaoedd, daw'r myfyrwyr yn ymwybodol o'r Ddinasyddiaeth Fyd-eang ond yn y cyfarfod gyda'r myfyrwyr, roedd gan y myfyrwyr ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r fenter. Mae cynghorydd gyrfaoedd penodol ar gampws Llundain.
- 2.67 Mae hawl gan bob myfyriwr gael tiwtor academiaidd / tiwtor blwyddyn personol. Mae'r holl diwtoriaid personol yn derbyn llawlyfr sy'n diffinio'n glir beth yw rôl tiwtor personol a'r hyn a ddisgwyllir ganddi/ganddo.
- 2.68 Mae rhaglenni a gynigir drwy Athrofa Cymru ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith yn canolbwyntio'n llawn ar achredu dysgu seiliedig ar waith ac ar gefnogi myfyrwyr i ennill cymhwyster academiaidd drwy Fframwaith Arfer Proffesiynol, maes lle cydnabyddir bod gan y Brifysgol arbenigedd penodol.
- 2.69 Fel ffordd o hybu datblygiad sgiliau allgwricwlaidd a chydgwricwlaidd, yn dilyn yr uno, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno'r fenter 'Dylunio Bywyd', a gydlynir gan Adran Profiad Myfyrwyr newydd. Cyflwynwyd y fenter 'Dylunio Bywyd', a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad ag Undeb y Myfyrwyr, i staff drwy nifer o ddogwyddiadau ym mis Rhagfyr 2014 a chafodd ei lansio ar ddiwedd mis Ionawr 2015; mae gwaith ar droed i sicrhau bod staff a myfyrwyr yn ymwybodol o'i phwrpas a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig. Mae cyflwyno'r fenter 'Dylunio Bywyd' wedi parhau a bydd yn dod yn thema gwelliant nesaf y Brifysgol. Am fod y fenter yn weddol newydd, mae'n rhy fuan i'w gwerthuso'n llawn.
- 2.70 Gan ystyried y ddarpariaeth sydd wedi'i hamlinellu uchod, ynghyd â'r mesurau a gymerir gan y Brifysgol i ddarparu gwell cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu (gwelwch Ddisgwyliad B3), mae'r tîm adolygu'n ystyried yr ystod gynhwysfawr o gymorth academiaidd a bugeiliol a ddarperir i'r holl fyfyrwyr yn **arfer da**. (Gwelwch Ddisgwyliad B11 hefyd.)
- 2.71 Roedd y ddogfen hunanwerthusiad, a gyflwynwyd i ASA yn rhan o'r adolygiad hwn, yn cydnabod bod tystiolaeth, yn dilyn yr uno, o danfuddsoddi mewn adnoddau, yn arbennig ar gampws Abertawe a chafwyd sylwadau negyddol gan rai myfyrwyr am argaeledd adnoddau mewn rhai meysydd astudio. Roedd tanfuddsoddiad sylweddol wedi creu lefelau isel o foddhad ymysg y myfyrwyr ac wedi golygu nad oedd rhai adnoddau'n addas i'w pwrpas bellach. Canfu'r tîm dystiolaeth i ddangos bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud erbyn hyn a dywedodd y myfyrwyr bod adnoddau wedi gwella. Canfu'r tîm hefyd dystiolaeth i ddangos bod gan y Brifysgol agwedd strategol tuag at bennu blaenoriaethau o ran adnoddau a dyrannu cyllidebau cysylltiedig. Er gwaethaf hyn, dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm nad yw'r adborth gan fyfyrwyr am ddiffygion mewn adnoddau'n cael sylw bob amser a lle nad yw'n bosibl buddsoddi, nid yw hyn wedi cael ei gyfathrebu i'r myfyrwyr bob amser. Mae'r tîm adolygu wedi cadarnhau'r camau sy'n cael eu cymryd i ddatrys y broblem hon, fel y trafodwyd o dan Ddisgwyliad B5.
- 2.72 Mae'r Pwyllgor Adnoddau Canolog yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau o safon uchel yn cael eu darparu drwy'r Brifysgol gyfan. Mae aelodaeth y Pwyllgor Adnoddau Canolog, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyllid a Chynllunio), yn cynnwys penaethiaid y mwyafrif o wasanaethau proffesiynol y Brifysgol. Mae ystyried adnoddau'n rhan amlwg o'r broses gymeradwyo rhaglenni, ac mae'r broses ddilysu newydd ar gam un yn cynnwys gofyniad i ymgynghori ag adrannau cymorth perthnasol. Ceir gwiriad drwy'r prosesau monitro ac adolygu ac archwilio bod yr adnoddau'n dal i fod yn ddigonol. Ar lefel y gwasanaethau,

mae'r mecanweithiau'n cynnwys arolygon boddhad blynyddol y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, grwpiau ffocws myfyrwyr a drefnir gan y tîm Technoleg Gwybodaeth a Systemau, a chardiau post y Gwasanaethau Myfyrwyr i roi adborth.

2.73 Mae cyfle i'r myfyrwyr roi sylwadau ar yr adnoddau drwy fyrddau'r ysgolion a'r cyfadrannau, cyfarfodydd staff-myfyrwyr a'r gynhadledd myfyrwyr a gynhelir ar bob campws. Trafodir problemau'n ymwneud ag adnoddau yn yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni hefyd. Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor yn cyfarfod hefyd gyda Phennaeth y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr yn wythnosol i drafod unrhyw broblemau. Mae'r Pwyllgor Adnoddau Canolog hefyd yn canfod unrhyw broblemau sy'n ymwneud ag adnoddau gan y myfyrwyr. Yn dilyn yr uno a'r tanfuddsoddi mewn adnoddau yn Abertawe yn y gorffennol, sicrhawyd y tîm fod proses systematig ar waith erbyn hyn ar gyfer dyrannu adnoddau.

2.74 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol erbyn hyn fecanweithiau priodol ar gyfer galluogi datblygiad a chyflawniad y myfyrwyr a bod y rhain yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B5): Mae darparwyr addysg uwch yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys yr holl fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn bartneriaid yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad addysgol.

Cod Ansawdd, Pennod B5: Ymgysylltiad â'r Myfyrwyr

Y canfyddiadau

2.75 Mae'r Brifysgol wedi'i hymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'i myfyrwyr i ddarparu profiadau dysgu o safon uchel. Mae agwedd y sefydliad tuag at ymgysylltiad â'r myfyrwyr wedi'i disgrifio yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd ac mae wedi'i alinio â'r Cod Ansawdd. Mae'r Brifysgol yn pennu pedwar prif gyfrwng ar gyfer ymgysylltu â'r myfyrwyr: aelodaeth myfyrwyr ar bwyllgorau; cyfranogaeth mewn Adolygiadau Blyneddol o Raglenni; cyfleoedd i roi adborth ffurfiol am eu profiadau dysgu; a thrafod problemau gyda staff gan gynnwys tiwtoriaid personol.

2.76 Mae Undeb y Myfyrwyr yn gyfrifol am oruchwylio system ffurfiol y Brifysgol o gynrychiolaeth myfyrwyr. Ers yr uno yn 2012, prif ffocws gwaith Undeb y Myfyrwyr yw ffurfio strwythur cyfun, gan ddod â'r undebau oedd yn annibynnol gynt at ei gilydd o dan un fframwaith rheoliadol; gweithio ar ymgysylltu â'r myfyrwyr ac felly mae'r strwythurau cynrychioli ffurfiol wedi bod yn gynyddrannol. Cyflwynodd y Brifysgol fid llwyddiannus i brosiect 'Myfyrwyr fel Partneriaid' yr Academi Addysg Uwch i gefnogi'r gwaith hwn ac er nad oedd yn cyfranogi'n llawn yn y prosiect chwaraeodd rôl mewn hau hadau'r fframwaith cyfredol o gynrychiolaeth.

2.77 Penodwyd Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr) yn 2013 a sbardunodd hynny'r broses o ffurfio Adran Profiad Myfyrwyr. Rhan o'r rhesymwaith ar gyfer ei sefydlu oedd helpu Undeb y Myfyrwyr i atgyfnerthu ac ymestyn mecanweithiau ymgysylltiad â'r myfyrwyr. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r adran yn penodi 12 llysgennad ymgysylltiad â'r myfyrwyr i weithio ar nifer o brosiectau allweddol. Maent hefyd yn gweithredu system oleuadau traffig fel ffordd o roi diweddariadau clir am y cynnydd i'r myfyrwyr a'r staff ac maent yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i weithredu plattform rhyngweithiol ar-lein sy'n gadael i fyfyrwyr godi materion sy'n achosi pryder ac, yn eu tro, gall y corff myfyrwyr ehangach benderfynu ar bwysigrwydd unrhyw faterion ac a ddylid cymryd camau gweithredu.

2.78 Penodir cynrychiolwyr myfyrwyr drwy etholiadau sy'n digwydd yn y dosbarth a chânt eu harwain gan Gyfarwyddwyr Rhaglen; mae Undeb y Myfyrwyr yn goruchwylio'r rhan hon o'r broses. Rhoddid iddo'r dasg o ddarparu hyfforddiant a rhoi cefnogaeth barhaus i gynrychiolwyr. Mae myfyrwyr wedi'u cynrychioli ar ystod eang o bwyllgorau ar lefel y brifysgol, cyfadran ac ysgol. Addaswyd y trefniadau aelodaeth yn ddiweddar i ganiatáu ar gyfer cynrychiolaeth ar bwyllgorau i gynnwys aelodau o bob un o'r campysau. Mae'r Byrddau Cyfadran yn gweithredu fel y cyfrwng blaenllaw i drafod materion academaidd. Mae pwyllgorau staff-myfyrwyr yn gweithredu ar lefel yr ysgolion i drafod ansawdd profiadau dysgu'r myfyrwyr ac mae cynadleddau myfyrwyr a gynhelir ddwywaith y flwyddyn yn rhoi cyfle ffurfiol ychwanegol i fyfyrwyr roi adborth ar eu profiadau dysgu ehangach. Mae myfyrwyr hefyd yn cymryd rhan mewn datblygu ac adolygu rhaglenni ac mae cynrychiolwyr yr Undeb yn mynychu pwyllgorau uwch y Brifysgol, yn enwedig ar lefel gyfadranol.

2.79 Cydnabyddir cynrychiolwyr myfyrwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n codi o arferion blaenorol yn y prifysgolion cyn yr uno. Telir cynrychiolwyr ar lefel gyfadranol am eu cyfraniad a gall myfyrwyr hefyd sicrhau achrediad drwy'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Cyflogadwyedd a Thystysgrif Broffesiynol mewn Sgiliau ar gyfer Hunangyflogaeth.

2.80 Mae'r Brifysgol yn cyfranogi yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir ac, yn fwyaf diweddar, Arolwg y Baromedr Myfyrwyr. Ategir hyn gan werthusiadau modiwl a rhaglen a holiaduron ar gyfer myfyrwyr lefel 4 a 5 sy'n efelychu'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol. Mae Siarter y Myfyrwyr yn ei le hefyd sy'n disgrifio'r cyfrifoldebau sydd gan y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a'r myfyrwyr eu hunain.

2.81 Mae'r trefnau ymgysylltu â'r myfyrwyr mewn gweithgareddau sicrhau ansawdd yn cael eu monitro drwy'r broses Adolygiad Blyneddol o Raglenni. Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn gweithio i sefydlu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol i fesur effeithiolrwydd ei gwaith yn y maes hwn.

2.82 Canfu'r tîm, er gwaethaf yr heriau oherwydd yr uno un ar ôl y llall, bod strwythur ffurfiol o gynrychiolaeth myfyrwyr yn bodoli ac mae'r Brifysgol wedi diffinio ymgysylltiad â'r myfyrwyr yn ei gyd-destun er y gallai hyn gael ei newid yn y dyfodol. Er ei fod yn gyfyngedig ac wedi'i weithredu'n anghyson, mae rhywfaint o hyfforddiant i gynrychiolwyr myfyrwyr ac mae myfyrwyr yn cymryd rhan mewn ystod eang o fforymau sy'n trafod profiad y myfyrwyr. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod trefniadau'r Brifysgol yn ddigonol i alluogi i Ddisgwyliad B5 gael ei gyflawni'n ymarferol.

2.83 Profodd y tîm y Disgwyliad hwn drwy gwrdd â staff, myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr. Archwiliodd y tîm Siarter y Myfyrwyr, siartiau trefniadaeth, canlyniadau o gynadleddau myfyrwyr a dogfennau strategol yn ymwneud ag ymgysylltiad â'r myfyrwyr. Yn ogystal, gwelodd y tîm hefyd ddisgrifiadau swydd, Cyflwyniad y Myfyrwyr, y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a chofnodion y pwyllgorau.

2.84 Canfu'r tîm fod yr uniadau wedi cyflwyno heriau i'r Brifysgol ac i Undeb y Myfyrwyr o ran adeiladu a gweithredu system effeithiol o gynrychiolaeth myfyrwyr. Dywedodd yr Undeb nad yw staff y Brifysgol bob amser yn dilyn y broses y cytunwyd arni mewn perthynas ag etholiadau sy'n gallu achosi anawsterau yn nhermau eu goruchwyliaeth o'r system. Dywedodd cynrychiolwyr y myfyrwyr wrth y tîm hefyd bod yr hyfforddiant yn sylfaenol ac nid oeddent bob amser yn barod ar gyfer cyfarfodydd. Er gwaethaf yr heriau strwythurol y mae'r system yn eu creu, cyfarfu'r tîm â chynrychiolwyr oedd yn amlwg yn ymgysylltu ar lefel rhaglen, ysgol a chyfadran. Roedd hi'n amlwg bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi a'u bod yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau gwybodus am eu cyfleoedd dysgu, ac am ganlyniadau o brosesau sicrhau ansawdd, megis monitro rhaglenni'n flynyddol. Tynnodd Undeb y Myfyrwyr sylw'r tîm at y ffaith fod sefydlu'r Adran Profiad Myfyrwyr wedi cryfhau'r ymgysylltiad â'r myfyrwyr o fewn y Brifysgol ac yn dangos ymrwymiad y sefydliad i system gynrychiolaeth gref a bywiog. Felly, mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau** gwaith yr Adran Profiad Myfyrwyr i gefnogi Undeb y Myfyrwyr i gryfhau'r oruchwyliaeth ar system gynrychiolaeth y myfyrwyr, a'u hyfforddiant.

2.85 Mae'r bartneriaeth rhwng yr Adran Profiad Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr wedi arwain at ddefnydd cynyddol o blatfform rhyngweithiol electronig i gasglu a blaenoriaethu adborth gan fyfyrwyr. Mae'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys myfyrwyr ôl-raddedig a'r rheiny sy'n astudio ar gampws Llundain, yn cael cyflwyno adborth yn electronig ac yna mae'r myfyrwyr yn 'pleidleisio' am fater penodol i'w helpu i ganfod pa mor bwysig ydyw. Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn gwir werthfawrogi'r plattform hwn fel ffordd syml a hygyrch o gyflwyno adborth. Felly, mae'r tîm o'r farn bod y defnydd a wneir o system ryngweithiol ar-lein i gasglu adborth gan fyfyrwyr ac i weithredu ar yr adborth hwnnw yn **arfer da**.

2.86 Roedd y tîm adolygu o'r farn bod rôl y myfyrwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr mewn datblygu a chymeradwyo rhaglenni (gwelwch Ddisgwyliad B1) heb ei ddatblygu ddigon. Er bod y tîm wedi canfod tystiolaeth i ddangos bod myfyrwyr yn cael rhoi eu barn ynghylch rhaglenni newydd posibl ac yn mynd i ddigwyddiadau dilysu ar yr ail gam fel aelodau panel nid oedd y gyfranogaeth hon yn cael ei gweithredu'n gyson. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae cyfranogaeth myfyrwyr yn canolbwyntio fwy ar ganfod y galw gan y farchnad nag ar ymgynghori â myfyrwyr dros y cwricwlwm. Mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y broses o ystyried rhaglenni drwy eu haelodaeth ar yr Is-Bwyllgor Dilysu, ond nid yw cynrychiolwyr myfyrwyr wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y ddwy flynedd academaidd ddiwethaf.

2.87 Mae'r Brifysgol wedi cydnabod bod amrywiol fecanweithiau'n bodoli, yn dilyn yr uno, i gasglu adborth gan fyfyrwyr ac i 'gau'r ddolen' mewn perthynas ag unrhyw gamau a gymerir.

Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm nad oedd y mecanweithiau hyn yn effeithiol bob amser ac, er bod camau wedi'u cymryd i gryfhau rhai prosesau a systemau yn ddiweddar, nid oedd newidiadau megis y rheiny i'r weithdrefn ar gyfer ymdrin ag amgylchiadau esgusodol wedi cael eu cyfathrebu'n dda. Dywedodd y myfyrwyr hefyd y gallai'r Brifysgol gryfhau'r cyfathrebu am ddiffyg gweithredu lle nad oedd gweithredu'n bosib er enghraifft oherwydd cyfyngiadau ar ariannu. Mae'r Brifysgol wedi cymryd camau i ymdrin â hyn drwy alw cynadleddau myfyrwyr blynyddol sy'n darparu cyfle ffurfiol ychwanegol i fyfyrwyr i drafod eu profiadau dysgu ehangach ac mae hyn yn hysbysu system oleuadau traffig o adborth fel ffordd o ddarparu diweddariadau clir am y cynnydd i'r myfyrwyr a'r staff. Felly, mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau** gwaith y Brifysgol i roi gwybod i'r myfyrwyr am y camau a gymerwyd i ymateb i'w hadborth.

2.88 Daeth y tîm i'r casgliad, er bod modd cryfhau'r broses ethol a'r hyfforddiant i gynrychiolwyr, ac y gellid cymhwyso cyfranogaeth mewn datblygu a chymeradwyo rhaglenni yn fwy cyson, bod y Brifysgol yn cymryd camau i ymdrin â gwendidau bach mewn systemau ymgysylltu â'r myfyrwyr. Mae perthynas gynhyrchiol i'w chael rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, ac mae mecanweithiau arloesol ar waith i gasglu adborth gan fyfyrwyr, i asesu pa mor bwysig yw'r materion i fyfyrwyr ac i gyfathrebu unrhyw gamau a gymerir i ymateb i hynny. Am y rhesymau yma, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B6): Mae darparwyr addysg uwch yn gweithredu prosesau asesu sy'n gyfiawn, dilys a dibynadwy, yn cynnwys y rheini ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, sy'n galluogi pob myfyriwr i arddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y credyd neu'r cymhwyster sy'n cael ei geisio.

Cod Ansawdd, Pennod B6: Asesu Myfyrwyr a Chydnabod Dysgu Blaenorol

Y canfyddiadau

2.89 Mae gan y Brifysgol fecanweithiau ar waith i sicrhau bod y prosesau o gynllunio, cymeradwyo ac adolygu asesiadau'n galluogi myfyrwyr i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu eu rhaglenni. Mae rheoliadau asesu'n rhan o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd a adolygir yn flynyddol a chaiff addasiadau eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd a'r Senedd. Ym mis Mawrth 2014, er enghraifft, sefydlwyd gweithgor i ddiwygio Pennod 7 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Yn ogystal â rheoliadau, darperir mathau eraill o arweiniad i'r staff. Cynghorir datblygwyr rhaglenni i ddefnyddio'r arweiniad (a ddiweddarwyd yn ddiweddar), sydd ar gael gan yr Uned Cyfoethogi, am gynllunio ac asesu rhaglenni, a chyfeirio at y Canllawiau ar Gywerthedd Asesiadau.

2.90 Mae'r Brifysgol yn ei sicrhau ei hun bod staff academaidd wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer asesu gwaith y myfyrwyr drwy'r Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch sy'n cynnwys unedau am ddamcaniaeth ac arfer asesu. Yn y gwerthusiad o'r agwedd strategol tuag at welliant nodir bod cyfres o sesiynau 'Cinio a Dysgu' yn ymwneud â 'Manteisio i'r eithaf ar asesu' yn cael eu gweithredu, lle bu'r Deon Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi'n ymweld â phob un o gampysau'r Brifysgol un ar ôl y llall, gan gyflwyno cynigion ar sut i gynllunio asesiadau i'r staff yn rhan o'r cyfnod paratoi ar gyfer y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu ar 'Ddulliau Asesu Arloesol / Adborth Creadigol'.

2.91 Mae'r staff yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau yn ystod y rhaglen Cynllunio Strategol a Gweithredol flynyddol a dywedwyd wrth y tîm bod y staff i gyd yn mynd i hon fel arfer. Os na all y staff fynychu, anfonir gohebiaeth ar yr ebost sy'n cynnwys copïau o gyflwyniadau a dogfennau. Mae'r staff hefyd yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn ystod diwrnodau i bartneriaid ac yng nghyfarfodydd y cyfadrannau.

2.92 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn nodi bod y broses Adolygiad Blynyddol o Raglenni yn gyfle i ystyried pa mor briodol yw'r dulliau asesu. Yn yr adroddiadau Adolygiad Blynyddol o Raglenni, mae adrannau ar addasiadau i raglenni, sy'n cynnwys newidiadau i'r dulliau asesu, neu'n rhoi sylwadau ar asesiadau mewn ffyrdd eraill.

2.93 Amlinellir strategaethau asesu mewn Dogfennau Rhaglen Terfynol. Mae gan lawlyfrau'r rhaglenni ddolenni at yr adrannau perthnasol o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd, ac mae'n amlinellu cyfrifoldebau'r myfyrwyr mewn perthynas â'r broses asesu, ac yn cynnwys disgrifwyr modiwlau, sy'n nodi'r gofynion asesu. Mae canllawiau'r modiwlau hefyd yn nodi beth yw'r gofynion asesu, ac hefyd yn cynnwys dyddiadau cyflwyno a'r dyddiadau pan y gall y myfyrwyr ddisgwyl derbyn adborth. Bydd Dogfennau Rhaglen Terfynol yn nodi y bydd myfyrwyr yn derbyn manylion y rhaglen asesu ar gyfer y flwyddyn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, ynghyd â dyddiadau a manylebau'r gwaith cwrs. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod hyn yn digwydd.

2.94 Mae'r Brifysgol yn defnyddio proses o Gydabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiad, y rhoddir disgrifiad ohoni ym Mhennod 10 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae dwy agwedd; dysgu ardystiedig a dysgu profiadol. I'r rhai sy'n ceisio eithriadau o hyd at 40 credyd o ddysgu profiadol, mae hyn wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiad. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd hefyd yn cyfeirio at Lawlyfr Cydnabod ac Achredu Dysgu. Mae hwn yn lawlyfr cynhwysfawr sy'n cymryd y myfyrwyr drwy'r broses o wneud cais am ddysgu profiadol o fwy na 40 credyd. Mae cofnodion y Bwrdd Cydnabod Dysgu Blaenorol

drwy Brofiad yn dangos bod y broses yn gweithio'n briodol ac yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2014 gwnaed awgrymiadau ynglŷn â chynig i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd a'r Senedd am symleiddio'r broses. Mae gan y Brifysgol broses ar gyfer ymdrin â cheisiadau gan fyfyrwyr i gael eu hasesu mewn iaith sy'n wahanol i'r iaith addysgu.

2.95 Mae'r Brifysgol yn diffinio ac yn defnyddio prosesau cyson o safoni'n fewnol ac yn allanol, a gadarnheir yn adroddiadau'r arholwyr allanol. Gall y Byrddau Cyfadran benderfynu ar y prosesau marcio a safoni mwyaf priodol yng nghyd-destun y fframwaith marcio a fabwysiadwyd gan y Brifysgol. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cynnwys canllawiau am hyn yn Atodiad GA22. Yn ystod yr ymweliad, cadarnhaodd staff o'r Brifysgol a'i sefydliadau partner eu bod yn gwybod beth oedd y gofynion ar gyfer eu hysgolion a'u cyfadrannau. Cadarnhaodd adolygiad o'r polisi a nodir yng nghanllawiau'r modiwlau, ac o'r dystiolaeth a ddarperir wrth safoni, bod hyn yn digwydd yn unol â'r rheoliadau.

2.96 Archwiliodd y tîm adolygu brosesau asesu'r Brifysgol, gan gynnwys cydnabod dysgu blaenorol, drwy adolygu dogfennau, gan gynnwys y Llawlyfr Ansawdd Academaidd; canllawiau ar gyfer cynllunio rhaglenni a'r Canllawiau ar Gywerthedd Asesiadau; cofnodion y Bwrdd Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiad; cofnodion y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd a chofnodion y Senedd; Dogfennau Rhaglen Terfynol; canllawiau modiwl, y rhith-amgylchedd dysgu; arferion safoni; y Llawlyfr Cydnabod Dysgu Blaenorol; cofnodion byrddau arholi; ac adroddiadau'r arholwyr allanol. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm adolygu â staff a myfyrwyr o bob campws ac mewn sefydliadau partner.

2.97 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn nodi bod yn rhaid rhoi disgrifwyr i'r myfyrwyr o'r safonau cyflawniad a ddisgwyliar gan y myfyrwyr ynghyd â'r hyn a ddisgwyliar ar gyfer dyfarnu gradd neu gategoreiddiad penodol. Darparwyd dau ganllaw modiwl yn y sail tystiolaeth. Mae'r ddau'n cynnwys copi o'r ffurflen adborth ar gyfer modiwlau sydd â grid asesu. Fodd bynnag, dim ond un sy'n rhestru'r hyn sy'n ofynnol i gyrraedd pob band dosbarthu ac yn dangos sut y dyfernir y marciau. Yn ystod yr ymweliad, darparwyd manyleb aseiniad pellach a oedd yn gynhwysfawr. Cadarnhaodd y staff bod y myfyrwyr i gyd yn derbyn meini prawf marcio ar gyfer pob asesiad er bod y rhain yn cael eu haddasu ar gyfer meysydd astudio, ond daeth y tîm i'r casgliad o'i gyfarfodydd gyda'r myfyrwyr nad oedd hyn yn gyson ar draws y ddarpariaeth i gyd, gyda rhai myfyrwyr yn nodi nad oeddent wedi derbyn meini prawf o gwbl. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn mabwysiadu dull gweithredu cyson i sicrhau bod y myfyrwyr i gyd yn derbyn meini prawf graddio clir sy'n eu galluogi i ddeall beth sy'n ofynnol er mwyn cyflawni gradd benodol.

2.98 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn nodi dyddiad cau ar gyfer adborth o 20 diwrnod gwaith yn ystod y tymor ar gyfer myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig a addysgir, yn ymestyn i 30 diwrnod ar gyfer traethodau myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir. Mae hefyd yn dangos yn glir bod yn rhaid paratoi adroddiadau adborth ffurfiol ysgrifenedig o asesiadau ar gyfer pob darn o waith a aseswyd sy'n cyfrannu at asesiad ffurfiol o berfformiad myfyriwr. Er bod y staff wedi cadarnhau eu dealltwriaeth o'r dyddiadau cau yma ac wedi atgyfnerthu'r gofyniad am adborth ysgrifenedig, daeth y tîm adolygu i'r casgliad, o gyfarfodydd gyda'r myfyrwyr eu bod yn pryderu bod ansawdd yr adborth yn amrywiol, nad yw bob amser yn glir beth a ddisgwyliar ac nad yw bob amser yn rhoi arweiniad ar sut i wella, neu'n ymwneud yn glir â meini prawf. Mewn rhai achosion, nid oedd myfyrwyr wedi derbyn adborth ysgrifenedig o gwbl. O ganlyniad, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn sicrhau bod adborth o asesiadau'n cael ei ddarparu yn unol â gofynion y Brifysgol.

2.99 Mae'r Brifysgol yn gweithredu strwythur dwy haen ar gyfer byrddau arholi ffurfiol, yn cynnwys y Bwrdd Arholi Cychwynnol a'r Bwrdd Arholi Dilyniant/Dyfarnu. Gellir strwythuro'r Bwrdd Arholi Cychwynnol ei hun mewn dwy ran, yn ôl disgresiwn y gyfadran. Naill ai un cam; y Bwrdd Arholi Rhaglenni, neu gam deuol; Bwrdd Arholi Modiwlau wedi'i ddilyn gan Fwrdd Arholi Rhaglenni. Yn y flwyddyn academaidd 2014-15, ymestynnodd y Brifysgol Fyrddau Arholi Canol-sesiwn i'r holl gampysau a chaniatáu i'r Byrddau wneud penderfyniadau am adferiad.

2.100 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd a'r cyflwyniad a wnaed i arholwyr allanol wrth eu hymsefydlu yn nodi bod yr aelodaeth ar gyfer byrddau canol-sesiwn yr un fath ag ydyw i fyrdau eraill. Fodd bynnag, yn y dystiolaeth a gyflwynwyd mae presenoldeb yr arholwr allanol yn anghyson. Roedd yn bresennol yn un ond nid yn y ddau arall. Cadarnhaodd y staff fod cyhoeddi dyddiadau'r byrddau ychydig yn hwyrach na'r disgwyl wedi achosi problemau argaeledd gan rai arholwyr allanol ac, o ganlyniad i hynny, roedd y Brifysgol wedi gorfod rhoi mwy o bwyslais ar ysbryd y rheoliadau yn hon, y flwyddyn gyntaf o weithredu'r Byrddau Arholi Canol-sesiwn ar draws y Brifysgol. Nid yw'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn nodi a oes gofyniad yn ymwneud â chworwm a pha drefniadau sydd ar waith os nad yw aelodaeth y Bwrdd yn ddigon i wneud chworwm.

2.101 Mae'r tîm adolygu'n nodi bod newidiadau wedi'u gwneud i safoni'r trefniadau ar gyfer Byrddau Arholwyr, ac adroddiadau gan Fyrdau Arholwyr, ar draws y sefydliad cyfun ac mae wedi croesawu mesurau a oedd wedi eu gweithredu'n barod i egluro'r derminoleg. Fodd bynnag, gwelodd aelodau'r tîm nad oedd gan esiamplau o'r Byrddau Arholi Canol-sesiwn newydd yr un aelodaeth â byrddau eraill bob amser, yn arbennig pan gânt eu cynnal heb arholwr allanol yn bresennol; arholwyr allanol oedd yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd cyn-Fwrdd, y ddau achos yn groes i'r gofynion a nodwyd yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a phroblemau gyda'r system adrodd a oedd wedi arwain at ddefnyddio templedi nad oeddent yn adlewyrchu statws a natur y Byrddau yn fanwl gywir.

2.102 Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys popeth mewn perthynas â rheoli'r broses asesu. Felly, er bod trefnau sicrhau ansawdd y Brifysgol yn ddigonol mae rhai gwendidau o ran pa mor drwyadl y maent yn cael eu gweithredu, yn arbennig mewn perthynas â darparu meini prawf asesu i'r myfyrwyr sy'n briodol ac yn gyson, rhoi adborth i'r myfyrwyr a rheoli'r byrddau arholi. O ganlyniad, mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol yn egluro aelodaeth, presenoldeb, cylch gwaith a gofynion adrodd pob un o'r byrddau o fewn strwythur byrddau arholi'r Brifysgol.

2.103 Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer ystyried ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n ymwneud ag amgylchiadau esgusodol, a oedd wedi derbyn sylw yn y gorffennol gan ysgolion unigol a/neu dimau rhaglen yn y sefydliadau sylfaenol. I sicrhau triniaeth gyfartal, ystyrir yr holl honiadau o'r fath gan Banel Amgylchiadau Esgusodol canolog erbyn hyn yn unol â'r rheoliadau a nodir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Adroddir am benderfyniadau'r Panel Amgylchiadau Esgusodol i'r bwrdd arholi perthnasol i'w gweithredu ac ni chaniateir i'r Bwrdd ail agor y drafodaeth. Dywedodd y Brifysgol bod amseroedd o hyd pan fo'r staff yn rhoi'r argraff nad ydynt yn gyfarwydd ag agweddau o'r drefn. Cadarnhaodd y staff a gyfarfu â'r tîm arolygu yn ystod yr ymweliad eu bod yn deall y broses a pha mor ddefnyddiol yw dull wedi'i ganoli. Fodd bynnag, mynegodd y myfyrwyr bryder ynglŷn â diffyg cyfathrebu'r broses newydd. Cynghorodd y Brifysgol bod cydweithwyr o'r Swyddfa Academaidd wedi cynnal sioeau teithiol ar y campysau ac wedi diweddarau gwefannau a dogfennau rhaglenni er mwyn cyfleu'r newidiadau i'r drefn yn effeithiol. Gwelodd y tîm adolygu'r canllawiau newydd ar y wefan a chadarnhau'r ddolen at y wefan sydd mewn dogfennau rhaglenni, ac felly mae'r tîm yn **cadarnhau**'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau dealltwriaeth gyffredin ymysg staff a myfyrwyr o'r drefn newydd ar gyfer ymdrin ag amgylchiadau esgusodol.

2.104 Yn gyffredinol, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn defnyddio prosesau sy'n galluogi myfyrwyr i ddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu. Am fod angen egluro rhai o'r prosesau ar hyn o bryd neu am fod angen eu cyfathrebu'n well er mwyn ymdrin â materion yn ymwneud ag amrywiaeth ac anghysondeb mewn arferion neu i esbonio newid yn y broses, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn ganolig.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Canolig

Disgwyliad (B7): Mae darparwyr addysg uwch yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol.

Cod Ansawdd, Pennod B7: Arholi Allanol

Y canfyddiadau

2.105 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol. Mae'r prosesau a'r trefniadau ar gyfer arholi allanol wedi'u disgrifio ym Mhennod 7 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, ac maent yn glir a chynhwysfawr, ac mae adroddiadau arholwyr allanol yn derbyn ystyriaeth ddifrifol ar bob lefel yn y Brifysgol.

2.106 Mae'r Panel Enwebu Arholwyr Allanol yn rheoli'r oruchwyliaeth dros y broses o benodi arholwyr allanol, ac mae'r cofnodion yn cadarnhau bod y broses yn gadarn mewn perthynas ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl (sydd wedyn yn cael eu datrys), ac â'r angen am roi mentora ar waith ar gyfer arholwyr sy'n llai profiadol, ac â datblygiadau yn y drefn a'r broses. Penodir o leiaf un arholwr allanol ar gyfer pob darpariaeth a addysgir sy'n arwain at ddyfarniad addysg uwch a'r cyfnod arferol mewn swydd yw pedair blynedd. Yn ogystal, rhaid penodi o leiaf un arholwr allanol yn uwch arholwr allanol i bwrpasau mynychu'r Bwrdd Arholi Dilyniant/Dyfarnu er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r Brifysgol yn cael eu dilyn yn gywir. Os cynigir arholwr allanol nad yw o gefndir academaidd, gellir penodi tîm o arholwyr fel bod yr holl feini prawf yn cael eu cyflawni, neu gellir penodi arholwr profiadol i weithredu fel mentor.

2.107 Mae gofyn i arholwyr allanol fynd i sesiwn ymsefydlu a redir nifer o weithiau'r flwyddyn. Mae'r deunyddiau hyfforddi'n gynhwysfawr ac maent yn cynnwys amlinelliad o'r rôl ynghyd â chrynodeb manwl o reoliadau'r Brifysgol. Maent hefyd yn trafod gwybodaeth yn ymwneud â'r rhaglenni y maent yn eu goruchwyllo. Darperir digon o fanylion i alluogi arholwyr allanol i wneud eu dyletswyddau. Yn dilyn eu hymsefydliad, mae arholwyr yn derbyn crynodeb blynyddol gan y Brifysgol i roi'r diweddaraf iddynt am addasiadau perthnasol i reoliadau. Mae'r llythyr gan y Deon yn cadarnhau bod hyn cael ei wneud drwy ohebiaeth. Mae gofyn i arholwyr allanol gymeradwyo tasgau asesu a darperir y rhain i'r Byrddau Cyfadran ar ffurf cytundebau blynyddol.

2.108 Mae'r Brifysgol yn disgwyl na fydd unrhyw fwrdd arholi allanol yn cael ei gynnal heb o leiaf un arholwr allanol yn bresennol. Fel y nodwyd yn yr adran ar Ddisgwyliad B6, mae'r tîm adolygu'n rhoi sylwadau ar anghysondeb gweithrediad y rheoliadau mewn perthynas â'r gofyniad yma. Yn wir, mae'r adroddiad trosolwg ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013-14 yn nodi na fynychodd 33 o'r arholwyr allanol.

2.109 Ar ôl i'r byrddau arholi gwrdd, mae gofyn i arholwyr allanol gwblhau adroddiad blynyddol ar bro fforma safonol a'i ddychwelyd at y Swyddfa Academaidd o fewn deufis calendr. Mae Adroddiad Trosolwg yr Arholwyr Allanol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013-14 yn nodi bod y Deon Ansawdd a Safonau'n craffu ar yr adroddiadau cyn eu hanfon at y deoniaid, i ganfod unrhyw bryderon difrifol a godwyd er mwyn ymateb i arholwyr allanol yn brydlon. Mae hefyd yn nodi bod y gwaith o ystyried adroddiadau'n ffurfiol ac ymateb iddynt wedi'i gysylltu â'r broses Adolygiad Blynyddol o Raglenni sydd â'r dyddiad cau Tachwedd 15fed. Mae'r gwaith o ystyried adroddiadau'n ffurfiol ac ymateb iddynt ar lefel y rhaglen a'r gyfadran wedi'i gysylltu ag Adolygiad Blynyddol o Raglenni. Er mai dyma'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer craffu a gweithredu ar yr adroddiadau, disgwylir i ymatebion i'r adroddiadau gael eu hanfon at arholwyr allanol yn llawer cynharach. Mae'r llythyr gan y Deon at yr arholwyr allanol yn nodi y bydd y gyfadran yn ymateb yn ffurfiol; a bydd yr adroddiad a'r ymateb yn rhan o'r Adolygiad Blynyddol o'r Rhaglen. Trwy'r mecanwaith yma hefyd y bydd sefydliadau partner yn cyfrannu at drafodaethau am adroddiadau arholwyr allanol. Yn ogystal â'r broses Adolygiad Blynyddol o Raglenni, mae gan bartneriaid gynrychiolwyr ar Fyrddau Cyfadran lle trafodir yr adroddiadau ac maent hefyd yn derbyn yr adroddiadau drwy eu Harweinwyr Timau Partneriaeth.

2.110 Mae'r adroddiadau Adolygiad Blynyddol o Raglenni yn cynnwys ymatebion manwl i'r adroddiadau, ac adran lle rhoir crynodeb lle gofynnir i staff amlygu arferion da i'w lledaenu drwy'r Brifysgol gyfan. Mae cynllun gweithredu wedi'i gynnwys hefyd ar gyfer meysydd y mae'r arholwr allanol wedi'u pennu fel rhai sydd angen eu datblygu.

2.111 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer penodi a hyfforddi arholwyr allanol, ac ystyried eu hadroddiadau, yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Mae'r Brifysgol yn cymryd camau i ddarparu adroddiadau'r arholwyr allanol i'r myfyrwyr a'r sail staff ehangach yn fwy rheolaidd, ac mae tystiolaeth sy'n dangos bod y partneriaid yn cyfranogi yn y prosesau. O ganlyniad, mae'r Disgwyliad yn cael ei gyflawni mewn theori. Mae hefyd un pryder ynglŷn â diffyg cyflwyno adroddiadau ar gyfer nifer o raglenni, a mynegwyd pryderon ynghylch cysondeb y prosesau o farcio a safoni ar draws y ddarpariaeth gyfan am yr ail flwyddyn yn olynol, ond mae'r tîm adolygu'n fodlon nad yw hyn yn effeithio ar hyder wrth osod a chynnal safonau academiaidd.

2.112 Archwiliodd y tîm adolygu brosesau'r Brifysgol ar gyfer gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol drwy adolygu dogfennau, gan gynnwys y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, cyflwyniadau ymsefydlu, adroddiadau arholwyr allanol ac ymatebion iddynt, adroddiadau trosolwg ar gyfer gweithgareddau ar y campws neu oddi arno, cofnodion y Byrddau Cyfadran, y Pwyllgor Partneriaethau Cydweithredol, y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd a'r Senedd, a Dogfennau Rhaglen Terfynol. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm adolygu â staff a myfyrwyr o bob campws ac mewn sefydliadau partner.

2.113 Mae enwau a sefydliadau'r arholwyr allanol ar gael i'r myfyrwyr, ar y campws neu oddi arno, mewn llawlyfrau rhaglenni astudio, ynghyd â datganiad yn cynghori'r myfyrwyr sut y gallent ofyn am adroddiad yr arholwr allanol. Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif o'r myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu yn gwybod pwy oedd yr arholwr ac nid oeddent wedi gweld adroddiad. Mae cynrychiolwyr y cyrsiau a'r cyfadranau wedi dweud eu bod yn gweld yr adroddiadau yn ystod y broses Adolygiad Blynyddol o Raglenni, sef y mecanwaith a ddefnyddir i ystyried yr adroddiadau ac i ymateb iddynt. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod y pryder yma mewn cyfarfodydd yn ystod yr ymweliad, a dywedodd ei bod, yn dilyn lansio'r porth MyDay yn y flwyddyn academiaidd 2014-15, wrthi'n sicrhau bod yr holl adroddiadau ar gael yn rhwydd i'r myfyrwyr i gyd drwy'r porth yma, beth bynnag fod eu maes astudio. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r gwaith o sicrhau bod adroddiadau'r arholwyr allanol ar gael i'r myfyrwyr ar y porth myfyrwyr, er mwyn ymgysylltu â'r myfyrwyr yn llawnach mewn trafodaeth yn ymwneud â'r cynnwys.

2.114 Yn dilyn derbyn adroddiadau'r arholwyr allanol, mae'r Deon Ansawdd a Safonau a'r Pennaeth Partneriaethau Cydweithredol yn ysgrifennu adroddiadau trosolwg ar gyfer darpariaeth ar y campws a darpariaeth oddi ar y campws, yn y drefn honno, sy'n cael eu hadolygu mewn pwyllgorau uwch. Mae'r tîm adolygu wedi cwestiynu elfennau o Adroddiad Trosolwg yr Arholwyr Allanol ar y Ddarpariaeth Gydweithredol ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2013-14 oedd yn ymwneud â'r diffyg ffocws clir mewn rhai adroddiadau a phryderon a leisiwyd ynglŷn â'r prosesau o farcio a safoni ar draws y ddarpariaeth gyfan am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol yn cryfhau'r trefniadau adrodd ar gyfer arholi allanol i sicrhau bod y ddarpariaeth gydweithredol yn cael ei goruchwyllo'n fwy effeithiol.

2.115 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y prosesau ar gyfer penodi, cefnogi a defnyddio arholwyr allanol yn effeithiol, a bod y Brifysgol yn defnyddio dull trwyadl ac ystyrion o dderbyn adroddiadau ac ymateb iddynt. Fodd bynnag, mae angen cryfhau'r broses o oruchwyllo'r adroddiadau ar lefel sefydliadol mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B8): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol, rheolaidd a systematig i fonitro ac adolygu rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B8: Monitro ac Adolygu Rhaglenni

Y canfyddiadau

2.116 Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y Brifysgol i wneud Adolygiadau Blynyddol o Raglenni ac Adolygiadau Mawr cyfnodol yn weddol newydd ar amser yr ymweliad adolygu. Maent yn berthnasol i'r holl raglenni sy'n arwain at ei dyfarniadau, p'un a gawsent eu darparu gan y Brifysgol ei hun neu gan sefydliadau partner. Roedd y trefniadau cyfredol, a ragnodir yn fanwl yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, wedi eu cyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd 2013-14 yn dilyn adroddiad gan weithgor a sefydlwyd gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd i argymhell systemau o fonitro ac adolygu i'r sefydliad cyfan a dyfodd o'r gwahanol brosesau a ddefnyddiwyd gan Brifysgol Fetropolitan Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant cyn yr uno. Rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau a gweithrediad y prosesau Adolygiad Blynyddol o Raglenni ac Adolygiad Mawr bob blwyddyn gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd yn ei gyfarfodydd ym misoedd Mawrth ac Ebrill. Felly, gallai'r tîm adolygu archwilio tystiolaeth i ddangos datblygiad systemau gweddol newydd o fonitro ac adolygu'n gyfnodol dros gyfnod o ddwy flynedd.

2.117 Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnal Archwiliadau Ysgol ar sail rota pum mlynedd i chwe blynedd. Mae'r archwiliadau yma'n canolbwyntio ar yr ysgol gyfan, yn hytrach na rhaglenni unigol, ac mae'n ystyried, ymysg pethau eraill, ansawdd a safonau'r ddarpariaeth academiaidd, trefniadau sicrhau ansawdd, profiad cyfan y myfyrwyr, a'r rheolaeth ar ddarpariaeth a ddarperir drwy sefydliadau partner cydweithredol. Ar amser yr adolygiad, dim ond un Archwiliad Ysgol oedd wedi digwydd, ym mis Mawrth 2015.

2.118 Gweithredir Adolygiadau Blynyddol o Raglenni gan dimau rhaglen ac yna cânt eu hadrodd i lefelau cyfadranol a phrifysgol. Goruchwylir Adolygiadau Blynyddol o Raglenni, ar ran y Senedd, gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd sy'n derbyn adroddiadau trosolwg blynyddol o'r broses ar gyfer graddau a addysgir gan y cyfadranau, ac hefyd adroddiadau gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil ar safonau ac ansawdd y graddau ymchwil. Yr Adolygiad Mawr yw proses y Brifysgol ar gyfer ail-ddilysu rhaglenni astudio bob pum mlynedd, ac mae'n dilyn gwerthusiad gyda chefnogaeth allanol o bob agwedd o'r cwricwlwm, ei darpariaeth, a chynnydd a chyflawniad y myfyrwyr. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd yn derbyn adroddiadau gan ei Is-Bwyllgor Dilysu ar ganlyniadau'r Adolygiadau Mawr. Mae polisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer prosesau adolygu blynyddol a chyfnodol yn darparu sail mewn egwyddor iddi gyflawni'r Disgwyliadau yn y Cod Ansawdd: *Pennod B8: Monitro ac Adolygu Rhaglenni*; a *Phennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill (Dangosydd 17)*.

2.119 Darllenodd y tîm adolygu sampl o adroddiadau diweddar y broses Adolygiad Blynyddol o Raglenni, adroddiadau trosolwg yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni'r cyfadranau, a'r Adolygiadau Mawr, yn ogystal â chofnodion y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd, y Pwyllgor Graddau Ymchwil a'r Is-Bwyllgor Dilysu o'r ystyriaeth a roddir i'r prosesau hyn a'r broses o'u goruchwilio. Cyfarfu'r tîm â staff a myfyrwyr oedd wedi cymryd rhan mewn ymarferion monitro ac adolygu.

2.120 Mae'r broses Adolygiad Blynyddol o Raglenni'n cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau partner lle bo'n berthnasol. Mewn achosion lle nad yw'r Brifysgol yn cynnig rhaglen gydweithredol, mae'r tîm addysgu yn y sefydliad partner yn cynhyrchu Adolygiad Blynyddol ar wahân o'r Rhaglen. Mae'r wybodaeth a ystyriwyd yn cynnwys adroddiadau'r arholwyr allanol, data am

gynnydd a chyflawniad myfyrwyr, ac adborth gan fyfyrwyr ar fodiwlau a rhaglenni. Mae'r Byrddau Cyfadran yn cynnal cyfarfodydd i ystyried yr holl adroddiadau o'r Adolygiad Blynyddol o Raglenni y mae'r gyfadran yn gyfrifol amdanynt, gan ganolbwyntio ar ansawdd a safonau ar draws y gyfadran ac mewn sefydliadau partner cydweithredol; ar ymgysylltu â thema gyfoethogi bresennol y Brifysgol; ar unrhyw nodweddiad o arfer da; ac yn pennu materion sydd efallai angen eu gweithredu ar lefel rhaglen, cyfadran neu sefydliad. Mae'r cyfarfodydd yn y cyfadranau'n cynnwys cyfleoedd i gynrychiolwyr y myfyrwyr roi sylwadau, er bod y cofnodion yn dangos nad yw hyn yn digwydd bob amser.

2.121 Mae'r Brifysgol yn ystyried bod y broses Adolygiad Blynyddol o Raglenni'n "broses barhaus: yn rhan annatod o weithgareddau addysgu, dysgu ac asesu, a ddefnyddir i gasglu adborth gan fyfyrwyr, i ymdrin ag anawsterau ac i hybu arfer da". Mae Pennod 4 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn cynnwys arweiniad cynhwysfawr i'r timau rhaglen a'r cyfadranau ar sut i wneud Adolygiadau Blynyddol o Raglenni, Adolygiadau Mawr ac ail-ddilysiadau, ynghyd â thempledi ar gyfer llunio'r dogfennau angenrheidiol. Yn dilyn canlyniadau a gwerthusiadau'r flwyddyn gyntaf o weithrediad, gwnaethpwyd nifer o addasiadau a gwelliannau i'r prosesau yn ystod y flwyddyn academaidd 2013-14 a'u gweithredu yn 2014-15. Cafodd y templedi eu gwneud yn fyrrach a'r gofynion yn fwy rhagnodol. Soniodd y Brifysgol, a gallai'r tîm weld, tystiolaeth i ddangos cynnydd mewn ansawdd a chysondeb mewn adroddiadau Adolygiad Blynyddol o Raglenni ar lefelau rhaglenni a chyfadranau.

2.122 Mae'r Adolygiad Mawr yn cymryd un o ddwy ffurf, yn dibynnu a oes newidiadau mawr wedi'u cynllunio i raglen neu gyfres o raglenni neu os yw'r newidiadau hyn wedi digwydd dros y pum mlynedd flaenorol. Lle mae'r newidiadau'n fach, mae'r adolygiad ar ffurf estyniad i'r broses Adolygiad Blynyddol o Raglenni lle mae'r Is-Bwyllgor Dilysu'n ail-ddilysu'r rhaglen. Lle mae newidiadau sylweddol wedi digwydd, neu os ydynt wedi eu cynllunio, y broses yn ei hanfod yw dilysu rhaglen newydd. Fodd bynnag, ers i'r gweithdrefnau hyn gychwyn yn 2013, dim ond un Adolygiad Mawr sydd wedi bod ar y 'ffurf lai' o ganlyniad estynedig i'r broses Adolygiad Blynyddol o Raglenni. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod newidiadau sylweddol wedi digwydd i gyfran fawr o raglenni'r Brifysgol ers yr uno yn 2012 gan olygu bod angen nifer fawr o Adolygiadau Mawr a digwyddiadau ail-ddilysu dilynol.

2.123 Roedd y dogfennau a welwyd gan y tîm adolygu'n darparu tystiolaeth i ddangos bod y prosesau Adolygiad Blynyddol o Raglenni ac Adolygiad Mawr, gan gynnwys y defnydd a wneir o ddata a ddarperir gan y Brifysgol, wedi dod yn fwy cyson a chadarn dros y ddwy flynedd ers 2013 ac wedi darparu sail gadarn ar gyfer cynnal safonau academaidd. Yn ogystal, roedd cyfarfodydd gyda'r myfyrwyr a'r staff yn cadarnhau effeithiolrwydd cynyddol y prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni o ran sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu ar draws campysau'r Brifysgol. Mae'r Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B9): Mae gan ddarparwyr addysg uwch weithdrefnau i ymdrin ag apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr am ansawdd y cyfleoedd dysgu; mae'r gweithdrefnau hyn yn deg, yn hygyrch ac yn amserol, ac yn galluogi gwelliant.

Cod Ansawdd, Pennod B9: Apeliadau Academaidd a Chwynion Myfyrwyr

Y canfyddiadau

- 2.124 Disgrifir rheoliadau'r Brifysgol sy'n ymwneud â chwynion ac apeliadau ar gyfer dyfarniadau a addysgir a graddau ymchwil ym mhenodau ar wahân y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae'r sefydliad yn ceisio datrys unrhyw gwynion mor gyflym ag sy'n bosibl, ar y lefel leol lle bo'n bosibl, ac yn ceisio ymgorffori egwyddorion cyfiawnder naturiol a thegwch gweithdrefnol.
- 2.125 Mae'r rheoliadau'n cynnwys amseriadau i bob cam o'r broses, ac mae hyn yn cynnwys cyfathrebu'r canlyniad i'r achwynydd. Gwneir beirniadaethau gan staff sy'n annibynnol i'r achos dan sylw a, lle cynullir panelau, mae hawl i fyfyrwyr ymddangos yn bersonol. Mae cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr hefyd yn eistedd ar y panel. Mae'r rheoliadau, y prosesau a'r gweithdrefnau yn ymwneud â chwynion ac apeliadau'n cymryd i ystyriaeth y pwyntiau cyfeirio allanol, gan gynnwys arweiniad gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Cyngor Cofrestryddion Academaidd.
- 2.126 Cyhoeddir y gweithdrefnau ar dudalennau'r Swyddfa Academaidd ar y wefan, yn rhan o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd ond hefyd fel dolenni ar wahân. Mae crynodebau ar gael i'r myfyrwyr, ac mae'r ffurflenni a ddefnyddir ar gyfer apeliadau academaidd yn cynnwys arweiniad ychwanegol. Gall y myfyrwyr gael cefnogaeth a chyngor gan Undeb y Myfyrwyr, a hefyd gan y Swyddfa Academaidd, sydd hefyd yn darparu sesiynau briffio i staff sy'n ymdrin â chwynion. Hysbysir y myfyrwyr am eu hawl i gyflwyno eu hachos i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol os ydynt yn parhau'n anhapus gyda phenderfyniad y sefydliad. Creffir ar y trefnau cwyno ac apelio yn rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Ategir hyn gan adroddiad i'r Senedd, a lunnir gan y Swyddfa Academaidd, sy'n cynnwys pwyntiau dysgu o'r achosion lle bo'n briodol.
- 2.127 Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau trwyadl, y canllawiau clir a hygyrch i fyfyrwyr, y cyfeiriad eglur at rôl Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, a'r trefniadau monitro cadarn yn ddigonol i alluogi cyflawni'r Disgwyliad hwn mewn theori.
- 2.128 Profodd y tîm y Disgwyliad hwn drwy ddarllen y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, adroddiadau blynyddol i'r Senedd, a ffurflenni yn ymwneud â chwynion ac apeliadau. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm â myfyrwyr a staff, gan gynnwys y rheiny o bartneriaid cydweithredol.
- 2.129 Canfu'r tîm fod trefnau cwyno ac apelio wedi'u dogfennu'n gynhwysfawr yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Canfu'r tîm hefyd fod y staff yn deall y rhain yn dda a bod hyn wedi'i helpu gan ddeunyddiau hyfforddi manwl sy'n rhoi crynodeb i'r staff am faterion yn amrywio o'r sail ar gyfer cwynion ac apeliadau, gwahanol gamau'r broses a sut y gwneir penderfyniadau. Mae'r hyfforddiant hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at yr amrywiol dempledî sy'n ymwneud â'r broses sy'n wahanol i fyfyrwyr sy'n astudio ar raglenni a addysgir ac ar gyfer graddau ymchwil ôl-raddedig.
- 2.130 Er bod nifer o'r myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm yn anghyfarwydd â'r trefnau cwyno ac apelio, roedd y mwyafrif yn hyderus bod yr wybodaeth ar gael os oes ei hangen. Roedd y myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus i fynd at staff i gael gwybodaeth yn ymwneud â chwynion ac apeliadau ac roedd cyfran o'r myfyrwyr yn ymwybodol bod polisïau a gweithdrefnau ar gael ar y wefan ac yn eu llawlyfrau.
- 2.131 Mae adroddiad blynyddol y Brifysgol ar gwynion ac apeliadau'n rhoi dadansoddiad manwl ac ystyrlon o faterion a thueddiadau sy'n effeithio ar raglenni israddedig a rhaglenni

ôl-raddedig a addysgir. Mae adroddiad blynyddol y Brifysgol o ymchwil ôl-raddedig yn cynnwys adran eglur yn ymwneud â chwynion ac apeliadau ac mae hon yr un mor fanwl.

2.132 Canfu'r tîm fod rhai myfyrwyr yn anghyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn y maes yma am nad oeddent wedi cael achos i'w defnyddio nhw ac am eu bod ar gael mewn gwahanol ffurfiau. Mae'r rheoliadau'n gynhwysfawr ac mae hyfforddiant i staff yn tanategu eu gweithrediad. Ynghyd â threfniadau cadarn y Brifysgol ar gyfer monitro ac adolygu, mae hyn yn sicrhau bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B10): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cymryd y cyfrifoldeb pennaf am safonau academiaidd ac am ansawdd y cyfleoedd dysgu, lle bynnag y cânt eu darparu neu pwy bynnag sy'n eu darparu. Mae trefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu gyda sefydliadau heblaw'r corff dyfarnu graddau wedi'u gweithredu'n gadarn a'u rheoli'n effeithiol.

Cod Ansawdd, Pennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill

Y canfyddiadau

2.133 Mae strategaeth y Brifysgol ar gyfer darpariaeth gydweithredol wedi'i chrynhofi yn ei Chynllun Strategol 2013-17 ac, mewn perthynas â phartneriaethau rhyngwladol, yn ei Strategaeth Ryngwladol. Dywedodd y Brifysgol bod ganddi ymagwedd ofalus at gydweithrediad; mae wedi'i seilio ar nifer o egwyddorion gan gynnwys y ffaith y dylai partneriaethau cydweithredol fodoli er budd academiaidd a bod yn gysylltiedig â darpariaeth gytras o fewn y Brifysgol.

2.134 Mae'r Brifysgol yn darparu cyfleoedd dysgu gydag eraill drwy nifer o drefniadau, gan gynnwys etholfreinio (a adnabyddir hefyd fel partneriaethau cwricwlwm a rennir neu gwricwlwm cyffredin), dilysu (a adnabyddir hefyd fel partneriaethau cwricwlwm a ddatblygir ar y cyd), a threfniadau trosglwyddo ac allgymorth, gyda nifer o sefydliadau partner yn y DU a thramor. Fel arfer, mae'n rhaid i'r holl ddarpariaeth gael ei darparu a'i hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg neu/a'r Saesneg. Yn un o'r partneriaethau rhyngwladol, darperir rhywfaint o addysgu yn ystod y flwyddyn gyntaf, sef y flwyddyn sylfaen, drwy gyfrwng y Mandarin; mae hyn yn cynnig mynediad i dair blynedd derfynol y rhaglenni ac nid yw'n cyfrannu at ddyfarniad.

2.135 Mae'r Gofrestr o Bartneriaethau Cydweithredol, a gyhoeddir ar dudalennau gwe'r Brifysgol, yn cynnwys manylion am drefniadau cydweithredol y Brifysgol. Cedwir y gofrestr gan y Swyddfa Academiaidd a goruchwylir hon gan y Pwyllgor Partneriaethau Cydweithredol a chaiff ei diweddar'u rheolaidd. Yn atodol i'r wybodaeth ar y gofrestr, mae cronfa ddata fewnol o bartneriaethau sy'n cynnwys cyfres lawnach o wybodaeth.

2.136 Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol 10 partner yn y DU, yn gynnwys saith coleg addysg bellach, y mae dau ohonynt yn rhan o'i threfniadau sector deuol, ac un sefydliad partner yn Ewrop a dau bartner y tu allan i Ewrop. Ar amser yr adolygiad, roedd nifer fechan o bartneriaethau eraill yn cael eu datblygu, gan gynnwys un bartneriaeth ryngwladol, sydd eisoes wedi cael ei chymeradwyo ond nad yw'n weithredol eto, sy'n drefniant partneriaeth i ddarparu rhaglenni'r Brifysgol drwy nifer o ganolfannau presennol y partner yn Llundain a thramor; roedd un bartneriaeth yn y broses o gael ei therfynu, ac roedd y Brifysgol wrthi'n adolygu ei threfniadau partneriaeth addysg bellach. Mae gan y Brifysgol ddwy bartneriaeth drosglwyddo sydd wedi'u llunio i hwyluso recriwtio myfyrwyr ar ei rhaglenni yn y DU. Ar amser yr adolygiad, roedd y Brifysgol wrthi'n adolygu'r trefniadau hyn. Mae nifer fechan o raglenni cydweithredol wedi cael eu cydnabod gan gyrff PSRB.

2.137 Mae un o'r partneriaethau rhyngwladol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dyfarniadau dwbl a disgwylir i'r dyfarniadau cyntaf gael eu gwneud yn 2017; mae'r Memorandwm Cytundeb ar gyfer y bartneriaeth hon yn cynnwys manylion am gyfrifoldebau'r Brifysgol a'r sefydliad partner mewn perthynas â chynnal safonau academiaidd y dyfarniad y mae pob un ohonynt yn gyfrifol amdano. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod y byddai'n fanteisiol datblygu prosesau manylach ar gyfer rheoli dyfarniadau dwbl; clywodd y tîm fod yr arweiniad cenedlaethol sydd ar y gweill yn mynd i hysbysu ei hystyriaethau. Mae gan y Brifysgol hefyd drefniadau ar gyfer goruchwyllo rhaglenni graddau ymchwil ar y cyd gyda sefydliad ymchwil Prifysgol Cymru, nifer o drefniadau dysgu seiliedig ar waith, a threfniadau astudio dramor, ac mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredol drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

2.138 Mae'r Brifysgol yn cadw'r cyfrifoldeb am safonau academiaidd yr holl ddyfarniadau sy'n cael eu dyfarnu yn ei henw. Mae gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd) y cyfrifoldeb gweithredol cyffredinol am oruchwylio'r ddarpariaeth gydweithredol. Mae'r Pennaeth Partneriaethau Cydweithredol a'r staff cysylltiedig sydd â chyfrifoldeb am bartneriaethau cydweithredol i'w cael yn y Swyddfa Academaidd. Y Senedd sy'n cadw'r oruchwyliaeth academiaidd ar y ddarpariaeth gydweithredol, gyda chefnogaeth gan ei Phwyllgor Rhyngwladol a'i Phwyllgor Partneriaethau Cydweithredol; mae'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd yn ymdrin â'r agweddau hynny sy'n berthnasol i'w gylch gwaith, er enghraifft mewn perthynas â chymeradwyo ac adolygu rhaglenni. Ar lefel gyfadranol, mae'r Bwrdd Cyfadran yn gyfrifol am fonitro partneriaethau, ac mae'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer myfyrwyr ymchwil sy'n astudio drwy bartneriaethau cydweithredol. Mae cofnodion y pwyllgorau hyn ar lefel y Brifysgol a'r cyfadranau'n dangos trefn briodol ar waith i adrodd ar i fyny ac ar i lawr, a goruchwyliaeth sefydliadol effeithiol dros y trefniadau cydweithredol.

2.139 Rheolir y trefniadau cydweithredol yn unol â Fframwaith Gweithdrefnol ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol y Brifysgol, a ddisgrifir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd a'i atodiadau cefnogol. Datblygwyd y prosesau hyn yn unol â Disgwyliadau'r Cod Ansawdd. Rhoddir rhagor o arweiniad yn Llawlyfr Gweithrediadau Partneriaid Cydweithredol cynhwysfawr y Brifysgol, sydd ar gael ers y flwyddyn academiaidd 2014-15, ac sydd wedi'i gyhoeddi ar ei gwefan. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil a'r Llawlyfr Goruchwylwyr Ymchwil yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â graddau ymchwil cydweithredol.

2.140 Mae nodweddion diffiniol y Brifysgol a amlinellir yng Nghynllun Strategol y Brifysgol yn cynnwys "cwrwicwlwm israddedig, sy'n darparu priodoleddau graddedigion nodedig ym maes cyflogadwyedd", a'r gwaith arloesi gyda "dulliau newydd ym maes dysgu seiliedig ar waith ac arfer proffesiynol sy'n cyfoethogi galluoedd y gweithlu a busnesau". Er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion hyn, mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o leoliadau sy'n gysylltiedig â gwaith mewn nifer o'i rhaglenni, y mae rhai ohonynt yn cael eu hasesu. Disgrifir y trefnau i reoli lleoliadau, heblaw'r rheiny a ddarperir mewn perthynas â darpariaeth gydag achrediad proffesiynol, yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd ar ffurf Protocol y Lleoliad gyda nifer o atodiadau cefnogol.

2.141 Mae Athrofa Cymru ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith yn canolbwyntio ar ddysgu seiliedig ar waith ac arfer proffesiynol ar sail y Fframwaith Arfer Proffesiynol, sef maes lle cydnabyddir bod gan y Brifysgol arbenigedd penodol. Mae'r fframwaith yn cynnwys trefniadau ar gyfer achredu rhaglenni datblygiad staff y cyflogwyr, cydnabod dysgu blaenorol drwy brofiad, a darparu ystod o fodiwlau sy'n arwain at gymhwyster academiaidd mewn arfer proffesiynol. Mae'r rheoliadau sy'n llywio'r fframwaith wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

2.142 Gyda'i gilydd, mae'r fframweithiau yma'n galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni mewn theori. Profodd y tîm adolygu weithrediad y polisïau a'r gweithdrefnau i lywio'r ffordd y mae'r Brifysgol yn rheoli ei darpariaeth gydag eraill drwy gwrdd â staff a myfyrwyr, o fewn y Brifysgol ac o ddwy o'i phartneriaethau; a thrwy ddarllen gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer partneriaethau cydweithredol a dysgu yn y gweithle; cofnodion y Senedd, y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, y Pwyllgor Partneriaethau Cydweithredol, y Pwyllgor Graddau Ymchwil, a'r Byrddau Cyfadran; dogfennau ac adroddiadau yn ymwneud â chymeradwyo ac adolygu nifer o bartneriaethau a rhaglenni yn y DU a thramor; ac adroddiadau'r arholwyr allanol.

2.143 Mae sawl cam i ddull y Brifysgol o gymeradwyo partneriaethau a'r rhaglenni cysylltiedig. Ystyrir agweddau ariannol a busnes darpar-bartner ar wahân i rinweddau academiaidd partneriaeth newydd bosibl. Mae angen i bartneriaid newydd gael asesiad risg ac, ar ôl eu cymeradwyo'n gychwynnol, ceir proses diwydrwydd dyladwy ag iddi bedair rhan. I bartneriaethau sy'n bodoli'n barod, gwneir gwiriad bod eu gwybodaeth diwydrwydd dyladwy yn dal i fod yn ddilys drwy ddilyn proses o Adolygiad Interim a phroses o Adolygiad Partneriaeth. Os yw canfyddiadau'r broses diwydrwydd dyladwy'n foddhaol, cychwynnir y broses o gymeradwyo partneriaethau; mae hon wedi'i seilio ar ymweliad â'r darpar sefydliad partner gan banel a benodir gan y Pwyllgor

Partneriaethau Cydweithredol ar ran y Senedd. Disgrifir y trefniadau ar gyfer Adolygiad Partneriaeth, a gynhelir bob pum mlynedd o leiaf, yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Cynhelir yr Adolygiad Interim ar ôl naill ai un neu ddwy flynedd lle mae partner newydd yn darparu rhaglenni ar y cyd gyda'r Brifysgol am y tro cyntaf erioed. Mae adroddiadau'r broses o gymeradwyo ac adolygu partneriaethau'n dangos bod y broses yn gadarn gyda chynrychiolaeth allanol briodol; derbynnir yr adroddiadau yn y Pwyllgor Partneriaethau Cydweithredol a'u cymeradwyo drwy'r Senedd.

2.144 Un o nodweddion allweddol dull y Brifysgol o reoli ddarpariaeth gydweithredol yw gwahaniaethu rhwng y broses o gymeradwyo sefydliadau partner a'r broses o gymeradwyo rhaglenni. Gwneir y gwaith o gymeradwyo a dilysu yn unol â'r gofynion sydd wedi eu nodi ar gyfer rhaglenni ar y campws a chânt eu hategu fel y bo'n briodol; o ran y ddarpariaeth gydweithredol, mae'r dilysiad yn cynnwys digwyddiad panel fel arfer gydag allanoldeb priodol, a gynhelir yn y sefydliad partner (gwelwch Ddisgwyliad B1 hefyd). Cymeradwyir curricula vitae staff y partneriaid sy'n addysgu ar raglenni'r Brifysgol wrth wneud y gwaith dilysu ac, wedi hynny, hysbysir y Brifysgol am unrhyw newidiadau i'r staffio. Cadarnhaodd staff o'r sefydliadau partner eu bod yn ymwybodol o'r gofynion ar gyfer cymeradwyo a dilysu rhaglenni ac roeddent wedi cymryd rhan mewn prosesau dilysu cadarn. Mae cofnodion y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd yn dangos y gwaith o ystyried a chymeradwyo adroddiadau'r digwyddiadau hyn yn glir.

2.145 Nodir cyfrifoldebau'r Brifysgol a'r partneriaid yn glir mewn Memorandwm Cytundeb, a lunnir ar sail templed safonol ar ôl cwblhau'r broses gymeradwyo partneriaeth; cânt eu llofnodi gan yr Is-Ganghellor neu Gadeirydd y Cyngor, a'r partner. Mae templed ar wahân ar gyfer trefniadau trosglwyddo. Mae Memoranda Cytundeb yn cynnwys Protocol o Gyfrifoldebau Partneriaeth sy'n nodi disgwyliadau'r Brifysgol, gan gynnwys mewn perthynas â derbyn myfyrwyr, monitro ac adolygu, asesu, arholi allanol a llais y myfyrwyr. (Gwelwch hefyd Ddisgwyliadau B1, B5, B6, B7 a B8.) Mae gan y Brifysgol ddisgwyliad safonol bod y sefydliad partner yn gyfrifol am dderbyn a chofrestru myfyrwyr (gwelwch Ddisgwyliad B2 hefyd). Mae oes benodol gan bob cytundeb a chânt eu hadolygu'n ffurfiol ar gyfnodau penodol. Cadarnhaodd y partneriaid eu bod yn gwybod yn glir am eu cyfrifoldebau ac roeddent yn ystyried y Memorandwm Cytundeb yn ddogfen allweddol yn y cyswllt hwn.

2.146 Mae trefniadau arholi allanol ar gyfer partneriaethau cydweithredol yn dilyn y rheiny ar gyfer rhaglenni ar y campws (gwelwch Ddisgwyliad B7). Lle cynigir rhaglenni mewn mwy nag un lleoliad, penodir yr un arholwr allanol, lle bo'n bosibl. Yn y flwyddyn academaidd 2013-14, diwygiodd y Brifysgol ei thempled ar gyfer adroddiadau arholwyr allanol i gynnwys adran ar wahân i'w llenwi lle cynigir rhaglenni mewn nifer o leoliadau ac/neu mewn sefydliad partner. Nododd y Brifysgol bod mwyafrif yr arholwyr allanol yn cwblhau'r adran ychwanegol hon lle bo'n berthnasol, ond bod nifer o'r arholwyr allanol mwy hirsefydlog heb wneud hynny. Mae hwn yn fater y mae'r Brifysgol yn ymdrin ag o mewn perthynas â'r adroddiadau ar gyfer 2015. Ar ôl derbyn adroddiadau arholwyr allanol, mae'r Pennaeth Partneriaethau Cydweithredol yn ysgrifennu adroddiad trosolwg a adolygir gan bwyllgorau uwch; ymysg y materion a godwyd yn yr adroddiad trosolwg ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013-14 oedd methiant un o'r arholwyr allanol i gyflwyno adroddiad a'r ffaith fod arholwyr allanol eraill heb gyfeirio'n eglur at y ddarpariaeth mewn sefydliadau partner neu eu bod wedi lleisio pryderon ynglŷn â chysondeb y prosesau o farcio a safoni. Mae'r tîm adolygu wedi argymhell bod angen cryfhau'r trefniadau adrodd ar gyfer arholi allanol i sicrhau goruchwyllo mwy effeithiol dros y ddarpariaeth gydweithredol (gwelwch Ddisgwyliad B7).

2.147 Mae'r rhaglenni cydweithredol yn cael eu monitro gan y Brifysgol yn unol â'i threfniadau ar gyfer yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni sy'n cael eu hategu gan ofynion ychwanegol a nodir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Disgwyliar i sefydliadau partner naill ai gynhyrchu eu hadroddiadau Adolygiad Blynyddol o Raglenni eu hunain neu gyfrannu at werthusiad y Brifysgol ei hun o'r rhaglen berthnasol/rhaglenni perthnasol; cadarnhaodd y partneriaid a gyfarfu â'r tîm eu cyfraniad i'r prosesau hyn. O'r flwyddyn academaidd 2014-15 ymlaen mae gofyn hefyd i sefydliadau partner gyflwyno adroddiad trosolwg ar sail templed safonol; ar amser yr adolygiad,

roedd hi'n rhy fuan i roi sylw am effeithiolrwydd y dull yma. Yn debyg i ddarpariaeth ar y campws, cynhelir yr Adolygiad Mawr o raglenni bob pum mlynedd o leiaf (gwelwch Ddisgwyliad B8 hefyd). Mae gan y Brifysgol brofiad sylweddol o derfynu partneriaethau ac mae ganddi weithdrefnau cadarn ar waith; ychwanegiad diweddar yw datblygiad strategaeth ymadael ar gyfer cytundebau trosglwyddo, a ddatblygwyd i'w chynnwys yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd o'r flwyddyn academaidd 2015-16 ymlaen.

2.148 Mae'r Brifysgol yn cadw'r unig awdurdod am gyflwyno tystysgrifau a thrawsgrifiadau sy'n ymwneud â rhaglenni cydweithredol. Mae'r tystysgrifau cyfredol yn nodi bod gwybodaeth am iaith a lleoliad yr astudio i'w chael ar y trawsgrifiad. Mae'r trawsgrifiad yn cynnwys enw'r sefydliad partner a'r iaith astudio. Ar gyfer dyfarniadau a gyhoeddwyd o'r flwyddyn academaidd 2014-15 ymlaen, bydd enw'r sefydliad partner wedi'i gynnwys ar y dystysgrif.

2.149 Cydlynir y cyfathrebu gyda phartneriaid ar lefel sefydliadol gan dîm bychan yn y Swyddfa Academaidd, dan arweiniad y Pennaeth Partneriaethau Cydweithredol; cafwyd y digwyddiad briffio blynyddol cyntaf i sefydliadau partner ym mis Rhagfyr 2014. Mae gan bob partneriaeth gydweithredol Gydlynnydd Partneriaeth a benodir gan y Senedd i oruchwylio gweithrediad esmwyth pob agwedd o'r bartneriaeth. Mae Arweinwyr Timau Partneriaeth yn cymryd rôl fwy gweithrediadol ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod safonau'n gyson â lefel y dyfarniad arfaethedig, ac am helpu i gynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth gydweithredol. Mae Arweinwyr Timau Partneriaeth yn cael amrywiaeth o swyddogaethau datblygu, monitro ac asesu; darperir hyfforddiant i staff sy'n gwneud y rolau yma. Disgwylir i'r Arweinwyr Timau Partneriaeth gysylltu'n rheolaidd â'r partneriaid, ac maent yn ymweld â phob partner o leiaf ddwywaith y flwyddyn fel arfer. Mae'r Arweinwyr Timau Partneriaeth yn cyflwyno adroddiadau ffurfiol i'r Pwyllgor Partneriaethau Cydweithredol a'r gyfadrannau berthnasol, sy'n cyfrannu ymhellach at oruchwylio'r trefniadau cydweithredol. Siaradodd staff y partneriaid yn ganmoladwy am y cyfathrebu a'r gefnogaeth barhaus y maent yn ei derbyn gan y Brifysgol ac yn arbennig drwy rolau'r Cydlynwyr Partneriaeth a'r Arweinwyr Timau Partneriaeth. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y ffordd y mae'r Brifysgol yn ymgysylltu â'i phartneriaid cydweithredol drwy rolau'r Cydlynwyr Partneriaeth a'r Arweinwyr Timau Partneriaeth yn **arfer da**. Darperir ystod o gyfleoedd datblygiad staff i sefydliadau partner hefyd.

2.150 Mae nifer o raglenni'r Brifysgol yn cynnwys cyfleoedd lleoliad gwaith neu ddulliau eraill o ddysgu seiliedig ar waith; mae cyfleoedd i wirfoddoli ar gael hefyd. Rheolir rhai cyfleoedd lleoliad gwaith, megis y rheiny sy'n ymwneud â hyfforddiant cychwynnol athrawon, yn unol â gofynion y corff PSRB perthnasol. Rheolir mathau eraill o leoliad gwaith yn unol â Phrotocol cynhwysfawr y Lleoliad ynghyd â'i atodiadau cefnogol, fel y maent wedi eu nodi yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae'r cyfadrannau'n gyfrifol am gadw cofnodion o leoliadau gwaith ac mae swyddogion lleoliad yn sicrhau y glynir at y gweithdrefnau'n briodol. Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi archwilio gweithgareddau lleoliadau ar draws y Brifysgol; disgwylir i ganfyddiadau'r archwiliad hwn fwydo adolygiadau dilynol Protocol y Lleoliad. Cytunwyd hefyd fod cylchoedd gwaith y Pwyllgor Polisi Academaidd a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd yn cael eu haddasu i gyfeirio at y cyfrifoldebau am bolisi lleoliadau a goruchwyliaeth lleoliadau, yn y drefn honno. Soniodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm am brofiadau amrywiol o ran dysgu seiliedig ar waith a gweithgareddau lleoliad, ond lle'r oeddent wedi gwneud y rhain, roedd eu barn am y profiad yn gadarnhaol ar y cyfan.

2.151 Yn rhan o'i hymrwymiad i ryngwladoli, mae'r Brifysgol yn cynnig ystod o gyfleoedd astudio dramor cilyddol, drwy ERASMUS yn Ewrop a gyda nifer fechan o sefydliadau yn Asia a Gogledd America. Ystyrir ceisiadau ar sail unigol, a rheolir a chydlynir y trefniadau gan y Swyddfa Ryngwladol. Derbynnir marciau a enillwyd yn ystod cyfnod o astudio dramor dim ond lle cânt eu cymeradwyo'n benodol wrth ddilysu; ymhob achos arall, adolygir y gwaith pan fo'r myfyriwr yn dychwelyd i'r Brifysgol. Ar hyn o bryd, dim ond nifer fechan o fyfyrwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn; roedd y myfyrwyr oedd wedi cymryd y cyfle i astudio dramor yn bositif ynghylch eu profiadau.

2.152 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol brosesau cynhwysfawr ar gyfer rheoli darpariaeth gydag eraill bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar draws y sefydliad. Siaradodd y partneriaid mewn ffordd gadarnhaol am y berthynas gyda'r Brifysgol a'r gefnogaeth a gawsent. Mae mecanweithiau priodol ar waith i reoli cyfleoedd lleoliad i fyfyrwyr. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B11): Dyfernir graddau ymchwil mewn amgylchedd ymchwil sy'n darparu safonau academiaidd cadarn i wneud gwaith ymchwil a dysgu am agweddau, dulliau, trefnau a phrotocolau ymchwilio. Mae'r amgylchedd hwn yn cynnig y cyfleoedd a'r gefnogaeth o safon uchel i fyfyrwyr y maent eu hangen i sicrhau canlyniadau academiaidd, personol a phroffesiynol llwyddiannus yn eu graddau ymchwil.

Cod Ansawdd, Pennod B11: Graddau Ymchwil

Y canfyddiadau

2.153 Ar amser yr adolygiad, roedd ychydig dros 220 o fyfyrwyr ymchwil wedi'u cofrestru gyda'r Brifysgol. O gymharu â'r sector, roedd cyfrannau gweddol uchel ohonynt yn fyfyrwyr rhan amser ac yn fyfyrwyr dysgu o bell, neu'n aelodau o'r staff academiaidd oedd wedi'u cofrestru ar gyfer graddau ymchwil. Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2013-14, roedd 77 y cant o'r rheiny a gofrestrodd yn fyfyrwyr dysgu o bell, roedd 47 y cant yn byw fel arfer y tu allan i'r DU neu'r Iwerddon, ac roedd oddeutu 20 y cant ohonynt yn aelodau o'r staff. Mae poblogaeth y myfyrwyr ymchwil wedi'i dosbarthu'n anghyson ar draws campysau'r Brifysgol, gyda'r nifer uchaf ohonynt o fewn Cyfadran y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio sydd wedi'i seilio yn y lle cyntaf ar gampws Llanbedr Pont Steffan. Cychwynnwyd darpariaeth graddau ymchwil ar gampws Llundain ym mis Hydref 2012, er nad oedd unrhyw fyfyrwyr MPhil a PhD ychwanegol yn cael eu recriwtio, a chyflwynwyd rhaglen DBA yno ym mis Chwefror 2013.

2.154 Ar amser yr adolygiad, nid oedd unrhyw fyfyrwyr wedi'u cofrestru gyda sefydliadau partner. Fodd bynnag, roedd proses o gymeradwyo partneriaeth gydweithredol a phrosesau o ddilysu a chymeradwyo rhaglenni wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ar gyfer Ysgol Celfyddydau Traddodiadol y Tywysog, ond nid oedd unrhyw fyfyrwyr wedi cael eu recriwtio eto. Mae'r Brifysgol yn cydweithredu gyda Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd (CUCC) Prifysgol Cymru i oruchwylio rhai ymgeiswyr ar y cyd, yn ogystal â chynnal digwyddiadau ymchwil a datblygiad staff ar y cyd. Mae cynrychiolwyr o PCYDDS a CUCC yn eistedd ar eu pwyllgorau graddau ymchwil ei gilydd, ac mae ganddynt gytundeb i gynnwys goruchwylio ar y cyd.

2.155 Ers ffurfio PCYDDS yn 2012, mae 40 i 50 o raddau ymchwil wedi'u dyfarnu bob blwyddyn, ac o'r rhain, roedd ychydig dros 30 yn ddyfarniadau doethuriaeth. Hyd fis Gorffennaf 2014, roedd myfyrwyr ymchwil oedd wedi'u cofrestru yn y Brifysgol yn paratoi ar gyfer dyfarniadau Prifysgol Cymru. Ers Gorffennaf 2014, mae'r Brifysgol wedi arfer ei phwerau dyfarnu graddau ymchwil ei hun. Cafodd yr holl fyfyrwyr oedd wedi'u cofrestru bryd hynny yr opsiwn o barhau er mwyn gwneud dyfarniad Prifysgol Cymru neu ddyfarniad PCYDDS. Dewisodd 22 ohonynt barhau gyda Phrifysgol Cymru ac roedd 10 wedi cyflwyno eu traethodau i'w arholi.

2.156 Ers 2010, mae'r Brifysgol wedi sefydlu un gyfres gyffredin o reoliadau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli graddau ymchwil, ac ar gyfer goruchwylio a chefnogi myfyrwyr, sy'n cymryd lle'r systemau ar wahân a etifeddwyd gan y sefydliadau cyfun, sef Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, a Choleg Prifysgol y Drindod, a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe. Mae'r datblygiadau hyn wedi cynnwys nid yn unig newidiadau mewn rheoliadau, ac mewn systemau rheoli data, gweinyddu a llywodraethu, ond hefyd gyflwyno prosesau cyffredin ar gyfer derbyn, ymsefydlu, hyfforddi, goruchwylio ac arholi myfyrwyr ar draws saith campws. Un elfen arwyddocaol o'r newidiadau fu'r angen i hysbysu a chefnogi staff, oedd wedi arfer gydag amrywiol weithdrefnau a diwylliannau'r sefydliadau gwreiddiol, wrth iddynt addasu i'r trefniadau cyffredin newydd.

2.157 Mae gan y Brifysgol gyfres gyffredin o reoliadau a chod ymarfer i lywio'r prosesau ar gyfer derbyn, goruchwylio, hyfforddi, monitro ac arholi ei myfyrwyr ymchwil sy'n gadael iddi gydymffurfio mewn egwyddor â'r Disgwyliad ym *Mhennod B11: Graddau Ymchwil*.

2.158 Adolygodd y tîm y rheoliadau a'r dogfennau sy'n disgrifio'r polisïau a'r prosesau yn ymwneud â derbyn a goruchwyllo myfyrwyr, cynnydd myfyrwyr, hyfforddiant ymchwil, cyflwyno traethodau, arholwyr ac arholiadau, cynrychiolaeth myfyrwyr ac apeliadau academaidd. Darllenodd y tîm gofnodion a phapurau diweddar y pwyllgorau sy'n gyfrifol am fyfyrwyr ymchwil. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm â sampl o'r myfyrwyr ymchwil sydd wedi'u cofrestru yn y Brifysgol, yn ogystal â'r staff academaidd a gweinyddol sy'n gyfrifol am eu cefnogi.

2.159 Y Pwyllgor Graddau Ymchwil sy'n goruchwyllo'r gweithdrefnau'n fanwl ar gyfer goruchwyllo a hyfforddi myfyrwyr ymchwil a monitro eu cynnydd gan adrodd i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol ac i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Roedd y dogfennau a welwyd gan y tîm adolygu'n dangos mor ofalus yr oedd y Pwyllgor Graddau Ymchwil wrth adolygu cynnydd pob myfyriwr bob blwyddyn. O fewn y cyfadrannau, mae'r trefnau rheoli darpariaeth yn amrywio yn dibynnu ar nifer y myfyrwyr. Mae rhai cyfadrannau sy'n derbyn llawer o fyfyrwyr yn penodi Cyfarwyddwr Graddau Ymchwil i bob ysgol, er bod gan gyfadrannau eraill sy'n derbyn nifer llai o fyfyrwyr, un Cyfarwyddwr Graddau Ymchwil Cyfadran canolog. Mae goruchwylwyr yn adrodd i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn anuniongyrchol drwy Gyfarwyddwr Ymchwil eu cyfadran, ac maent yn rhoi adborth drwy'r broses adolygiad blynyddol ac ar bwyntiau cynnydd allweddol eraill.

2.160 Mae'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig yn cefnogi gweithrediad y Pwyllgor Graddau Ymchwil, a'r gwaith o weinyddu'r ddarpariaeth yn uwch na lefel y cyfadrannau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer asesu myfyrwyr ymchwil, sicrhau ansawdd a rheoli data. Mae ei staff, yn gyffredin â'r mwyafrif o staff gwasanaethau proffesiynol, yn gweithio ar draws y campysau i gyd. Yn 2014, gwnaeth y Brifysgol archwiliad o'r ddarpariaeth hyfforddiant mewn sgiliau i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar lefel ganolog, ac ar lefelau cyfadran ac ysgol, ac hefyd o'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cael eu cefnogi a'u hintegreiddio i amgylchedd a diwylliant ymchwil y Brifysgol. Roedd yr adroddiad wedi argymhell creu Ysgol i Raddedigion i reoli'r swyddogaethau hyn y byddai'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig wedi'u hintegreiddio i mewn iddynt. Cynlluniodd y Brifysgol sefydlu'r Ysgol i Raddedigion yn ystod y flwyddyn academaidd 2015-16.

2.161 Cadarnhaodd y myfyrwyr, a'r staff sy'n cymryd rhan yn eu goruchwylloeth, a gyfarfu'r tîm bod y fframwaith o reoliadau, arweiniad a chymorth yn glir ac yn gynhwysfawr. Dyma'r rhai a ddatblygwyd gan y Brifysgol ar ffurf y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, y Cod Ymarfer, y llawlyfrau i oruchwylwyr ac i fyfyrwyr, y gweithdrefnau ar gyfer derbyn ac ymsefydlu myfyrwyr, sesiynau hyfforddi staff, a swyddogaethau gweinyddol y Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig.

2.162 Mae'r Brifysgol wedi cydnabod yr her o gynnwys y gyfran gweddol fawr o fyfyrwyr sy'n astudio o bell yn y diwylliant ymchwil. Trefnir rhaglen hyfforddiant ymchwil ar draws y Brifysgol. Mae'r ysgolion yn ceisio sicrhau bod ganddynt amgylchedd ymchwil cynhwysol drwy recordio eu seminarau ymchwil a sicrhau eu bod ar gael drwy'r rhith-amgylchedd dysgu. Yn yr un modd, lle bo'n bosibl, mae'r holl sesiynau hyfforddiant ymchwil yn cael eu recordio a chânt eu dosbarthu i'r myfyrwyr allanol drwy'r rhith-amgylchedd dysgu. Cefnogir myfyrwyr ymchwil gan eu cyfadrannau i fynychu cynadleddau, a digwyddiadau a gweithgareddau eraill, sy'n ymwneud ag ymchwil. Esbonnir cyfleoedd i gymryd rhan yn yr amgylchedd ymchwil yn ystod y broses ymsefydlu. Mae'r myfyrwyr PhD ar gampws Llundain yn cyfarfod bob mis fel carfan ar gyfer hyfforddi mewn sgiliau ymchwil a chyflwyno papurau ymchwil.

2.163 Un rhan arwyddocaol o brofiad y myfyrwyr ymchwil yw'r ysgol haf i raddedigion a gynhelir ar gampws Llanbedr Pont Steffan ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Yn rhan o'r rhaglen sy'n para wythnos, mae'r myfyrwyr yn derbyn hyfforddiant mewn sgiliau ymchwil hanfodol, ac maent yn rhoi papurau i'w cymheiriaid. Mae'r ysgol haf hefyd yn rhoi cyfle i nifer o fyfyrwyr allanol gael sesiynau tiwtorial dwys gyda'u goruchwylwyr. Mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr sy'n dod i hwn yn fyfyrwyr sy'n agos at ddechrau eu gweithgareddau ymchwil ac maent wedi cynnwys myfyrwyr o gampysau Llundain ac Abertawe.

2.164 Ar amser yr adolygiad, roedd wyth cynorthwydd addysgu ôl-raddedig yn cymryd rhan mewn addysgu ac roeddent oll wedi cofrestru mewn rhaglen hyfforddiant ffurfiol sy'n cynnwys cwblhau modiwl y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch a achredir gan yr AAU.

2.165 Rheolir y broses o oruchwylio a monitro myfyrwyr gan y Cod Ymarfer, ac mae'r disgwyliadau wedi eu hesbonio'n glir yn y llawlyfrau i oruchwylwyr ac i fyfyrwyr ymchwil. Dyrennir tîm goruchwylio o staff hyfforddedig i'r myfyrwyr i gyd, a chynhelir cyfarfodydd gyda goruchwylwyr unwaith y mis yn gyffredinol. Mae rhai myfyrwyr yn teithio pellteroedd sylweddol i fynd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb bob mis; mae gan eraill nifer o gyfarfodydd goruchwylio drwy ddulliau electronig ac yna maent yn dod i'r Brifysgol nifer o weithiau'r flwyddyn i gael cyfnodau o astudio dwys neu i fynd i'r ysgol haf flynyddol i raddedigion ymchwil bob blwyddyn. Gall y myfyrwyr ddewis cynnal rhai o'u cyfarfodydd drwy gyswllt fideo ar-lein os oes ganddynt ymrwymadau eraill.

2.166 Rheolir y broses o asesu myfyrwyr ymchwil gan y Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig, ac mae'n cynnwys o leiaf un arholwr allanol. Mae'r meini prawf wedi'u seilio ar ddisgrifwyr lefel y FfCChC, ac mae rheoliadau a chanllawiau cynhwysfawr i arholwyr a myfyrwyr wedi'u nodi yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, y Cod Ymarfer ac yn y llawlyfrau i fyfyrwyr ac i oruchwylwyr.

2.167 Mae'r tîm adolygu'n ystyried yr ystod gynhwysfawr o gymorth academaidd a bugeiliol a ddarperir i'r myfyrwyr i gyd yn **arfer da**. (Gwelwch Ddisgwyliadau B3 a B4.) Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod darpariaeth a rheolaeth y Brifysgol mewn perthynas â graddau ymchwil yn cyflawni'r Disgwyliad, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

2.168 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd y cyfleoedd dysgu, bu'r tîm adolygu'n ystyried amrediad arwyddocaol o ddogfennau'r Brifysgol a chyfarfu â myfyrwyr a staff o'r Brifysgol ac o ddetholiad o'i phartneriaid cydweithredol.

2.169 Nododd y tîm adolygu nifer o esiamplau o arfer da: yr ystod gynhwysfawr o gymorth academiaidd a bugeiliol a ddarperir i'r myfyrwyr i gyd, y defnydd a wneir o system ryngweithiol ar-lein i gasglu adborth gan fyfyrwyr ac i weithredu ar yr adborth hwnnw, y ffordd y mae'r Brifysgol yn ymgysylltu â'i phartneriaid cydweithredol drwy rolau'r cydlynwyr partneriaeth a'r arweinwyr timau partneriaeth.

2.170 Mae pob un o'r Disgwyliadau yn y maes yma wedi'u cyflawni, ac mae lefelau'r risgiau cysylltiedig mewn 10 allan o'r 11 Disgwyliad yn isel. Mae'r heriau y mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi'u hwynebu wrth lunio a gweithredu system effeithiol o gynrychiolaeth myfyrwyr i'r sefydliad cyfun yn cael sylw gan yr Adran Profiad Myfyrwyr sydd newydd ei sefydlu, ac mae'r tîm adolygu wedi cadarnhau gwaith yr adran yma o ran cefnogi Undeb y Myfyrwyr i gryfhau'r oruchwyliaeth ar system gynrychiolaeth y myfyrwyr, a'r hyfforddiant i gynrychiolwyr myfyrwyr.

2.171 Mewn un maes, ystyrir bod lefelau'r risgiau cysylltiedig yn ganolig. Mae'r tîm adolygu wedi gwneud nifer o argymhellion yn ymwneud ag asesiadau: i gryfhau prosesau'r Brifysgol gan gynnwys egluro agweddau o'r trefniadau mewn perthynas â byrddau arholi, i fabwysiadu dull gweithredu cyson o sicrhau bod y myfyrwyr i gyd yn derbyn meini prawf graddio clir, i sicrhau bod adborth o asesiadau'n cael ei ddarparu yn unol â gofynion y Brifysgol, ac i gryfhau'r rheolaeth a'r oruchwyliaeth ar brosesau arholi allanol mewn darpariaeth gydweithredol.

2.172 Mae'r tîm adolygu hefyd yn **cadarnhau**'r gwaith sy'n digwydd yn barod: i roi gwybod i'r myfyrwyr am y camau a gymerwyd i ymateb i'w hadborth, i sicrhau dealltwriaeth gyffredin drwy'r Brifysgol gyfan mewn perthynas â'r drefn newydd ar gyfer ymdrin ag amgylchiadau esgusodol, ac i sicrhau bod adroddiadau arholwyr allanol ar gael i'r myfyrwyr ar y porth myfyrwyr.

2.173 Yn gyffredinol, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu

Disgwyliad (C): Mae darparwyr addysg uwch y DU yn cynhyrchu gwybodaeth i'w cynulleidfaoedd targed am yr addysg uwch y maent yn ei chynnig sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

Cod Ansawdd, Rhan C: Gwybodaeth am Ddarpariaeth Addysg Uwch

Y canfyddiadau

3.1 Gwefan y Brifysgol yw'r prif fecanwaith ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r holl randdeiliaid. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth glir am genhadaeth a gwerthoedd, strategaethau a pholisïau, ynghyd â holl agweddau darpariaeth y Brifysgol. Yr Adran Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg sy'n datblygu ac yn cynnal y wefan. Bydd Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu newydd ar waith ar gyfer 2015. Roedd wedi'i datblygu'n barod ar amser yr adolygiad, ond roedd hi'n rhy fuan i'r tîm werthuso effeithiolrwydd y strategaeth hon.

3.2 Archwiliodd y tîm adolygu ddull y Brifysgol o ddarparu gwybodaeth drwy ystyried amrywiaeth o ddogfennau sydd ar gael i randdeiliaid mewnol ac allanol megis nifer o brospectysau amrywiol sefydliadau partner, canllawiau i fyfyrwyr, llawlyfrau, polisïau sicrhau ansawdd, cofnodion pwyllgorau, a rheoliadau. Cyfarfu'r tîm adolygu â myfyrwyr a staff o bob rhan o'r sefydliad i asesu dibynadwyedd ac ymwybyddiaeth am y broses hon.

3.3 Mae'r Brifysgol yn ystyried pwyntiau cyfeirio allanol ac arweiniad mewn perthynas â chynhyrchu gwybodaeth, yn ogystal â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg. Darperir gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel y bo'n briodol.

3.4 Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am ofynion mynediad, ymgeisio a derbyniad i'r Brifysgol ar gyfer cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig. Darperir gwybodaeth ychwanegol i fyfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr rhan amser a myfyrwyr dysgu o bell. Hefyd, cyhoeddir gwybodaeth yn ymwneud â ffioedd ar y wefan, ynghyd â gwybodaeth am ysgoloriaethau a bwrsariau, a datganiad ar ddull y Brifysgol o gydnabod dysgu blaenorol.

3.5 Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am Gynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Cynllun Strategol yn nodi ymrwymiad y Brifysgol i Gymru, yn nhermau ei pherthynas agos â chyflogwyr a chymunedau, ac yn nhermau ei rôl fel darparwyr o bwys ym maes addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r Brifysgol yn weithgar o ran cyfrannu at ddatblygu adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg ac mae ganddi ei thŷ cyhoeddi ei hun, Canolfan Peniarth. Mae pencadlys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yng Nghanolfan Fenter Ddiwylliannol y Brifysgol yng Nghaerfyrddin ac mae'r Brifysgol wedi'i chynrychioli ar bwyllgorau mawr y Coleg. Mae hybu'r iaith Gymraeg yn broses barhaus, yn arbennig ar y campysau yn Abertawe lle mae ei defnydd yn llai amlwg. Mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithio tuag at ddod yn llofnodwr i'r *Siarter Iaith Gymraeg ar gyfer Undebau Myfyrwyr Prifysgolion Cymru*, a ddatblygwyd gan UCM Cymru.

3.6 Gall darpar fyfyrwyr ddod o hyd i wybodaeth am y broses ymgeisio yn y prospectws ac hefyd ar-lein. Mae'r wybodaeth i fyfyrwyr rhyngwladol yn cynnwys gofynion ynglŷn â mewnfudo a fisa ac mae arweiniad ymroddedig.

3.7 Mae'r holl fyfyrwyr a addysgir yn derbyn Llawlyfr Rhaglen Astudio sydd wedi'i llunio o dempled safonol. Darperir gwybodaeth benodol i raglenni mewn fformat safonol ar y wefan sy'n dangos yn amlwg ffeithiau allweddol am bob un o'r rhaglenni astudio, gan gynnwys natur y cwricwlwm, dulliau asesu a chyfleoedd gyrfao.

3.8 Mae staff marchnata a chyfathrebu'n cynhyrchu'r mwyafrif o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd; ond, cynhyrchir gwybodaeth benodol am ysgolion a champysau yn lleol er mwyn helpu myfyrwyr i gael gwell dealltwriaeth o'r math o brofiad dysgu arbennig y maent yn debygol o'i gael. Mae gofyn i benaethiaid ysgol a rheolwyr uned gymeradwyo'r wybodaeth cyn i gyhoeddiadau gael eu cymeradwyo ar lefel uwch. Mae gan gyfarwyddwyr rhaglen, ynghyd â phennaeth yr ysgol, gyfrifoldeb am sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir. Cymeradwyir prospectysau ar lefel yr uwch gyfarwyddiaeth. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod yr wybodaeth a ddarperir yn gywir.

3.9 Mae'r myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth amrywiol mewn print ac ar-lein i gefnogi eu hymsefydliad a'u hastudiaethau. Mae'r disgwyliadau cyffredinol wedi'u disgrifio yn Siarter y Myfyrwyr. Mae'r myfyrwyr i gyd yn derbyn Llawlyfr Rhaglen Astudio, wedi'i gynhyrchu ar sail templed safonol a'i atodi lle bo'n briodol gyda chanllawiau modiwl a gwybodaeth eang a ddarperir drwy'r amgylchedd dysgu. Mae'r myfyrwyr gradd ymchwil yn derbyn Canllaw i Fyfyrrwyr Ymchwil a ddarperir gan y Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig. Mae ystod eang o wybodaeth ar gael i fyfyrwyr ar gampws Llundain, gan gynnwys llawlyfr penodol i fyfyrwyr. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod yr holl ddeunydd a dderbyniwyd ganddynt yn fanwl gywir.

3.10 Mae cyfres ar-lein o ganllawiau i fyfyrwyr am y rheoliadau academiaidd a'u diben yw cynnig crynodeb hawdd ei ddarllen i fyfyrwyr o adrannau perthnasol y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd, gan gynnwys yr adrannau hynny sy'n ymwneud â chwynion ac apeliadau. Canfu'r tîm adolygu rywfaint o ddriswch ymhlith y staff a'r myfyrwyr ynglŷn â phroses y Panel Amgylchiadau Esgusodol. Ond, mae'r Brifysgol yn gweithredu mesurau i sicrhau cysondeb dulliau ar draws yr holl safleoedd ac mae'r tîm adolygu'n cadarnhau'r agwedd yma (gwelwch Ddisgwyliad B6).

3.11 Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a gynhyrchwyd gan adrannau canolog ar y we erbyn hyn, gan sicrhau bod modd cael gafael arno'n hawdd ar draws y campysau ac yn allanol.

3.12 Ar ôl cwblhau eu rhaglenni astudio, mae'r myfyrwyr yn derbyn trawsgrifiad sy'n nodi'r modiwlau y maent wedi'u hastudio a'r credydau a gyflawnwyd; lle maent wedi cyflawni dyfarniad, darperir tystysgrif hefyd. Mae tystysgrifau'n ddwyieithog ac mae geiriad y trawsgrifiadau'n adlewyrchu'r iaith astudio.

3.13 Mae'r Gofrestr o Bartneriaethau Cydweithredol wedi'i chyhoeddi ar y wefan hefyd a goruchwylir hon gan y Pennaeth Partneriaethau Cydweithredol. Mae Memoranda Cytundeb, sy'n ymwneud â phartneriaethau cwricwlwm a rennir, cwricwlwm cyffredin a chwricwlwm a ddatblygir ar y cyd, yn nodi'n eglur mai gan y Brifysgol mae'r cyfrifoldeb am gywirdeb yr holl wybodaeth gyhoeddus, cyhoeddusrwydd a gweithgareddau hyrwyddo sy'n ymwneud â'i darpariaeth gydweithredol, y mae'r trefniadau gweithredol ar ei chyfer i'w cael yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd. Rhoddir rhagor o arweiniad yn y Llawlyfr Gweithrediadau Partneriaid Cydweithredol. I fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliad partner, disgwylir i lawlyfrau rhaglenni astudio gynnwys o leiaf yr wybodaeth sydd yn nhempled llawlyfr y Brifysgol ei hun, sy'n cynnwys testun safonol yn ymwneud â materion megis cwynion ac apeliadau, wedi'u gosod yn eu cyd-destun fel y bo'n briodol i'r sefydliad partner. I sicrhau bod y prosesau hyn yn gweithio fel y bwriadwyd, gofynnir i Arweinwyr Timau Rhaglen gasglu esiamplau o ddeunyddiau hyrwyddo ar eu hymweliadau rheolaidd ac maent hefyd yn gyfrifol am wirio cywirdeb yr wybodaeth am raglenni a ddarperir i ymgeiswyr a myfyrwyr (gwelwch Ddisgwyliad B10 hefyd).

3.14 Ar lefel sefydliadol, cyd-gysylltir cyfathrebu gyda phartneriaid drwy dîm bychan o fewn y Swyddfa Academiaidd, dan arweiniad y Pennaeth Partneriaethau Cydweithredol. Mae ystod o welliannau ar waith, gan gynnwys y Llawlyfr Gweithrediadau Partneriaid Cydweithredol a chynhyrchu taflen newyddion.

3.15 Cafwyd y digwyddiad briffio blynyddol cyntaf i sefydliadau partner ym mis Rhagfyr 2014 ac aeth cynrychiolwyr o bob sefydliad partner bron i hon, ynghyd â staff o bob rhan o'r

Brifysgol. Mae'r datblygiadau hyn wedi cael derbyniad da iawn ac maent yn atgyfnerthu perthynas y Brifysgol gyda sefydliadau partner cyfredol a rhai newydd.

3.16 Gan y Brifysgol mae'r unig awdurdod am gyflwyno tystysgrifau a thrawsgrifiadau yn ymwneud â rhaglenni cydweithredol. Mae'r trawsgrifiad yn cynnwys enw'r sefydliad partner ac yn rhestru teitlau'r rhaglenni a'r modiwlau yn yr iaith astudio. Ar gyfer dyfarniadau a gyhoeddwyd o'r flwyddyn academaidd 2014-15 ymlaen, bydd enw'r sefydliad partner wedi'i gynnwys ar y dystysgrif.

3.17 Yn gyffredinol, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn cynhyrchu gwybodaeth am ansawdd y cyfleoedd dysgu sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy. Mae'r dull o ddarparu gwybodaeth yn drwyadl. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu: Crynodeb o'r canfyddiadau

3.18 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am gywirdeb, gonestrwydd a chyflawnrwydd yr wybodaeth gyhoeddedig, craffodd y tîm adolygu amrywiaeth o ddogfennau (rhai a gyhoeddir mewn print a thrwy gyfryngau electronig a rhai a gyhoeddir yn y Gymraeg a'r Saesneg) sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr, myfyrwyr cyfredol a chyn-fyfyrwyr ac i randdeiliaid eraill. Roedd y tîm adolygu hefyd yn ystyried yn benodol y gofyniad am y Gyfres Wybodaeth Ehangach, ac am gyhoeddi adroddiadau'r arholwyr allanol, yn ogystal â myfyrio ar weithrediad Siarter y Myfyrwyr gan y darparwr. Mae'r Brifysgol wedi disgrifio ei hymrwymyiadau i gyfathrebu yn y Gymraeg yn ei Chynllun Iaith Gymraeg, a gyhoeddwyd yn unol â *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Er ei bod yn rhoi sylw i gydymffurfiaid â gofynion statudol ynglŷn â diogelu data, darparu a sicrhau gwybodaeth bersonol, a disgwyliadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, doedd y rhain ddim yn gynwysedig yng nghylch craffu uniongyrchol yr adolygiad.

3.19 Canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol wedi ystyried gofynion ffurfiol yr agwedd hon o'r Cod Ansawdd, ac roedd wedi sicrhau ei bod hi'n bosibl dangos ei chydymffurfiaid â'r disgwyliad eang a'i hymgysylltiad â'r dangosyddion sy'n hysbysu'r Disgwyliad hwnnw.

3.20 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

Disgwyliad (Gwelliant): Cymerir camau pwrpasol ar lefel y darparwr i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.

Y canfyddiadau

4.1 Mae dull y Brifysgol o wella ansawdd wedi'i disgrifio ym Mhennod 11 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd (a gyflwynwyd yn y flwyddyn academaidd 2013-14). Mae'r Cynllun Strategol a'r Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi 2014-15/2016-17 hefyd yn amlinellu amcanion y Brifysgol o ran gwelliant. Mae'r cyntaf yn fwy ymhlyg na'r olaf. Gwelwyd fod penodi Deon newydd ar gyfer Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi yn fuan yn y flwyddyn academaidd 2014-15 yn rhoi impetws ffres i weithredu agwedd effeithiol tuag at welliant ar lefel y sefydliad. Cyflwynwyd Strategaeth ddiwygiedig i gyfarfod y Senedd ym mis Mawrth 2015 yng nghyd-destun y farn bod gan y strategaeth wreiddiol ormod o amcanion a dangosyddion perfformiad, a oedd yn anodd eu mesur. Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn canolbwyntio'n fwy realistig erbyn hyn ar dri philer yn ymwneud â chydabyddiaeth broffesiynol, datblygiad proffesiynol, ac ymchwil ac ysgoloriaeth. Mae'r seilwaith ar gyfer cefnogi mentrau gwelliant wedi'i hwyluso'n bennaf drwy'r cyfadrannau a'r Uned Cyfoethogi. Roedd y Brifysgol yn ymwybodol fod heriau'r uno wedi rhwystro cynnydd cyn y sesiwn academaidd hwn. Mae'r Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi a'r mentrau sy'n codi ohoni'n cael eu monitro yn y Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi a thrwy ymarfer yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni. Mae'r Brifysgol yn penderfynu ar ei blaenoriaethau o ran gwelliant ar sail y dystiolaeth a gesglir ar lefel ysgol/adran, lefel y gyfadran a lefel y Brifysgol. Mae'r Deon Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi'n paratoi adroddiad cryno ar gyfer cyfarfod olaf y Senedd ymhob sesiwn academaidd ac o hwnnw y cytunir ar themâu'r flwyddyn ddilynol. Sicrhawyd y tîm adolygu o effeithiolrwydd y llinellau cyfathrebu rhwng pwyllgorau ysgol, cyfadrannau a lefel Prifysgol mewn perthynas â gwelliant. Mae adroddiadau monitro blynyddol y cyfadrannau'n cynnwys adran benodol ar welliant a gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth bod trafodaethau'n digwydd o amgylch canfyddiadau cychwynnol yr adroddiadau hynny ym mhrif bwyllgorau'r Brifysgol.

4.2 Mae'r Brifysgol wedi ymgysylltu'n llawn yn y gwaith 'Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru' a gyd-gysylltir gan yr Academi Addysg Uwch. Roedd y Deon cyfredol a'r Cyn-ddeon Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi'n aelodau o'r Grŵp Llywio 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' o 2011-12/2013-14; hefyd arweiniodd y Cyn-ddeon y llinyn gwaith 'Myfyrwyr fel Partneriaid' yn ystod ei gylch cyntaf. Mae'r cyhoeddiadau 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' yn cynnwys astudiaethau achos sy'n dangos yr amrywiol fentrau a wnaed gan y sefydliadau sylfaenol ymhob un o'r llinynnau gwaith yn ystod y cylch cyntaf o themâu. Ar gyfer 'Dysgu mewn Gwaith' roedd astudiaethau achos ar gymorth i weithwyr dyslecsig a'r prosiect LATERAL i gefnogi datblygiad staff yn y gweithle; ar gyfer 'Dysgu ar gyfer Gwaith', roedd astudiaethau achos yn cynnwys asesiad amgen ar gyfer cyflogadwyedd, a nifer o brosiectau yn ymwneud â'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol; ac i 'Fyfyrwyr fel Partneriaid', roedd cyfraniadau'n amrywio o astudiaethau o fentrau cadwraeth myfyrwyr i ddatblygu cylchgrawn 'Y Myfyriwr Ymchwil'. Ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol, roedd y Brifysgol wedi dethol themâu 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' yn bwrpasol fel eu themâu gwelliant eu hunain. Hefyd, cynhaliodd y Brifysgol gynhadledd 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' fechan ym mis Hydref 2014 er mwyn lledaenu'r arferion da a ddisgrifir yn y cyflwyniadau a wnaed gan gyfranwyr i Gynhadledd 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' yr AAU yn 2014. Mae gwaith ar yr ail gylch o themâu'n digwydd ar hyn o bryd ar lefel sefydliadol, dan arweiniad Cadeirydd y Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi. Un esiampl yw'r thema 'Graddedigion Nodedig'. Gwnaeth y cyfadrannau ddadansoddiad o'r ffordd y byddai cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr yn eu rhaglenni'n datblygu amlygrwydd graddedigion.

4.3 Yn y flwyddyn academaidd 2013-14, cafodd yr Uned Cyfoethogi'r dasg o ddatblygu diwylliant gwelliant. I'r perwyl hwn, gweithiodd yr Uned gyda Datblygiad Staff i sefydlu rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y sesiwn academaidd 2014-2015 sydd wedi'i mapio yn erbyn Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU a'r themâu 'Cyfeiriadau'r Dyfodol'. Arweiniodd hyn o'r gwaith cychwynnol ar 'Cinio a Dysgu' a gweithgareddau cysylltiedig yn ystod y flwyddyn academaidd 2013-14 a daeth i ben mewn cynhadledd yn rhyngor 2. Roedd y staff yn gadarnhaol iawn am y gynhadledd dysgu ac addysgu oedd wedi digwydd ym mis Mai, gan nodi'r cyfleoedd i rannu arferion gorau a'u haddasu yn eu meysydd astudio eu hunain. Hysbyswyd y tîm adolygu am fesurau eraill i ddatblygu staff sy'n cyfrannu at welliant (gwelwch Ddisgwyliad B4).

4.4 Mae'r Brifysgol wedi dangos ei bod wedi ymgysylltu gyda Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (UKPSF). Mae'r ddogfen hunanwerthusiad, a gyflwynwyd i ASA yn rhan o'r adolygiad hwn, yn nodi wyth llwybr at Gymrodoriaeth yr AAU, y maent oll wedi'u mapio at y fframwaith. Mae cyfeiriadau ato hefyd mewn perthynas â'r asesiad. Er bod y Brifysgol yn nodi bod y nifer gyfredol o staff gydag achrediad yn is nag y byddai'n ei hoffi, mae'n cymryd camau i wella'r canran drwy gynhyrchu arweiniad syml at ofyniadau'r gwahanol lwybrau, sesiynau wedi'u seilio yn y cyfadrannau ar 'ddod yn Gymrodorion yr AAU', a gwneud y cysylltiadau rhwng y digwyddiadau datblygiad proffesiynol niferus a'r Fframwaith UKPSF yn fwy amlwg. Mewn un cyfarfod nododd y staff eu bod wedi cael mentor i'w helpu gyda'r broses ymgysio.

4.5 Un o ffocysau arbennig agenda cyfoethogi'r Brifysgol yw cynaliadwyedd. Mae Sefydliad Arfer Cynaliadwy, Arloesi ac Effeithiolrwydd Adnoddau (INSPIRE) sy'n arwain ar yr agenda hwn ac mae Strategaeth Cynaliadwyedd hefyd. Mae pob cyfadrannau wedi ysgrifennu Cynllun Cynaliadwyedd ac maent yn rhoi adroddiad am gynnydd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd. Mae'r Pwyllgor yn is-bwyllgor i'r Pwyllgor Adnoddau Canolog. Er mwyn cynnal brieff academaidd ac adnoddau, mae'r arweinydd academaidd ar gyfer Sefydliad INSPIRE yn eistedd ar y Pwyllgor Cynaliadwyedd a'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi. Mae'r mentrau yn y maes yma'n cynnwys materion amgylcheddol megis byrddau arholi di-bapur a gwaith sy'n cael ei ddarparu i arholwyr allanol yn electronig. Mae angen rhaglenni newydd i weld sut maent yn cwrdd â Strategaeth Cynaliadwyedd y Brifysgol. Ers dechrau'r flwyddyn academaidd 2014-15, mae pob disgrifydd modiwl newydd a diwygiedig wedi cynnwys adran sy'n ymwneud yn benodol â'r agenda cynaliadwyedd.

4.6 Sefydlwyd cyfleoedd interniaeth newydd mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr i fyfyrwyr wneud ymrwymadau 'Byw Un Blaned' - addewid i fod yn weithredol ar faterion cynaliadwyedd yn ystod eu profiad prifysgol. Crëwyd naw yn y flwyddyn academaidd 2013-14 ac mae saith yn y flwyddyn academaidd 2014-15.

4.7 Mae polisi a strategaethau'r Brifysgol mewn perthynas â gwelliant yn fanwl ac yn glir yn dilyn adolygiad o'r Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi. Esboniodd staff agwedd y sefydliad yn dda mewn cyfarfodydd a gallent gynnig esiamplau o welliant mewn gweithredu drwy ddatblygiadau yn y cwricwlwm a thrwy fentrau i'r Brifysgol gyfan megis y themâu 'Cyfeiriadau'r Dyfodol'. Mewn theori, mae agwedd y Brifysgol tuag at welliant yn cyflawni'r Disgwyliad.

4.8 Archwiliodd y tîm adolygu effeithiolrwydd ac effaith agwedd y Brifysgol tuag at welliant drwy ddadansoddi strategaethau (y Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi, y Strategaeth Cynaliadwyedd, y Cynllun Strategol), polisiâu a gweithdrefnau'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd, cyfarfodydd pwyllgorau a thrwy drafodaethau â staff academaidd, staff cymorth a myfyrwyr ar draws y campysau a'r sefydliadau partner.

4.9 Mae'r broses ar gyfer ystyried gwelliant ar wahanol lefelau yn y Brifysgol yn gweithio'n dda ac mae'n amlwg ei bod yn ystyriaeth allweddol ar bwyntiau pwysig yn y cylch gwaith ansawdd, megis yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni a'r Adolygiad Mawr. Fodd bynnag, er bod y staff yn ymddangos yn wybodus am themâu gwelliant a dyheadau mewn perthynas

â myfyrwyr fel dinasyddion byd-eang, cyflogadwyedd a chynaliadwyedd, roedd y myfyrwyr yn dangos llawer llai o ymwybyddiaeth.

4.10 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn cymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr drwy fentrau a arweinir gan y sefydliadau a thrwy weithgareddau lleol. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

4.11 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu fframwaith cyffredin ar gyfer gwelliant a'i gwaith monitro ac mae'n cymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr drwy fentrau a arweinir gan y sefydliad a gweithgareddau lleol. Gallai'r tîm adolygu ganfod esiamplau ar draws y sefydliad cyfun.

4.12 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

5 Sylwadau am Ryngwladoli

5.1 Mae Cynllun Strategol y Brifysgol yn ystyried datblygu addysg ryngwladol fel blaenoriaeth allweddol. Mae hyn wedi'i danategu gan Strategaeth Ryngwladol sy'n cynnwys cynllun gweithredu penodol. Cynsail canolog agwedd y sefydliad yw gostwng dibyniaeth ar arian gan y llywodraeth ac mae felly'n canolbwyntio ar weithgareddau recriwtio. Goruchwyllir y gwaith hwn gan y Pwyllgor Rhyngwladol sy'n adrodd i'r Senedd. Mae gan y Cyngor hefyd Is-bwyllgor Rhyngwladol penodol sy'n ystyried risgiau a goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau rhyngwladol.

5.2 I gefnogi darpariaeth Cynllun Gweithredu Rhyngwladol y Brifysgol crëwyd cymorth penodol i'r staff drwy benodi Deon Addysg Ryngwladol a dau Ddirprwy Is-Ganghellor Cyswllt sy'n goruchwylio campws Llundain a'r campysau yng Nghymru, yn y drefn honno. Mae'r dalwyr swyddi uwch hyn yn ffurfio'r tîm rheoli ar gyfer y Swyddfa Ryngwladol, gan gynnwys ar gyfer gweithgareddau recriwtio.

5.3 Mae'r Brifysgol wedi talu sylw i bwyntiau cyfeirio rhyngwladol drwy gynhyrchu'r *International Students Studying in the UK - Guidance for Higher Education Providers (2012)*, a gyhoeddwyd gan ASA. Mae'r Brifysgol hefyd yn cyfranogi yng Nghyngor Materion Myfyrwyr Rhyngwladol y DU (UKCISA) a Chymdeithas Cyswllt Rhyngwladol Prifysgolion Prydain (BUILA). Mae cymwysterau'r Brifysgol yn cydgysylltu â *Fframwaith Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop* (FQ-EHEA), ac mae'r sefydliad wedi mapio polisiau a gweithdrefnau yn erbyn y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop.

5.4 Mae'r Brifysgol yn cadw cofrestr o bartneriaethau cydweithredol ac yn ei chyhoeddi ar-lein. Nid yw'r Brifysgol yn gweithredu unrhyw gampysau rhyngwladol ond yn ddiweddar mae wedi sicrhau cymeradwyaeth am fenter partneriaeth i agor canolfannau dysgu tramor, yn Sri Lanca i ddechrau ac wedyn yng Nghasachstan ac Oman, gydag Ysgol Fasnach Llundain, ochr yn ochr â champws Llundain yr Ysgol. Mae gan y Brifysgol bartneriaethau rhyngwladol ffurfiol gyda Choleg IBAT yn Nulyn, y Coleg Rhyngwladol Asiaidd yn Singapôr a Phrifysgol Technoleg Wuhan yn Tsieina. Mae'r holl bartneriaethau, ynghyd â phartneriaeth sydd newydd ei chymeradwyo yn Hong Kong, wedi eu cymeradwyo neu eu hadolygu a'u hail gymeradwyo gan y Brifysgol ar ôl yr uno. Rhagwelir rhagor o bartneriaethau (gwelwch Ddisgwyliad B10).

5.5 Mae'r Brifysgol wedi gweithio i gryfhau'n sylweddol ei phrosesau ar gyfer recriwtio myfyrwyr rhyngwladol. Adolygwyd y contractau gyda'r holl asiantau a'u terfynu gyda darparwyr nad oedd eu gwasanaeth wedi cyrraedd y safon ddewisedig. Yn hytrach, penododd y Brifysgol ei Thîm Marchnata a Recriwtio ei hun, datblygodd ei deunyddiau marchnata uniongyrchol ei hun a phenodd farchnadoedd newydd i ganolbwyntio arnynt. Mae'r Brifysgol hefyd wedi gweithredu ar gyngor ac arweiniad a ddarperir gan Fisâu a Mewnffudo'r DU yn arbennig mewn perthynas â'i chyfradd gwrthod fisâu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei oruchwylio yn y Pwyllgor Rhyngwladol.

5.6 Mae'r Cynllun Strategol yn cyfeirio'n arbennig at bwysigrwydd dinasyddiaeth fyd-eang. Canfu'r tîm dystiolaeth glir o ryngwladoli yn y cwricwlwm. Gallai'r Brifysgol amlygu rhaglenni sy'n tynnu ar ddamcaniaethau ac agweddau rhyngwladol, a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer cynulleidfa o fyfyrwyr rhyngwladol, ac sy'n defnyddio siaradwyr rhyngwladol ac hefyd gyfres o raglenni ieithyddiaeth. Gall myfyrwyr hefyd gael gafael ar gyfleoedd i astudio dramor. Er gwaethaf hyn, canfu'r tîm mai dim ond cyfran fechan o'r myfyrwyr sydd wedi cymryd y cyfle i astudio dramor ac roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr israddedig a gyfarfu â'r tîm yn ystyried bod gan eu rhaglenni ffocws cenedlaethol yn hytrach na ffocws rhyngwladol. Lle mae myfyrwyr yn manteisio ar gyfleoedd i astudio dramor cânt eu cefnogi gan Gydlynnydd Astudio Dramor penodol sy'n gyfrifol am gynnal y Llawlyfr Semester Tramor manwl.

5.7 Gall myfyrwyr rhyngwladol gael gafael ar gymorth drwy'r Swyddfa Ryngwladol sydd hefyd yn gweithredu fel pwynt cyfeirio. Darperir gwybodaeth am y gwasanaethau mewn

Canllaw i Fyfirwyr Rhyngwladol pwrpasol ac hefyd drwy ddeunydd gwybodaeth sydd ar y rith-amgylchedd dysgu. Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn defnyddio dau rith-amgylchedd dysgu. Fodd bynnag, nid oedd y deunydd gwybodaeth i fyfirwyr rhyngwladol sydd ar y plattform i fyfirwyr yng Nghaerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan ar gael i'r myfirwyr sy'n defnyddio plattform Abertawe. Mae'r myfirwyr yn cael rhaglen ymsefydlu orfodol sy'n gynhwysfawr, mae gwasanaeth casglu o faes awyr ar waith ac mae Swyddog Lles yn trefnu rhaglen ddiwylliannol, yn cynnal clinig galw heibio ac yn cadw cysylltiad rheolaidd â myfirwyr rhyngwladol.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Hefyd, rhoddir diffiniadau o dermau gweithredol allweddol ar dudalennau 19 i 21 y [llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru](#).

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx.

Arfer da

Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu ASA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth darparwr addysg uwch ar safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau adolygu ASA.

Canlyniadau dysgu

Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Corff dyfarnu graddau

Darparwr addysg uwch y DU (prifysgol fel arfer) sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pŵerau yma wedi'u cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu dan Adran 76 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu o dan Adran 48 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaid, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor ASA (mewn ymateb i geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a addysgir, pŵerau dyfarnu graddau ymchwil neu deitl prifysgol).

Credyd(au)

Ffordd o fesur a chydabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu **rhaglenni astudio** addysg uwch, wedi'i fynegi fel nifer o greddyddau ar lefel benodol.

Cyfleoedd dysgu

Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academiaidd a phersonol, ac adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

Datganiad Meincnod Pwnc

Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

Diffiniad gweithredol

Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

Disgwyliadau

Datganiadau yn y **Cod Ansawdd** sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Dyfarniad dwbl neu ddyfarniad deuol

Rhoi dyfarniadau (a thystysgrifau) ar wahân ar gyfer yr un **rhaglen** gan ddau **gorff dyfarnu graddau** sydd wedi darparu'r rhaglen astudio sy'n arwain atynt ar y cyd. Gweler hefyd **dyfarniad lluosog**.

Dyfarniad

Cymhwyster, neu gredyd academiaidd, wedi'i gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r **canlyniadau dysgu** a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academiaidd a osodir ar gyfer **rhaglen** neu uned astudio.

Dyfarniadau lluosog

Trefniant lle mae tri **chorff dyfarnu graddau** neu fwy yn darparu, gyda'i gilydd, un **rhaglen** (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at **ddyfarniad** ar wahân (a thystysgrif ar wahân) gan bob un o'r cyrff dyfarnu. Mae'r trefniant yr un fath ag ydyw ar gyfer **dyfarniadau dwbl/deuol**, ond gyda thri chorff dyfarnu neu fwy'n cymryd rhan.

Dysgu cyfunol

Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu (gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**).

Dysgu gyda chymorth technoleg (neu e-ddysgu)

Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

Dysgu hyblyg a dosranedig

Rhaglen neu fodiwl nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol. Gweler hefyd **dysgu o bell**.

Dysgu o bell

Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiworiaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngwyd, mewnrwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'. Gweler hefyd **dysgu cyfunol**.

e-ddysgu

Gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**.

Ehangu cyfranogaeth

Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

Fframwaith cymwysterau addysg uwch

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academiaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

Fframwaith

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

Gwelliant

Y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol yn ein prosesau adolygu.

Gwybodaeth gyhoeddus

Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

Manylebau rhaglen

Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

Pwyntiau cyfeirio

Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

Rhaglen (astudio)

Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

Rhith-amgylchedd dysgu (RhAD)

Mewnrwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair (cyfeirir at hwn hefyd fel plattform neu ryngwyneb defnyddiwr) sy'n rhoi mynediad yn electronig i **gyfleoedd dysgu**. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi'u recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

Safon academaidd trothwy

Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyrwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **dyfarniad** academaidd. Mae safonau academaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y **fframweithiau** cenedlaethol a'r **Datganiadau Meincnod Pwnc**.

Safonau academaidd

Y safonau a osodir gan **gyrff dyfarnu graddau** ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwyllir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academaidd trothwy**.

Y Cod Ansawdd

Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sef y gyfres i'r DU gyfan o **bwyntiau cyfeirio** i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan ASA), sy'n nodi'r **Disgwyliadau** y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

QAA1338 – R3930 – Medi 15

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2015
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB

Ffôn: 01452 557 000
Ebost: enquiries@qaa.ac.uk
Gwefan: www.qaa.ac.uk

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786